

YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES

AMSERAU A THYMHORAU

~

TIMES AND SEASONS

Amserau a Thymhorau


Cyflwyniad gan Fainc yr Esgobion

Bwriad Mainc yr Esgobion, wrth awdurdodi'r adnoddau litwrgaidd sylweddol hyn ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru yw darparu deunydd digonol i wella ac i ategu ein haddoliadau beunyddiol gydag arwyddion a seremonïau priodol er mwyn pwysleisio ystyr y tymhorau a chyfoethogi ein haddoliad. Mae'r Fainc yn ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad aelodau blaenorol a chyfredol y Comisiwn Ymgynghorol Sefydlog ar y Litwrgi wrth gynhyrchu a golygu'r corff sylweddol hwn o waith. Fe'i cyhoeddir mewn pedair cyfrol: (1) o'r Adfent i Gyflwyniad Crist, (2) o'r Garawys hyd y Pentecost, (3) o'r Drindod i'r Deyrnas, a (4) Gwasanaethau Tymhorol ac Achlysuron Eraill.

Deunydd ychwanegol yw'r testunau hyn, a'r bwriad yw eu bod yn cyfoethogi nid yn disodli'r addoliadau rheolaidd sy'n cael eu gweinyddu gan y litwrgïau hynny sydd wedi eu hawdurdodi gan y Corff Llywodraethol ac sy'n rhan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Mae caniatâd i ddefnyddio'r deunyddiau newydd hyn ond nid ydynt yn orfodol, a dylid eu defnyddio a'u haddasu yn ôl yr arfer lleol.

Mewn llawer o'n Heglwysi, mae arferion lleol eisoes wedi datblygu gwahanol fathau o litwrgi atodol. Wrth wneud y ddarpariaeth newydd hon, mae'r esgobion yn cydnabod, er bod y deunydd hwn yn helaeth, nad yw'n cynnwys pob peth, ac nid ydynt am wahardd darpariaeth arall yn llwyr. Dylid ystyried y deunydd hwn, a gynhyrchwyd gan aelodau'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, ac a awdurdodwyd gan Fainc yr Esgobion, fel man cychwyn bob tro i'r rhai sy'n paratoi gwasanaethau litwrgiaidd ar y pynciau hyn, ond gellir ategu ac addasu'r deunydd hwn mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy ddefnyddio deunydd tebyg sy'n cael ei ddarparu mewn rhannau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod yna addewid yn y datganiadau ordeinio i ddefnyddio'n unig y litwrgïau hynny sy'n cael eu caniatáu gan awdurdod cyfreithlon, ac nid yw'n dderbyniol i litwrgïau nad ydynt yn perthyn i'r traddodiad Anglicanaidd gael eu defnyddio ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol sydd wedi eu hawdurdodi'n benodol gan yr esgob esgobaethol priodol. Nid oes erioed fwriad chwaith i ddarpariaeth anghyffredin ganiatáu i litwrgïau'r Llyfr Gweddi gael eu disodli'n gyfan gwbl gan ddeunydd nad yw'n rhan o'r traddodiad Anglicanaidd fel y'i derbyniwyd gan yr Eglwys yng Nghymru.



Times and Seasons


Introduction from the Bench of Bishops

In authorising these substantial liturgical resources for the Church in Wales, the Bench of Bishops is making provision for a wealth of material to enhance and supplement our regular worship with appropriate signs and ceremonies to highlight the meaning of the seasons and to enrich our worship. The Bench are grateful for the hard and dedicated work put in by past and present members of the Standing Liturgical Advisory Commission in the production and editing of this substantial body of work, which will be published in four volumes: (1) Advent to Candlemas, (2) Lent to Pentecost, (3) Trinity to Kingdom, and (4) Other Seasonal and Occasional Services.

These texts are by way of supplemental provision and are intended to extend but not replace the regular forms of worship provided by those liturgies authorised by Governing Body and provided as part of the Book of Common Prayer. These new texts are permissive and not prescriptive and should be used and adapted according to local custom.

In many of our Churches, local custom has already developed different forms of supplemental liturgy. In making this new provision, the bishops recognise that while this material is extensive, it is not exhaustive, and do not wish to proscribe other provision entirely. This material, produced by members of the Church in Wales for the Church in Wales, and authorised by the Bench of Bishops, should always be the first port of call for those developing liturgical services on these subjects, but this material itself may be supplemented and adapted in many ways, including by drawing on similar material provided in other Provinces of the Anglican Communion.

It is to be stressed, however, that the ordination declarations include a promise to use only those liturgies allowed by lawful authority, and it is not expected that liturgies from outside the Anglican tradition will be used except in exceptional circumstances explicitly authorised by the appropriate diocesan bishop, and that extraordinary provision is never intended to permit the wholesale replacement of the liturgies of the Prayer Book with material which is not part of the Anglican tradition as the Church in Wales has received it.



© Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Cyhoeddwyd gan
Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
Elusen gofrestredig, rhif 1142813
2 Sgwâr Callaghan,
Caerdydd
CF10 5BT

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf
ac eithrio'r ffurflenni a ganiateir fel y'u disgrifir isod.

HAWLFRAINT

Mae rhannau sylweddol o ddeunydd hawlfraint yn eiddo i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ac ni ellir eu hatgynhyrchu o fewn telerau unrhyw drwydded a ganiatawyd gan y Copyright Licensing Agency Limited na'r Publishers Licensing Society Limited.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir storio unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn system adalw, na throsglwyddo dim ohono ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, electronig, mecanyddol, llungopïo, cofnodi neu fel arall at ddibenion atgynhyrchu print heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Eglwys yng Nghymru, ac eithrio fel y caniateir yn benodol.

Atgynhyrchiad a Ganiateir

Gellir atgynhyrchu'r llyfr hwn neu unrhyw ran ohono, sef Amserau a Thymhorau, i'w ddefnyddio a heb dalu ffi ar yr amod nad yw copïau'n cael eu gwerthu, nad oes mwy na 250 o gopïau yn cael eu hatgynhyrchu ac y rhoddir enw'r plwyf, y gadeirlan neu'r sefydliad ar y clawr blaen neu'r dudalen flaen gyda'r disgrifiad o'r gwasanaeth a bod y gydnabyddiaeth ganlynol wedi'i chynnwys:

Amserau a Thymhorau.

© Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2022.

Dylai plwyfi, cadeirlannau neu sefydliadau sy'n dymuno atgynhyrchu testun neu lyfrau y tu allan i'r telerau uchod gyflwyno cais ysgrifenedig i'r diben hwnnw i'r Rheolwr Cyhoeddiadau, ym mhob achos dylid cadw copi fel cofnod o bob un o'r cyhoeddiadau:

publications@churcheinwales.org.uk

© The Representative Body of the Church in Wales

Published by
the Representative Body of the Church in Wales
a registered Charity, number 1142813
2 Callaghan Square,
Cardiff
CF10 5BT

No part of this publication may be reproduced in any form
other than the permitted forms as described below.

COPYRIGHT

Substantial parts of copyright material are owned by the Representative Body of the Church in Wales and may not be reproduced within the terms of any licence granted by the Copyright Licensing Agency Limited or the Publishers Licensing Society Limited.

All rights reserved. No part of this publication may be stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise for the purpose of printed reproduction without prior permission in writing from the Church in Wales, except as expressly permitted.

Permitted Reproduction

This book or any part of it, entitled Times and Seasons may be reproduced for use and without payment of a fee provided that copies are not sold, no more than 250 copies are reproduced and that the name of the parish, cathedral or institution is shown on the front cover or front page with the description of the service and that the following acknowledgement is included:

Times and Seasons.

© Copyright the Representative Body of the Church in Wales 2022.

Parishes, cathedrals or institutions wishing to reproduce text or books outside of the terms above should apply in writing to do so from the Publications Manager, in all cases a copy should be kept as a record of each of the publications:

publications@churchinwales.org.uk

Typeset in Plantin by Ritchie Craven,
the Representative Body of the Church in Wales

CYNNWYS

Rhan Un	o'r Adfent i Gyflwyniad Crist	1
Rhan Dau	
Rhan Tri	
Rhan Pedwar	

CONTENTS

Part One	Advent to the Presentation of Christ	1
Part Two	
Part Three	
Part Four	



Amserau a Thymhorau

Rhan Un

o'r Adfent i Gyflwyniad Crist

~

Times and Seasons

Part One

Advent to the Presentation of Christ

CYNNWYS

o'r Adfent i Gyflwyniad Crist

Adran 1	Rhagarweiniad Bugeiliol a Litwrgaidd	4
Adran 2	Adfent	6
Adran 3	Y Nadolig	33
Adran 4	Ystwyll i Cyflwyniad Crist	67
Adran 5	Gwasanaeth y Plygain	80
Adran 6	Atodiad	102

CONTENTS

Advent to the Presentation of Christ

Section 1	A Pastoral and Liturgical Introduction	4
Section 2	Advent	6
Section 3	Christmas	33
Section 4	Epiphany to The Presentation of Christ	67
Section 5	The Plygain	80
Section 6	Appendix	102

Adran 1

Rhagarweiniad Bugeiliol a Litwrgaidd

Dau ganolbwynt mawr y flwyddyn litwrgaidd yw'r Ymgnewdoliad a'r Atgyfodiad. Y cyntaf o'r rhain yw'r tymor sy'n ein tynnu ddyfnaf i ddirgelwch Duw, a ddaeth, yn ôl geiriau Efengyl Ioan, i 'osod ei babell yn ein plith'. Ond, yn union fel na allwn ddathlu'r Atgyfodiad heb ymwybyddiaeth o'r Ymgnewdoliad, rydym hefyd yn dathlu'r Ymgnewdoliad yn ymwybodol o'r Dioddefaint a'r Atgyfodiad sydd i ddod.

Yn draddodiadol, yr Adfent oedd y tymor ar gyfer ystyried y 'Pedwar Peth Diwethaf': Marwolaeth, Barn, Nefoedd ac Uffern. Roedd hyn yn ei wneud yn dymor prudd o fyfyrion ac yn ei osod o fewn cyd-destun paratoi, nid yn unig ar gyfer dathlu dyfodiad Crist i'r byd adeg y Nadolig, ond hefyd ar gyfer ei ddyfodiad mewn gogoniant ar ddiwedd amser. Ymdeimlad o ddisgwyliad yw, un o edrych ymlaen at ddatguddiad Duw i ni yn Iesu; a dyna pam y mae'r defnydd o olau yn ystod y tymor hwn mor symbolaidd. Ond mae'r tymor hefyd yn un o ddisgwyl am gyfiawnder. Er bod llawer o eglwysi yn parhau i fod heb flodau ynddynt yn ystod yr Adfent, mae llawer yn defnyddio gwyrddlesni fel arwydd o'r bywyd y mae cyfiawnder Duw yn ei roi. Ymysg y gwyrddlesni hwn mae Torchau'r Adfent sy'n ein hatgoffa o'r Patriarchiaid (Abraham, Isaac a Jacob), y Proffwydi, Ioan Fedyddiwr a'r Forwyn Fair, sydd i gyd yn derbyn parch arbennig yr adeg hon. Mae Gwasanaethau Carolau'r Adfent, sy'n amlygu themâu'r Adfent, yn atgof cymwys o'r tymor hwn. Y tu allan i'r Eglwys, mae'n ymddangos fel pe bai'r Adfent wedi mynd ar goll. Gall traddodiad Coeden Jesse, sy'n olrhain llinach Iesu a'i wreiddiau Iddewig, fod yn fodd gweledol i'n hatgoffa mai tymor o baratoi yw'r Adfent. Mae dathliadau Sant Nicolas a Santes Lleucu hefyd yn pwysleisio'r angen i baratoi'r galon a'r meddwl wrth i ni edrych ymlaen at y Nadolig. Yn yr wythnos cyn y Nadolig, o 17 Rhagfyr, caiff yr ymdeimlad o ddisgwyl ei ddwysáu trwy'r defnydd o Antiffonau'r Adfent (y saith 'O' mawr). Ffurf hynafol o weddi ddyddiol yw'r rhain sy'n myfyrio ar natur Crist gan blethu'r Ymgnewdoliad a stori'r Iachawdwriaeth.

Mae toreth o draddodiadau sy'n ymwneud â'r Nadolig ac mae'n bosib mai dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fo'r ffurf litwrgaidd yn cwrdd â'r angen bugeiliol yn ei ystyr ehangaf. Gan fod ysgolion a sefydliadau cymunedol yn cael eu croesawu i Wasanaethau Carolau a dathliadau Cristingl, mae'r Eglwys yn cyfarfod â llawer sy'n ceisio Duw, ond sy'n llai cyfarwydd â gweddi gyffredin. Drwy ddramâu'r Geni, gwasanaethau bendithio'r Preseb, yn ogystal â chanu carolau, daw'r ymdeimlad o'r Ymgnewdoliad yn agos a gosodir y llwyfan, nid yn unig ar gyfer y stori, ond ar gyfer cyfarfyddiad â Christ. Mae naws Cymun Bendigaid cyntaf y Nadolig, ar Noswyl Nadolig, yn aml yn wahanol i Gymun Bendigaid y bore; ond mae myfyrio ar ddirgelwch a rhyfeddod yr Ymgnewdoliad yn gyfle i bawb adnabod Iesu Grist yn ein plith. Mae gwasanaethau Plygain yn draddodiad Cymreig sy'n hynod gyffredin mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Er mai ychydig bellach a gynhelir am 3 o'r gloch y bore, sef amser traddodiadol Offeren y Bugeiliaid, mae traddodiad llafar y garol blygain yn parhau ac yn darparu dolen bwysig rhwng litwrgi a diwylliant. Gan fod troad y flwyddyn yn digwydd yng nghanol tymor y Nadolig mae'n gyfle da i fyfyrion ar ystyr yr Ymgnewdoliad yn ein bywydau, ac felly darperir gweddïau ac adnoddau ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

Section 1

A Pastoral and Liturgical Introduction

The two great pivots of the liturgical year are set around the Incarnation and the Resurrection. The first of these is the season which draws us most deeply into the mystery of God, who, in the words of John's Gospel, came and 'pitched his tent amongst us.' But, just as we cannot celebrate the Resurrection with no sense of the incarnation, we also celebrate the Incarnation with the knowledge of the forthcoming Passion and Resurrection.

Advent was traditionally the season for the consideration of the 'Four Last Things': Death, Judgement, Heaven and Hell. This made it a sombre season of reflection and set it within the context of preparation, not only for the celebration of the coming of Christ into the world at Christmas, but for his coming in glory at the end of time. The sense of anticipation is one of waiting for God's revelation to us in Jesus – hence the strong symbolic use of light at this season – but also one of waiting for justice. Although many churches still no longer have flowers in church during Advent, many use greenery as a sign of the life which God's justice comes to bring. Advent wreaths are a part of this greenery and remind us of the Patriarchs (Abraham, Isaac and Jacob), the Prophets, John the Baptist and the Virgin Mary, who are particularly honoured at this time. Advent Carol Services, which set out the themes of Advent, are an appropriate reminder of a season which, outside the Church, may appear to be lost. The tradition of the Jesse Tree, which explores the genealogy of Jesus and his Jewish roots, can be a visible reminder of Advent as a season of preparation. Celebrations of Saint Nicholas and Saint Lucy, too, emphasise the need for a preparation of heart and mind as we anticipate Christmas. In the week before Christmas, the sense of anticipation is increased by the use of the Advent Antiphons (the great 'Os') which are an ancient form of prayer which explore daily, from 17th December, the nature of Christ and weave into the Incarnation the story of Redemption.

Christmas is steeped in traditions of many kinds and is possibly the time of the year when liturgical form meets pastoral need in its widest sense. As schools and community organisations are welcomed for Carol Services and Christingle celebrations, the Church finds many who are seeking God, yet less familiar with corporate prayer. Through Nativity plays and scenes, Crib services and blessings, as well as the singing of carols, the Incarnation comes close and the stage is set, not only for the story, but for the encounter with Christ. The First Eucharist of Christmas on Christmas Eve often has a different character from the morning Eucharist, but reflection on the mystery and wonder of the Incarnation provide an opportunity for all to recognise Jesus Christ amongst us. Plygain services are a Welsh tradition particularly common in Welsh speaking areas. Although few now occur at 3 o'clock in the morning, when the Mass of the Shepherds was traditionally celebrated, the oral tradition of the plygain carol continues and provides a vital link between liturgy and culture. The turning of the year coming in the middle of the Christmas season is a good opportunity to examine the meaning of that Incarnation in our lives, and so prayers and resources are provided for the new year.

Amserau a Thymhorau

I'r Cymundeb Anglicanaidd, yr Ystwyll yw'r tymor estynedig sy'n dechrau ag ymweliad y sêr-ddewiniaid ac yn mynd rhagddo i ystyried 'amlygiad Crist i'r Cenhedloedd'. Mae'n cynnwys Bedydd Crist, y gwyrthiau iacháu a'r wyrth yng Nghana Galilea, lle y trowyd dŵr yn win, ac mae'n pwysleisio'r cariad trawsnewidiol a ddaw ym mhresenoldeb Iesu. Mae'r traddodiad o fendithio sialc, ar gyfer ysgrifennu bendith ar dŷ, ger drws y cartref, a bendithio calendrau, yn enghreifftiau o'r modd y mae litwrgi yn cyffwrdd â bywyd beunyddiol trwy ein hatgoffa o bresenoldeb Duw yn y pethau cyffredin.

Mae Gŵyl Fair y Canhwyllau, neu Gyflwyniad Crist, yn nodi diwedd tymor y Nadolig ac yn darparu cyswllt rhwng tymor yr Ymgawdoliad a thymor yr Atgyfodiad: 'un tremiad olaf yn ôl at y Nadolig, ac yn awr trowch i gyfeiriad y groes!'. Amlygir y cyswllt hwn yn y croeso a roddir gan Simeon i'r baban Iesu a'r rhybudd a roddir ganddo i'w fam ('a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf.'). Caiff y canhwyllau a'r goleuadau a ddefnyddir ar gyfer Gŵyl Fair y Canhwyllau eu cymryd i'r fedyddfan. Yno dathlwn Grist fel Goleuni'r byd, gan addo aros yn ffyddlon i'r goleuni hwnnw, a dechrau paratoi ar gyfer y Garawys a'n mynediad i ddyfnder dirgelwch y Pasg. Mae'r fedyddfaen yn ein hatgoffa ein bod wedi marw ac atgyfodi gyda Christ yn y bedydd, ond mae'r goleuni yn ein sicrhau o'i bresenoldeb parhaus gyda ni.

Times and Seasons

Epiphany, for the Anglican Communion, is an extended season which begins with the visit of the Magi and goes on to explore the ‘manifestation of Christ to the Gentiles.’ It includes the Baptism of Christ, the healing miracles and the miracle at Cana in Galilee, where water was changed to wine, and provides an emphasis on the transforming love brought by the presence of Jesus. The traditional blessing of chalk, for writing a blessing on the house at the doorway of the home, and blessing of calendars, are examples of how liturgy meets daily life in the reminder given of God’s presence in the ordinary.

Candlemas, or the Presentation of Christ, marks the end of the Christmas season and provides a link between the season of the Incarnation and the season of the Resurrection: ‘one last look back to Christmas, and now turn towards the cross!’¹ This link is shown in the welcome Simeon gives the Christ child and the warning Anna gives to his mother (‘...a sword shall pierce your own heart also.’). The candles and lights used for Candlemas are taken to the place of our baptism, the font, where we celebrate Christ as the Light of the world, pledge ourselves to remain true to that light, and begin to prepare for Lent and our entrance into the deep mystery of Easter. The font reminds us that we have died and risen with Christ in baptism, but the light reassures us of his constant presence with us.

Adran 2

Yr Adfent

Rhagarweiniad i'r Tymor

Yn hemisffer y gogledd mae tymor yr Adfent yn mynd â ni'n ddwfn i galon y gaeaf. Roedd y gaeaf yn adeg anodd iawn i bobl y gorffennol am fod newyn wrth y drws a haint ac afiechyd yn bygwth. Gallai teithio fod yn anodd neu'n amhosibl, hefyd, wrth i lwybrau rewi a ffyrdd wedi diflannu dan ddŵr. Roedd angen paratoi'n ddyfal er mwyn goroesi'r gaeaf a chyrraedd y gwanwyn a'i arwyddion o fywyd newydd heb yr un anaf.

Wrth i olau dydd leihau a thywyllwch gynyddu fe ysgogir yr eglwys i weddio: yn naturiol, gall moelni Rhagfyr ein cymell i ddyheu am arwyddion o obaith. Yn ei hysgrythurau, ei salmau a'i gweddiâu Adfent mae'r Eglwys yn dangos ei bod hi'n rhannu yn y dyheu naturiol a greddfol am oleuni a bywyd, gobaith ac iachawdwriaeth, goroesiad a llesiant, iechyd a chyflawnder oddi mewn. A yw hi'n syndod fod y byd, y tu allan i'r eglwys, yn ysu i ddechrau ar y dathliadau ymhell cyn pryd?

Mae'r gymuned Gristnogol, fodd bynnag, yn edrych uwchlaw a thu draw i'r byd naturiol ac yn talu sylw manwl i leisiau'r proffwydi; i Eseia, Jeremeia, Ioan Fedyddiwr ac, yn bwysicach fyth, i Iesu. Y maent, i gyd, yn cyhoeddi teyrnasiad Duw. Mae gwranddo cywir yn gofyn am ymlonyddu a chanolbwytio, am amynedd ac aros disgybledig, ac am gael gwared ar bethau sy'n tarfu. Adlewyrchir hynny yn aml yn naws ddwys yr Adfent ac yn y cyfyngu ar arwyddion sy'n awgrymu dathlu. Yn ystod yr Adfent hepgorir y Gloria ar ddydd Sul, a cheir gwared ar annibendod ac addurn diangenrhaid o'r safle litwrgaidd. O ganlyniad, bydd ein haddoli yn adlewyrchu tystiolaeth a datganiad Ioan Fedyddiwr i wneud yn union ffordd yr Arglwydd, yn ogystal â darparu rhagarweiniad cynnil i lewyrch y Nadolig. Mae darlleniadau Ysgrythurol yr Adfent yn llawn delweddau o ogonaiant a mawredd Duw, o'i allu a'i fawrhydi, a chawn ni, ei bobl, ein llanw â pharchedig ofn a rhyfeddod, anesmwythyd a phryder. 'Mae'r Arglwydd yn dyfod, ewch allan i'w gyfarfod.' Mae yna ymdeimlad o frys.

Mae naws yr Adfent yn un o edifeirwch, ond ni ddylid ei chymharu â naws y Garawys. Mae ein hangen i edifarhau yn ystod yr Adfent yn deillio o neges Iesu i fod yn wyliadwrus, a pharod i'w groesawu pan ddaw. Mae'r nodwedd eschatolegol unigryw hon sy'n perthyn i'r Adfent, yn gofyn, o raid, am hunan-ymchwil a pharodrwydd i dderbyn maddeuant, cyfiawnder a thangnefedd yr Arglwydd: nodweddion ei deyrnas. Credwn y daw Crist i farnu'r byw a'r meirw, felly nid yw gweddi ac edifeirwch yn ddewis. Ond creir cydbwysedd gan yr alwad i lawenhau ac edrych ymlaen yn ddisgwylgar at ddyfodiad yr Arglwydd. Mae edifeirwch a mawl yn cyd-ymddangos law yn llaw.

Lliw litwrgaidd y tymor yw porffor er ei fod yn lliw porffor gwahanol i'r un a ddefnyddir yn ystod y Garawys: mae'n dywyllach ac yn ddyfnach, nid ydyw'n borffor brenhinol. Ymddengys hefyd fod cynsail hanesyddol i'r defnydd o las tywyll, yn enwedig yng Ngogledd Ewrop. Ar y Trydydd Sul o'r Adfent (Sul Gaudate) y lliw opsiynol yn aml yw lliw rhosyn, a gaiff ei adlewyrchu yn lliw amgen kannwyll yr Adfent yr wythnos honno, sy'n cynrychioli wybren y gaeaf adeg gwawr neu gyfnos, machlud yr haul yn isel yn yr awyr, a'r chwilio am olau a'r addewid ohono: delwedd

Section 2

Advent

Introduction to the Season

In the northern hemisphere, the Advent season takes us deep into the heart of winter. In past generations, of course, winter brought the risk of starvation and the very real danger of illness and sickness. Transport became difficult, sometimes impossible, with frozen tracks or waterlogged roads. There was much preparation to be made in order to win the winter battle and to arrive unscathed at the signs of spring and new life.

The decrease of daylight and the deepening darkness stirs the church to prayer: the bleakness of December can naturally cause us to yearn for signs of hope. In its scriptures, psalm, prayers and songs of Advent the church shares in much of the natural and very human yearning for light and life, for hope and salvation, for survival and well being, health and wholeness. Is it any wonder that the world outside the church cannot wait to begin their celebrations prematurely?

However, the Christian community looks above and beyond the natural world and pays close attention to the voice of the prophets, to Isaiah, Jeremiah, John the Baptist and, most importantly, Jesus who, together, announce God's reign. Good listening requires stillness, attentiveness, patience, disciplined waiting and the disposal of distractions which is reflected in the often sombre nature Advent takes and the restraint of certain signs of celebration. During Advent the Gloria is omitted on Sundays, and the liturgical space is cleared of clutter and unnecessary adornment so that our worship reflects the witness and proclamation of John the Baptist to make a straight path for the Lord, as well providing a subtle prelude to the Christmas brightness to follow. The scripture readings during Advent are filled with images of God's glory and might, his power and majesty, and we, his people, are filled with awe and wonder, trepidation and fear. 'The Lord is coming; go out to meet him.' There is a sense of urgency.

There is a penitential atmosphere during Advent but it is not to be confused or likened with that of Lent. Our need for penance during Advent comes from the message of Jesus to 'Keep Watch' and to be ready to welcome him when he comes. This distinctively eschatological character of Advent necessarily demands self examination and openness to the forgiveness, justice and peace of the Lord by which his kingdom is marked. We believe that Christ will come to judge the living and the dead: prayer and penance, then, is not an option. However, it is balanced by the call to 'Rejoice' and to look forward with expectancy and anticipation for the coming of the Lord. Penance and praise go hand in hand.

The liturgical colour of the season is purple although it is a different colour purple from that used during Lent: it is darker and deeper, not royal purple. There also seems to be historical precedent for the use of dark blue, especially in Northern Europe. On the Third Sunday of Advent (Gaudate Sunday) the optional colour, reflected in the alternative colour of the Advent candle that week, is often rose, reflecting the winter sky at dawn or dusk, the setting

Amserau a Thymhorau

naturiol i ni, efallai, o'r dydd diwethaf pan fydd Crist, Seren y Bore, o'r diwedd yn gwawrio. Mae'n nodi'r amser pan fo'r Adfent, tra'n symud i gyfeiriad diwrnod tywyllaf a byrraf y flwyddyn, yn cymryd tro naturiol ar 17 Rhagfyr. Bryd hynny bydd ein sylw a'n paratodau'n canolbwyntio mwy ar ddathlu genedigaeth Crist ym Methlehem a chymeriadau Ioan Fedyddiwr, Joseff a'r Forwyn Fair Fendigaid yn cymryd y flaenoriaeth yn efengylau'r Sul. Mae'n bryd llawenhau! 'Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel' (Eseia 7:14). Mae Antiffonau'r Adfent (a welir yn Nhrefn Hwyrrol Weddi yr Eglwys yng Nghymru) yn fynegiant hynafol, pwysig a threiddgar o'r disgwyl am enedigaeth Crist.

Caiff pwyslais deul yr Adfent ei adlewyrchu yng nghalendr a litwrgïau'r Eglwys yng Nghymru er nad yw'r amserau hyn yn annibynnol ar ei gilydd: mae'r naill yn cyflenwi'r llall. Fodd bynnag, mae agwedd bwysig arall i'r tymor hwn gan fod yr Adfent yn ein galw i amlygu dyfodiad Crist yn ein bywydau ni'n hunain fel y deugn ni, Pobl Dduw, yn Adfent Crist i'r byd, y rhai drwy eu bywydau o sancteiddrwydd, heddwch, cariad a chyfiawnder sy'n arddangos presenoldeb Iesu. Mae'r Adfent yn un o dymhorau hyfrytaf yr eglwys. Mae'n adeg o aros a llawenhau, o ddisgwyl a dyheu, o baratoi ac edrych ymlaen am yr hyn nas gwiredwyd eto. Mae'n dymor sydd yn gyforiog o obaith.

Mae'r litwrgïau a'r gweddïau a geir yn yr adran hon yn gwneud defnydd o themâu poblogaidd a chwbl gyfarwydd goleuni a thwyllwch, ond mae'r Adfent yn llawer cyfoethocach na hyn, yn enwedig wrth i thema'r goleuni gyrraedd ei chyflawniad a'i phenllanw yn y Nadolig, yr Ystwyll a Gŵyl Fair y Canhwyllau. Mae'r Adfent yn ein cynorthwyo i weld y goleuni'n torri i mewn ac yn mynegi ein dyhead am Grist; ond anogir eglwysi i ystyried a mynegi'r symbolaeth a'r delweddau cyfoethocach fyth a ysbrydolir gan yr Adfent.

Dwy ddefod y gellir eu dathlu yn y cartref yw Torch yr Adfent a Choeden Jesse ac maent yn ffyrdd cymharol hawdd o alluogi pawb o bob oed i gymryd rhan yn nathliadau'r Adfent. Mae'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig yn darparu nifer o gyfeiriadau Ysgrythurol ar gyfer ein dathliadau Adfent ac mae hefyd adnoddau Adfent yn y Drefn ar gyfer y Foreol a'r Hwyrrol Weddi, rhai ohonynt wedi eu hymgorffori yn y litwrgïau a'r gweddïau a ddarparwyd yma.

Torch yr Adfent

Defod a ddechreuodd yn y cartref yw Torch yr Adfent ac y mae i'w hybu. Bellach, fodd bynnag, y mae gan lawer o eglwysi dorch yn yr eglwys. Nid oes unrhyw reidrwydd litwrgaidd i hyn ond cynigir y canlynol fel adnodd i'r plwyfi hynny sydd wedi mabwysiadu'r arfer.

Gellir bendithio Torch yr Adfent yn yr Hwyrrol Weddi ar noswyl Sul yr Adfent ac yna gellid goleuo'r gannwyll gyntaf. Os mai dyna'r drefn, gellir bendithio ar ôl Gweddi'r Arglwydd, a goleuo'r gannwyll gyntaf wedyn. Ar y llaw arall, gellir cynnwys y ddefod oddi mewn i Litwrgi'r Gair mewn gwasanaeth arall ar wylnos Sul yr Adfent.

Os goleuir y canhwyllau ar bob Sul yn yr Adfent, yna mae'n briodol goleuo canhwyllau Torch yr Adfent fel rhan o'r Dod Ynghyd yn y Cymun Bendigaid, ar ôl y cyfarchiad, neu hyd yn oed cyn i'r Cymun Bendigaid ddechrau. Bydd ble i osod y dorch yn dibynnu ar ei maint ond ni ddylai guddio'r allor na'r ddarllenfa.

Gall y dorch fod yn yr eglwys gydol tymor y Nadolig. Os goleuir y canhwyllau fel rhan o'r Dod Ynghyd yn y Cymun Bendigaid gellir defnyddio'r canlynol.

of the sun low in the sky, and the seeking out and promise of light: a natural image for us, perhaps, of the final day at which Christ the Morning Star at last will dawn. It marks the time when Advent, moving towards the darkest and shortest day of the year, takes a natural turn on December 17 when our attention and preparations focus more on the celebration of Christ's birth in Bethlehem as the figures of John the Baptist, Joseph and the Blessed Virgin Mary take precedence in the Sunday gospels. It is time to rejoice! 'The woman is with child and will give birth to a son whom she will name Emmanuel' (*Isaiah 7:16*). The Advent Antiphons (which are found in the Order for Evening Prayer of the Church in Wales) are an ancient, important and profound expression of the anticipation of Christ's birth.

This dual focus of Advent is reflected in the calendar and liturgies of the Church in Wales although these times are not mutually exclusive: each informs the other. However, there is also another important aspect of this season as Advent calls us to the coming of Christ into our own lives so that we, the People of God, become the Advent of Christ for the world, the ones through whom the presence of Jesus is made known through lives of holiness, peace, love and justice. Advent is a beautiful season of the church. It is a time of anticipation and joy, waiting and longing, preparation and unfulfilled expectancy. It is a season pregnant with hope.

The liturgies and prayers provided in this section make use of the well used and often celebrated themes of light and dark but Advent is far richer than this, especially as the light theme reaches its fulfilment and climax with Christmas, Epiphany and Candlemas. Advent helps us to see the light breaking in and expresses our longing for Christ but churches are encouraged to explore and express the even richer symbolism and imagery which Advent inspires.

The Advent Wreath and the Jesse Tree are both customs that can be celebrated in the home and are relatively easy ways of enabling all ages to participate in the celebrations of Advent. The Revised Common Lectionary provides rich Scriptural references for our Advent celebrations and there are also Advent resources in the Order for Morning and Evening Prayer, some of which have been incorporated into the liturgies and prayers provided here.

The Advent Wreath

The Advent wreath is a custom that began in the home and is to be encouraged. However, many parishes now have a wreath in church. There is no liturgical necessity for this but the following is offered as a resource for those parishes that have adopted this practice.

The Advent Wreath may be blessed at Evening Prayer on the eve of Advent Sunday followed by the lighting of the first candle. If this is the case the Blessing may take place after the Lord's Prayer, followed by the lighting of the first candle. Alternatively, it may be celebrated within a separate Liturgy of the Word on the eve of Advent Sunday.

If the candles are lit on each Sunday of Advent then it is appropriate to light the candles of the Advent Wreath during the Gathering rites of the Eucharist, after the greeting, or even before the Eucharist begins. The size of the wreath determines where it should be placed but it should not obscure the altar or lectern.

The wreath may remain in church through the Christmas season. If the candles are lit as part of the Gathering Rite at the Eucharist the following may be used.

Bendithio Torch yr Adfent

Cyfarchiad

Oddi wrth y Crist a oedd, y sydd, ac sydd i ddod:
gras, goleuni a thangnefedd fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Rhagarweiniad

Annwyl ffrindiau, yr ydym yn dechrau'r paratodau sy'n nodweddu tymor yr Adfent er mwyn i ni gael croesawu dyfodiad Crist. Gadewch i ni geisio'r goleuni na all neb ond ef ei ddwyn, goleuni na all unrhyw dywyllwch ei drechu. Wrth fod y dyddiau'n byrhau a'r nosweithiau'n prysur gau i mewn, gadewch i ni weddio y byddwn yn effro i'w bresenoldeb disglair ac yn barod i'w groesawu pan ddaw mewn gogoniant.

Bendithio Torch yr Adfent

Arglwydd Dduw,
mae dy eglwys yn llawen ddisgwyl am ddyfodiad ei Gwardwr,
sydd yn rhoi llewyrch i'n calonnau
ac yn gwasgaru tywyllwch anwybodaeth a phechod.
Tywallt dy fendith arnom
wrth inni oleuo canhwylau'r dorch hon;
bydded i'w goleuni adlewyrchu ysblander Crist
sydd yn Arglwydd, byth bythoedd. **Amen.**

Gweddïau ar gyfer Goleuo Torch yr Adfent

Gellir goleuo'r canhwylau mewn distawrwydd, er mwyn sicrhau sylw llwyr pawb sy'n bresennol neu gellir dweud gwersigl ac ymateb syml megis:

Iesu Grist yw goleuni'r byd:
goleuni na all unrhyw dywyllwch ei drechu.

Mae dwy set o weddïau wedi eu darparu. Mae'r set gyntaf yn cysylltu themâu'r patriarchiaid, y proffwydi, Ioan Fedyddiwr a'r Forwyn Fair Fendigaid â'r golygfeydd tymhorol: dyddiau byr, nosweithiau hir, haul y gaeaf yn isel yn yr awyr, yr oerfel yn treiddio i mewn, a'r chwilio am gynhesrwydd. Mae'r ail set yn symlach ac efallai'n fwy addas ar gyfer plant. Gellir defnyddio'r wersigl ac ymateb a welir uchod cyn y gweddïau.

Blessing of the Advent Wreath

Greeting

From the Christ who was, who is, and who is to come:
grace, light and peace be with you.

And also with you.

Introduction

Dear Friends, we begin our advent preparations to welcome the coming of Christ. Let us seek the light that he alone can bring, a light no darkness can overpower. As the days shorten and the nights draw swiftly in, let us pray that we may be alert to his glowing presence and ready to welcome him when he comes in glory.

Blessing of the Advent Wreath

Lord God,
your church joyfully awaits the coming of her Saviour.
who enlightens our hearts
and dispels the darkness of ignorance and sin.
Pour your blessing upon us
as we light the candles of this wreath;
may their light reflect the splendour of Christ
who is Lord, for ever and ever. **Amen.**

Prayers for the Lighting of the Advent Wreath

The candles may be lit in silence, the action therefore deserving the full attention of all present or accompanied by a simple verse and response such as:

Jesus Christ is the light of the world:
a light no darkness can overpower.

There are two sets of prayers provided. The first set of prayers unites the themes of the patriarchs, prophets, John the Baptist and the Blessed Virgin Mary with the seasonal sights, sounds and rhythm of the world during the winter: short days, long nights, the winter sun low in the sky, the cold creeping in, and the seeking out of warmth. The second set are more simply written and may be more appropriate for use with children. The prayers may be preceded by the response set out above.

Goleuo'r Canhwyllau (Set I)

Adfent 1

O Dduw tragwyddol
wrth fod y tywyllwch yn ymdaenu ar draws ein henwlad
a'r gaeaf oer yn pwysu'n drwm ar ein bywydau
goleuwn gannwyll
i oleuo'r cysgodion
a chynhesu'n calonnau,
fel y bo iddo ef y soniodd y patriarchiaid amdano
ein cael yn effro i'w bresenoldeb
ac yn barod i'w groesawu ef sydd yn Oleuni'r byd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd byth bythoedd. **Amen.**

Adfent 2

O Dduw tragwyddol,
wrth fod y dyddiau'n byrhau
a'r nosweithiau'n prysur gau i mewn
goleuwn gannwyll
i oleuo'n meddyliau
a chyffroi'n calonnau
fel y bo iddo ef y soniodd y proffwydi amdano
ein cael yn gwyllo ac yn aros i'w groesawu ef sydd yn Oleuni'r byd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd byth bythoedd. **Amen.**

Adfent 3

O Dduw tragwyddol,
wrth fod y tywyllwch yn nesáu
a'r nos yn oedi'n hir
goleuwn gannwyll
i wasgaru tywyllwch ein calonnau
ac erlid ymaith gysgodion ein meddyliau
fel y bo iddo ef y soniodd Ioan Fedyddiwr amdano
ganfod llwybr disglair a chllir
a'n cael yn barod ac yn fodlon i'w groesawu ef sydd yn Oleuni'r byd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd byth bythoedd. **Amen.**

Adfent 4

O Dduw tragwyddol,
wrth geisio disgleirdeb y wawr
ac ymestyniad y dydd
goleuwn gannwyll
i fywiogi'n calonnau a chynhesu'n bywydau rhewllyd
fel y bo iddo ef a wnaethpwyd yn gnawd yng nghroth Mair
ein cael yn awyddus i'w groesawu
ac yn barod i'w gofleidio ef sydd yn Oleuni'r byd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd byth bythoedd. **Amen.**

Lighting of the Candles (Set I)

Advent 1

Eternal God,
as darkness settles across our ancient land
and the cold winter lays heavy upon our lives
we light a candle
to brighten the shadows
and warm our hearts,
so that he of whom the patriarchs spoke
may find us alert to his presence
and ready to welcome him, the Light of the world,
for he is Lord forever and ever. **Amen.**

Advent 2

Eternal God,
as the days shorten
and the evenings draw swiftly in
we light a candle
to enlighten our minds
and stir our hearts
so that he of whom the prophets spoke
may find us watching and waiting to welcome him, the Light of the world,
for he is Lord forever and ever. **Amen.**

Advent 3

Eternal God,
as the darkness beckons closer
and the night-time lingers on
we light a candle
to dispel the darkness of our hearts
and chase away the shadows of our minds
so that he of whom John the Baptist spoke
may find a bright and clear path
and find us ready and willing to welcome him, the Light of the world,
for he is Lord forever and ever. **Amen.**

Advent 4

Eternal God,
as we seek the dawning brightness
and the lengthening of days
we light a candle
to quicken our hearts and warm our frozen lives
so that he who took flesh in the womb of Mary
may find us eager to welcome him
and ready to embrace him, the Light of the world,
for he is Lord forever and ever. **Amen.**

Dydd Nadolig

O Dduw tragwyddol,
wrth groesawu genedigaeth Crist â llawenydd
goleuwn gannwyll
i dafu llewyrch ar ein calonnau
a mynegi bod ein llawenydd yn gorlifo
fel y bo iddo ef a anwyd o Fair ar y dydd hwn,
ein cael ni wedi dod ynghyd i'w groesawu
ac yn barod i'w wasanaethu ef sydd yn Oleuni'r byd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd byth bythoedd. **Amen.**

Yn y Cymun Bendigaid, mae'r weddi agoriadol:- 'Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol'
yn briodol i'w defnyddio. Parheir â'r Cymun Bendigaid drwy fynd ymlaen at y Weithred o
Edifeirwch.

Goleuo'r canhwyllau (Set II)

Adfent 1

Brysia, Arglwydd Iesu,
a thyrd atom yn fuan:
llanw ein calonnau â chyffro
am dy ddyfodiad i'r byd.
Bydded i'th hen addewidion
gyflawni gobeithion pawb ar y ddaear.
Amen. (neu Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu)

Adfent 2

Brysia, Arglwydd Iesu,
a thyrd atom yn fuan:
llanw ein calonnau â moliant
am dy ddyfodiad i'r byd.
Bydded i neges y proffwydi
gyrraedd clustiau pawb ar y ddaear.
Amen. (neu Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu)

Adfent 3

Brysia, Arglwydd Iesu,
a thyrd atom yn fuan:
llanw ein calonnau â llawenydd
am dy ddyfodiad i'r byd.
Bydded i neges Ioan Fedyddiwr
agor calonnau pawb ar y ddaear.
Amen. (neu Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu)

Christmas Day

Eternal God,
as we greet the birth of Christ with joy
we light a candle
to illuminate our hearts
and express our overflowing joy
so that he who is born of Mary this day,
may see us gathered to greet him
and ready to attend to him, the Light of the world,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

In the Holy Eucharist, the opening prayer: 'Father of glory, holy and eternal' is appropriate to use. The Eucharist then continues with the Penitential Rite.

Lighting of the Candles (Set II)

Advent 1

Hurry, Lord Jesus,
and come to us quickly:
fill our hearts with excitement
at your coming into the world.
May your ancient promises
fulfil the hopes of everyone on earth.
Amen. (*or* **Amen. Come, Lord Jesus**)

Advent 2

Hurry, Lord Jesus,
and come to us quickly:
fill our hearts with praise
at your coming into the world.
May the message of the prophets
reach the ears of everyone on earth.
Amen. (*or* **Amen. Come, Lord Jesus**)

Advent 3

Hurry, Lord Jesus
and come to us quickly:
fill our hearts with joy
at your coming into the world.
May the words of John the Baptist
open the hearts of everyone on earth.
Amen. (*or* **Amen. Come, Lord Jesus**)

Adfent 4

Brysia, Arglwydd Iesu,
a thyrd atom yn fuan:
llanw ein calonnau â pharchedig ofn
am dy ddyfodiad i'r byd.
Bydded i lawenydd Mair
lanw bywydau pawb ar y ddaear.
Amen. (*neu* **Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu**)

Dydd Nadolig

Arglwydd Iesu,
Fe'th aned i'r byd hwn
a chrosawn di i'n calonnau.
Bydded i oleuni dy gariad
ddod â thangnefedd disglair a llawenydd gloyw
i bawb ar y ddaear,
oherwydd yr wyt ti yn Arglwydd.
Amen.

Yn y Cymun Bendigaid, mae'r weddi agoriadol:- 'Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol'
yn briodol i'w defnyddio. Parheir â'r Cymun Bendigaid drwy fynd ymlaen at y Weithred o
Edifeirwch.

Advent 4

Hurry, Lord Jesus,
and come to us quickly:
fill our hearts with awe
at your coming into the world.
May the joy of Mary
fill the lives of everyone on earth.
Amen. (*or* **Amen. Come, Lord Jesus**)

Christmas Day

Lord Jesus,
you have born into this world
and we welcome you into our hearts.
May the light of your love
bring shining peace and brilliant joy
to everyone on earth,
for you are Lord, for ever and ever.
Amen.

In the Holy Eucharist, the opening prayer: 'Father of glory, holy and eternal' is appropriate to use. The Eucharist then continues with the Penitential Rite.

Deunydd Ychwanegol ar gyfer y Cymun Bendigaid yn ystod yr Adfent

Gellir defnyddio'r canlynol.

Cyfarchiad

(tan 16 Rhagfyr)

Oddi wrth y Crist a oedd, y sydd, ac sydd i ddod:
Gras a thangnefedd fyddo gyda chwi oll.
A hefyd gyda thi.

(17 Rhagfyr ymlaen)

Bydded i ras a thangnefedd ein Harglwydd Iesu Grist,
sy'n dyfod i'r byd, fod gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Gweithred o Edifeirwch

(tan 16 Rhagfyr)

Fy mrodyr a'm chwiorydd,
bydded i ni fod yn effro i adfent Duw
a pharatoi ffordd yr Arglwydd trwy droi oddi wrth bechod,
cofleidio cyfiawnder a gwirionedd,
a chael cysur yn y Crist sy'n addo tangnefedd.

Brawddegau Edifeirwch o'r Cymun Bendigaid (2004).

naill ai:

Arglwydd Iesu, daethost i gasglu'r cenhedloedd i deyrnas dy dangnefedd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, yr wyt yn dod mewn gair a sacrament i'n cryfhau mewn sancteiddrwydd.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, byddi'n dod mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu:

Arglwydd Iesu, daethost fel ein Gwaredwr i gyhoeddi newyddion da iachawdwriaeth.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, rwyf yn dod fel bugail i'n dwyn ynghyd a'n bwydo.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, byddi'n dod fel Barnwr i sefydlu nef newydd a daear newydd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Additional Material for the Eucharist during Advent

The following may be used.

Greeting

(to 16 December)

From the Christ who was, who is, and who is to come:
Grace and peace be with you all.
And also with you.

(from 17 December)

May the grace and peace of our Lord Jesus Christ,
who is coming into the world, be with you.
And also with you.

Penitential Rite

(to 16 December)

My brothers and sisters,
let us be alert to the advent of God
and prepare the Lord's way by turning from sin,
embracing justice and truth,
and finding comfort in the Christ who promises peace.

The Penitential Sentences from the Holy Eucharist (2004).

either:

Lord, Jesus, you came to gather the nations into your kingdom of peace.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, you come in word and sacrament to strengthen us in holiness.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you will come in glory to judge the living and the dead.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

or:

Lord Jesus, you came as our Redeemer to announce glad tidings of salvation.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

Lord Jesus, you come as shepherd to gather and feed us.
Christ have mercy. **Christ have mercy.**

Lord Jesus, you will come as Judge to establish a new heaven and a new earth.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

(17 Rhagfyr ymlaen)

Fy mrodyr a'm chwiorydd,
fel y mae gwawrddydd dyfodiad Crist yn treiddio i'n bywydau
gadewch i ni droi ymaith o dywyllwch pechod
fel y bo i lewyrch cariad Duw ddisgleirio arnom ni.

naill ai:

O Ddoethineb y Goruchaf,
rhoddi drefn ar bopeth â'th law gadarn a thyner:
dysg i ni lwybr barn gywir.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

O Dywysog Israel,
ymddangosaist i Moses yn y berth oedd ar dân:
tyrd a gwared ni â'th law estynedig.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

O wreiddyn Jesse,
sy'n sefyll fel baner i'r cenhedloedd:
tyrd a rhyddha ni, nac oeda.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu:

O Allwedd Dafydd,
ti sydd â'r gallu i agor a selio:
tyrd ac arwain ni o dywyllwch a glyn cysgod angau.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

O Seren Fore,
ti yw disgleirdeb y goleuni tragwyddol:
tyrd a llewyrcha ar y rhai sy'n byw mewn tywyllwch a chysgod angau.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

O Frenin y cenhedloedd,
ti yw'r Arglwydd yr hiraethant amdano:
tyrd ac achub pawb a luniaist o'r pridd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

(from 17 December)

My brothers and sisters,
as the dawn of Christ's coming breaks into our lives,
let us turn away from the darkness of sin
that the radiance of God's love will shine upon us.

either:

O Wisdom of the Most High,
you set all things in order with your strong and gentle hand:
teach us the path of true judgement.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

O Prince of Israel,
you appeared to Moses in the burning bush:
come and deliver us with outstretched hand.
Christ have mercy. **Christ have mercy.**

O Root of Jesse,
standing like a banner before all nations:
come and set us free, do not delay.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

or:

O Key of David,
with power to open and seal:
come and lead us from darkness and the shadow of death.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

O Morning Star,
you are the radiance of the everlasting light:
come and shed your light on those who live in darkness.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

O King of the nations,
the Lord for whom they long:
come and save all whom you have moulded from the earth.
Lord, have mercy. **Lord have mercy.**

Ymbiliau I

Rhagarweiniad

Wrth i ni ddisgwyl am ddyfodiad yr Arglwydd
gadewch i ni weddio dros yr eglwys a'r holl fyd
fel y bydd cyfiawnder yn llwyddo, a heddwch yn ffynnu tra bo lleuad.

Deisyfiadau

Bydded i'r eglwys gael ei llanw ag ysbryd doethineb a deall,
a byw mewn uniondeb calon a gwir gariad.

Naill ai:

neu:

Arglwydd, yn dy drugaredd.

Bydded i'th gyfiawnder lwyddo, Arglwydd.

Gwranddo ein gweddi.

A thangnefedd tra bo lleuad.

Bydded i genhedloedd y byd a'r holl arweinwyr geisio cyfiawnder a thangnefedd a
thrugarhau wrth y gwan a'r tlawd.

Bydded i gymuned ein plwyf, wrth fyw fel pobl y goleuni,
baratoi ffordd ar gyfer dyfodiad yr Arglwydd.

Bydded i'r rhai sy'n byw yn nhywyllwch rhyfel a thrais
weld disgleirdeb gwawrddydd yr Arglwydd.

Bydded i'r rhai sy'n wael ymdeimlo â phresenoldeb yr Arglwydd,
sy'n cyfodi pawb sydd wedi'u llethu.

Bydded i'r tlawd a'r gorthrymedig weld ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear
a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.

Bydded i'r rhai a anfonwyd allan i gyhoeddi fod yr Arglwydd yn agos
ymdeimlo â'i gymorth achubol a llefaru geiriau o heddwch a llawenydd.

Bydded i ni a phob Cristion wrando ar lais y proffwydi
a cheisio rhoi sylw i dystion y gwirionedd yn ein plith.

Gweddi i gloi

Mae disgleirdeb gwawr dy gariad
yn goleuo arnom, Arglwydd Dduw,
oherwydd yn nyfodiad Iesu dy Fab,
cyhoeddir heddwch, tywelltir cyfiawnder,
a llenwir ein calonnau â gobaith.

Bydded i'r holl bobl wybod am fawredd a rhyfeddod dy gariad achubol.

Trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Intercessions I

Introduction

As we wait for the Lord's coming
let us pray for the church and the whole world
that justice will flourish and peace until the moon fails.

Petitions

May the church be filled with a spirit of wisdom and insight,
and live with true integrity and deep love.

either:

Lord, in your mercy.
Hear our prayer.

or:

Let your justice flourish, Lord.
And peace till the moon fails.

May the nations of the world and all leaders seek justice and peace
and have compassion for the weak and the poor.

May our parish community, living as people of the Light
prepare a way for the Lord's coming.

May those who dwell in the darkness of war and violence
see the dawning brightness of the Lord,

May those who are sick know the presence of the Lord,
who raises up all who are bowed down.

May the poor and oppressed see faithfulness spring up from the earth
and justice look down from heaven.

May those who are sent out to proclaim the Lord is near
know his saving help and speak words of peace and joy.

May we and all Christians dare to hear the voice of the prophets
and seek out and listen to the prophets among us.

Concluding Prayer

The dawning brightness of your love
begins to break upon us, Lord God,
for in the coming of Jesus your Son,
peace is proclaimed, justice rains down
and our hearts are filled with hope.
May all people know the awe and wonder of your saving love.
Through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Ymbiliau II

Rhagarweiniad

Mae Dydd yr Arglwydd yn agos.
Gadewch i ni sefyll yn gadarn a disgwyl yn eiddgar am ei ddyfodiad,
gan weddio'n barhaus dros yr eglwys a'r byd.

Deisyfiadau

Gweddiwn y bydd i'r eglwys gael ei hysgogi
gan daerineb neges y proffwyd.

naill ai:

neu:

Arglwydd, yn dy drugaredd. Arglwydd, dangos i ni dy drugaredd.
Gwranddo ein gweddi. **Dyro i ni dy gymorth achubol.**

Gweddiwn y bydd y rhai sy'n gweinyddu cyfiawnder yn y byd
yn arfer tynerwch a thosturi.

Gweddiwn y bydd rhyfeloedd a brwydrau'r byd
yn cael eu trawsnewid gan gyfiawnder a thangnefedd yr Arglwydd.

Gweddiwn y bydd y rhai sy'n dal dig neu atgasedd
yn derbyn calon gig yn lle calon garreg.

Gweddiwn y bydd yr holl bobl yn trysori harddwch creadigaeth Duw
ac yn troedio'n ysgafn ar y ddaear.

Gweddiwn y bydd pawb sydd wedi eu gwanhau gan afiechyd a phoen
yn cael iachâd yn yr Arglwydd.

Gweddiwn y byddwn ni, gyda phawb a aeth o'n blaen mewn ffydd,
yn profi llawenydd a thangnefedd dy deyrnas dragwyddol.

Gweddi i gloi

Dduw ein Tad,
wrth inni ddisgwyl am ddyfodiad dy Fab
cynorthwya ni i baratoi ei ffordd
â chalonnau gostyngedig a bywydau o ffyddlondeb a chariad.
Gweddiwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Intercessions II

Introduction

The Day of the Lord is at hand.
Let us stand upright and wait eagerly for his coming,
praying constantly for the church and the world.

Petitions

That the church may be moved
by the urgency of the prophet's message.

either:

Lord, in your mercy.
Hear our prayer.

or:

Lord, show us your mercy.
Grant us your saving help.

That those who deliver justice in the world
will do so with gentleness and compassion.

That the wars and conflicts of the world
will be transformed by the justice and peace of the Lord.

That those who harbour hatred or resentment
will be given hearts of flesh for hearts of stone.

That all people will value the beauty of God's creation
and walk gently upon the earth.

That all who are weakened by sickness and pain
will find healing in the Lord.

That, with all who have gone before us in faith,
We may know the joy and peace of your eternal kingdom.

Concluding Prayer

God our Father,
as we await the coming of your Son
help us to prepare his way
with humble hearts and lives of faithfulness and love.
We make our prayer through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Rhaglithiau

(Tan 16 Rhagfyr)

I A ddarostyngodd ei hun i fyw yn ein plith,
gan gymryd cnawd dynol,
a chyflawni'r cynllun a luniaist amser maith yn ôl
ac agor i ni ffordd iachawdwriaeth.
Disgwyliwn am y dydd hwnnw
pan ddatguddir ein Harglwydd Iesu Grist,
pan fydd cyfiawnder yn mynd o'i flaen
a heddwch yn dilyn yn ôl ei droed
fel pan ddaw mewn gogoniant, ag iachâd yn ei esgyll,
y bydd i ni etifeddu'r iachawdwriaeth honno
sy'n wrthrych ein gobeithio a'n gwyllo.

II Mewn llawer dull a llawer modd
y lleferaist wrthym drwy'r proffwydi.
Yn y dyddiau olaf hyn
lleferaist wrthym trwy dy Fab,
ein harchoffeiriad tosturiol a ffyddlon,
etifedd pob peth
yr un y gwnaethost y cyfanfyd drwyddo.
Ef yw disgleirdeb dy ogoniant
sy'n eistedd ar ddeheulaw gorsedd dy fawrhydi
ac oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.

(O 17 Rhagfyr ymlaen)

I Bu'r proffwydi yn ein paratoi ar gyfer ei ddyfodiad,
bu'r Forwyn Fair Fendigaid yn dyheu amdano â chariad uwchlaw pob deall.
Ym mhresenoldeb Iesu, llamodd Ioan Fedyddiwr yng nghroth ei fam
a chyhoeddi ei adfent pan ddaeth yng nghyflawniad yr amser.
Eisoes llawenhawn yn ei enedigaeth,
oherwydd cyflwynodd inni ras yn rhodd
fel y bo iddo'n cael yn effro ac yn disgwyl,
â'n calonnau'n llawn o foliant a rhyfeddod.

II Yn y tymor gobeithiol hwn, mae ei oleuni'n gwawrio yn ein calonnau
oherwydd ef yw'r Seren Fore, y Wawrddydd oddi uchod,
a'i oleuni yn dinistrio cysgod marwolaeth
ac yn gwasgaru tywyllwch pechod.
Mae'r Gair y gwnaethost y byd trwyddo gerllaw,
yn sefydlu creadigaeth newydd
pan amlygir pob peth.
Ac yn awr disgwyliwn am y dydd
pan ddaw Crist eto
â barn sy'n llifo fel dyfroedd
a thangnefedd i'w dywallt ar y byd,
fel y cawn ein cyfodi i fyw gyda thi am byth.

Prefaces

(to 16 December)

- I* Who humbled himself to live among us,
taking human flesh,
fulfilling the plan you formed long ago
and opening to us the way to salvation.
We watch and wait for that day
when our Lord Jesus Christ will be revealed,
when justice shall march before him
and peace shall follow his steps,
that when he comes in glory, with healing in his wings
we may inherit the promised salvation
in which we dare to hope.
- II* In many and various ways
you have spoken to us through the prophets.
In these days you have spoken to us through your Son,
our merciful and faithful high priest,
the heir of all things
through whom you made the world.
He is the brightness of your glory
and sits at your right hand in majesty
from where he will come to judge the living and the dead.

(from 17 December)

- I* The prophets prepared us for his coming,
the Blessed Virgin Mary longed for him with love beyond all telling.
At the presence of Jesus, John the Baptist danced in his mother's womb
and proclaimed his advent when at last he came.
Already we rejoice in his birth,
for he has given us the gift of grace,
that he may find us watchful and waiting,
our hearts filled with wonder and praise.
- II* In this season of hope, his light dawns in our hearts
for he is the Morning Star, the Dayspring from on High,
whose light destroys the shadow of death
and scatters the darkness of sin.
The Word through whom you made the world
is close at hand,
establishing a new creation
when all will be made manifest.
- And now we watch for the day
when Christ will come again
with justice flowing like a river,
and raining down peace upon the world,
to raise us up to live with you for ever.

III Datguddiwyd ei bresenoldeb drwy neges angel
ac ymateb llawen Mair ei fam,
a'i chân yn atseinio ymhob cenhedlaeth,
yn cyhoeddi tangnefedd a chyfiawnder ar adfent ei mab a'i Harglwydd.
Mae'n tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau,
yn dyrchafu'r rhai distadl,
yn llwytho'r newynog â rhoddion
ac yn addo byd newydd i'r tlawd.

Gweddi'r Arglwydd

naill ai:

Gweddiwn am ddyfodiad y deyrnas fel y dysgodd Iesu inni:

neu:

Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig-anedig Fab i fod yn Waredwr i ni ac
felly gweddiwn yn hyderus:

naill ai:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen**

neu:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen**

III His presence was revealed by an angel's message
and the joyful response of Mary his mother,
whose song resounds in every generation,
proclaiming peace and justice at the advent of her son and Lord.
He casts the mighty from their thrones,
raises up the weak and powerless,
fills the hungry with good things
and promises a new world for the poor.

The Lord's Prayer

either:

Let us pray for the coming of the Kingdom as Jesus taught us:

or:

God so loved the world that he sent his only Son to be our Saviour
and from this we take courage to pray:

either:

**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.

For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen**

or:

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.

For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever. Amen.**

Yr Anfon Allan

(tan 16 Rhagfyr)

Ewch mewn tangnefedd i baratoi ffordd yr Arglwydd.

Yn enw Crist. Amen.

(o 17 Rhagfyr ymlaen)

Mae dyfodiad yr Arglwydd gerllaw.

Ewch mewn tangnefedd i baratoi ffordd yr Arglwydd.

Yn enw Crist. Amen.

Dismissal

(to 16 December)

Go in peace to prepare the way of the Lord.

In the name of Christ. Amen.

(from 17 December)

The Lord's coming is close at hand.

Go in peace to prepare the way of the Lord.

In the name of Christ. Amen.

Gwasanaeth Carolau'r Adfent

Gellir cyfuno Gwasanaeth Carolau'r Adfent neu'r Gwasanaeth Goleuni â'r Hwyrrol Weddi neu gellir defnyddio'r canlynol. Dylid defnyddio emynau, caneuon, anthemau'r Adfent a cherddoriaeth megis gwersiglau ac atebion y Foreol a'r Hwyrrol Weddi ynghyd â chyfnodau priodol o ddistawrwydd.

Gellir cynnal y gwasanaeth hwn yng ngolau kannwyll a gellir rhoi canhwyllau wedi'u goleuo i'r bobl. Gall y litwrgi hefyd gynnwys symud a gorymdeithio drwy'r eglwys, naill ai'r bobl i gyd, os yw hynny'n bosibl ac yn ymarferol, neu grŵp sy'n cynrychioli'r gweinidogion a'r bobl.

Gall y litwrgi ddechrau â Gwersiglau ac Atebion Agoriadol o'r Hwyrrol Weddi:

Arglwydd, agor ein gwefusau.

A'n genau a fynega dy foliant.

Duw, brysia i'n cynorthwyo.

Arglwydd, prysura i'n cymorth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,

ac i'r Ysbryd Glân;

fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,

ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Rhagarweiniad

Annwyl ffrindiau, dathlwn dymor llawen yr Adfent: adeg o ddisgwyl, cyfnod sy'n llawn o obaith ac o edrych ymlaen. Gan ddyrchafu'n calonnau i'r nefoedd, bydded i ni fod yn effro i ddyfodiad Crist mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw. Gadewch i ni groesawu ei ddyfodiad i'r byd, ac ymbaratoi ar gyfer cyflawniad pob peth pan ddaw Crist mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw.

Trwy gân a distawrwydd, drwy weddi a darllen yr Ysgrythur, ceisiwn amcanion Duw. Gadewch i ni wrando'n astud ar ei air fel y gallo ddysgu ei ffyrdd i ni ac y gallom ninnau gerdded yn ei lwybrau: yn sanctaidd ac yn ddi-fai, yn barod ar gyfer Dydd Crist.

Bydded i ni droi ymaith oddi wrth bechod a pharatoi llwybr ar gyfer yr Arglwydd: Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd. Ef yw'r un a addawodd Duw; ef yw Brenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi sy'n dwyn cyfiawnder, tangnefedd a chariad.

Mae'r Brenin yn dod. Gadewch i ni fynd allan i'w gyfarfod. Bydded i ni geisio ei deyrnas o ogoniant a cherdded yng ngoleuni'r Arglwydd, gan gyhoeddi i bobl y ddaear, 'Dyma eich Duw chwi!'

Gweddiwn.

Advent Carol Service

An Advent Carol Service or Service of Light may be combined with a celebration of Evening Prayer or the following may be used. Advent hymns, songs, anthems and music such as the Matins and Vespers responsory should be used as well as appropriate silence.

This service may be celebrated in candlelight and the people may be given lighted candles. This liturgy may also involve movement and procession through the church, either of the whole people, if it is practical and possible, or by a representative group of ministers and people.

The liturgy may begin with the Opening Versicles and Responses from Evening Prayer:

O, Lord open our lips.
And our mouth shall proclaim your praise.

O God, make speed to save us.
O, Lord make haste to help us.

**Glory to the Father, and to the Son,
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen.**

Introduction

Dear friends, we celebrate the joyful season of Advent: a time of expectancy, a season pregnant with hope and anticipation. Raising our hearts to heaven, may we be alert to the coming of Christ in glory to judge the living and the dead. Let us welcome his coming into the world, and prepare ourselves for the completion of all things when Christ will come in glory to judge the living and the dead..

In song and silence, in prayer and the reading of Scripture, we seek the purposes of God. Let us listen attentively to his word that he may teach us his ways and we may we walk in his paths: holy, and blameless, ready for the Day of Christ.

May we turn away from sin and prepare a path for the Lord: the Lamb of God who takes away the sins of the world; the promised one of God, the King of kings and Lord of lords who brings justice, peace and love.

The King is coming. Let us go out to meet him. May we seek his kingdom of glory and walk in the light of the Lord and proclaim to the people of the earth, 'Here is your God!'

Let us pray.

naill ai:

Hollalluog Dduw,
dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist
pan ymwelodd â ni mewn gostyngedd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf,
pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus
i farnu'r byw a'r meirw,
gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

neu:

Dad yn y Nefoedd,
mae'r Dydd yn agosáu
pan ddaw Crist mewn gogoniant
i oleuo tywyllwch y byd disgwylgar.
Gwasgara gysgodion anwybodaeth
a threcha gymylau galar
fel y bo i ni gael ein llenwi â llawenydd gogoneddus.
Trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

neu:

Dad yn y nefoedd,
yn nhref Dafydd frenin daeth llety isel, llwm
yn gartref i Grist dy Fab
babellu yn ein plith.
Bydded i ni, dy bobl frenhinol, ddarparu croeso teilwng,
a pharatoi'r ffordd at ddathlu â chalonnau llawen.
Rhyddha ein meddyliau blinedig a chynhesa'n calonnau rhewllyd
fel y bo i ni gyhoeddi wrth bawb ym mhob man
y tangnefedd na all ond Iesu Grist ei roi,
oherwydd y mae ef yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Wrth i ni edrych am ddyfodiad ei deyrnas, Arglwydd, dysg ni i weddïo:

Ein Tad ...

either:

Almighty God,
give us grace to cast away the works of darkness
and to put on the armour of light,
now in the time of this mortal life,
in which your Son Jesus Christ came to us in great humility;
that on the last day,
when he shall come again in his glorious majesty
to judge the living and the dead,
we may rise to the life immortal;
through him who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

or:

Father in heaven,
the Day is drawing near
when Christ will come in glory
to illuminate the darkness of the waiting world.
Dispel the shadows of ignorance
and remove the clouds of sorrow
that we may be filled with overwhelming joy.
Through Jesus Christ our Lord
Who lives and reigns with you and the Holy Spirit,
one God forever and ever. **Amen.**

or:

Father in heaven,
in David's royal city a humble lodging, ill prepared,
becomes the home where Christ your Son
takes up his place to live among us.
May we, your royal people, provide a worthy welcome,
and prepare the way for celebrations that fill our hearts with joy.
Liberate our tired minds and warm our frozen hearts
so that we may proclaim to people everywhere
the peace that Jesus Christ alone can bring,
for he is alive and reigns with you and the Holy Spirit
one God for ever and ever. **Amen.**

The Lord's Prayer

(see page 17)

As we look for the coming of the kingdom, Lord, teach us to pray:

Our Father ...

Darlleniadau a Gweddïau

Gellir defnyddio detholiad addas o'r darlleniadau canlynol (yn cynnwys un o leiaf o'r Hen Destament ac un o'r efengylau) a'r gweddïau isod, ynghyd ag emynau a charolau, caneuon a siantiau'r Adfent.

Darlleniad

'Gwelais yr Arglwydd. Yr oedd yn eistedd ar orsedd uchel ddyrchafedig' *Eseia 6. 1-8*

Gweddi

O Dduw gallu a chadernid,
mae dy sancteiddrwydd yn llenwi cysegr y nefoedd
a'th ogoniant yn rheadru dros yr holl ddaear.
Cyffwrdd ein bywydau â'th gariad,
iachâ ein calonnau o bopeth aflan
a rhyddha ein tafodau i gyhoeddi dy ogoniant,
fel, wrth ddyfod i'r byd, y caiff Crist dy Fab,
bobl sanctaidd
sy'n awyddus i wneud dy ewyllys.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniadg

'Y mae'r Arglwydd ei hun yn rhoi arwydd i chwi: Wele ferch ifanc yn feichiog,
a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel'. *Eseia 7. 10-16*

Gweddi

O Dduw Daionus a Ffyddlon,
amyneddgar a maddeugar,
wrth i amheuaeth ac anffyddiaeth nythu yn ein calonnau
dyro i ni ffydd i weld y baban Iesu
yn dawel ar fron ei fam;
trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

'O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn.' *Eseia 11. 1-5, (6-9)*

Gweddi

O Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
ganwyd dy Fab o linach Dafydd
i ddwyn tangnefedd a chyfiawnder, doethineb a gallu.
Bydded i'r byd disgwylgar adnabod Iesu yn ein plith,
ac ymgrymu mewn rhyfeddod a pharchedig ofn gerbron addewid dy Air.
Gofynnwn hyn drwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Readings and Prayers

A suitable selection of the following readings (including at least one from the Old Testament and one from the gospels) and prayers may be used along with suitable Advent hymns and carols, songs and chants.

Reading

‘I saw the Lord seated on a high and lofty throne’

Isaiah 6. 1-8

Prayer

O God of Power and Might,
your holiness fills the sanctuary of heaven
and your glory fills the whole earth.
Touch our lives with your love,
heal our hearts from all that defiles us
and free our tongues to proclaim your glory,
that Christ your Son,
who is coming into the world,
will find a holy people
eager to do your will.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘The Lord will give you a sign: the young woman is with child
and will give birth to a son whom she will call Immanuel’

Isaiah 7. 10-16

Prayer

Good and Faithful God,
patient and forgiving,
as our doubt and faithlessness pervades our hearts
give us faith to see the Christ child
cradled in his mother’s arms,
through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘A shoot will spring from the stock of Jesse.’

Isaiah 11. 1-5, (6-9)

Prayer

God and Father of Our Lord Jesus Christ,
whose Son is born of David’s line
to bring peace and justice, wisdom and power.
May the waiting world recognise Jesus in its midst,
and bow down in awe and wonder at the promise of your Word.
We ask this through the same Christ our Lord. **Amen.**

Darlleniad

‘Llais un yn galw, “Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd”.’

Eseia 40. 1-11

Gweddi

Dyro ras i ni, Arglwydd Dduw,
i gyhoeddi dyfodiad dy Fab
ac i baratoi ei ffordd.
Bydded i’n bywydau adlewyrchu dy gariad
a’n calonnau lawenhau ar ei ddyfodiad.
Gweddiwn drwy’r un Iesu Grist ein Harglwydd,
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad

‘Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad?’

Malachi 3. 1-4

Gweddi

Pob moliant i ti, Arglwydd, Dduw gallu a chadernid!
Pan na fedrwn sefyll yn dy bresenoldeb,
nac edrych ar dy ogoniant,
meddala ein calonnau ystyfnig
fel y gallo Iesu Grist, yr un y disgwyliwn amdano,
ein coethi a’n hadfywio,
er mwyn i ni fod yn addas i ddyrchafu ein calonnau a’n dwylo yn offrwm i ti,
yn offrwm hyfryd, fel yn y dyddiau gynt.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn oedd, y sydd ac sydd eto i ddod,
ac sy’n byw gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad

‘Profwch fi yn hyn nes i mi agor i chwi ffenestri’r nefoedd a
thywallt arnoch fendith yn helaeth.’

Malachi 3. 6-12

Gweddi

Derbyn, O Dduw, waith ein dwylo:
oherwydd oddi wrthyt ti y daw pob peth
ac o’th law dy hun y rhoddwn i ti.
Wrth grwydro o’th lwybr fel defaid colledig doluriwn dy galon gariadus.
Pan glywn dy lais yn ein galw ni yn ôl atat
agor ffenestri’r nefoedd
a thywallt dy fendithion arnom,
fel y gallom ddisgleirio yn dy bresenoldeb
a thynnu’r holl genhedloedd at wawrddydd dy lewyrch.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Reading

‘A voice cries, “Clear a road in the wilderness”.’

Isaiah 40. 1-11

Prayer

Give us grace, Lord God,
to announce the coming of your Son
and to prepare his way
May our lives resound with your love
and our hearts rejoice at his coming.
We make our prayer through the same Jesus Christ our Lord,
who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God forever and ever. **Amen.**

Reading

‘Who will be able to resist the day of his coming?’

Malachi 3. 1-4

Prayer

All praise to you, Lord, God of power and might
when we falter in your presence,
and stumble as we glimpse your glory,
soften our stubborn hearts
that Jesus Christ, the one for whom we wait
will refine us and revive us,
and make us worthy to lift our hearts and hands to you in worship,
an acceptable offering, as in the days of old.
We ask this through Jesus Christ our Lord, who was and is and is to come,
and who lives with you and the Holy Spirit, one God for ever and ever. **Amen.**

Reading

‘See if I do not open the floodgates of heaven for you and
pour abundant blessing on you.’

Malachi 3. 6-12

Prayer

Accept, O God, the work of our hands:
the gifts we gather,
the good things we your children have been given.
Our wandering ways wound your loving heart.
When you call us back to you,
open the floodgates of heaven
and pour your blessings upon us,
that we may shine with your presence
and draw all nations to your dawning brightness.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Darlleniad

‘Byddant hwy’n curo eu cleddyfau’n geibiau.
Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl.’

Micha 4. 1-4

Gweddi

Troi oddi wrth dy ffurf tangnefeddus di, O Dduw cariadlon, a wna’r cenedloedd a,
chan wrthod cariad, cydia rhyfel yn eu calonnau.
Bydded i’r holl genhedloedd ymwrthod â thywallt gwaed
gan guro’u cleddyfau’n geibiau, a’u gwaywffyn yn grymanau.
Bydded i ni eistedd heb ddychryn yng nghysgod dy greadigaeth brydferth a mwynhau’r
tangnefedd a ddaeth yng Nghrist
oherwydd y mae ef yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad

‘Wele’r dyddiau yn dod, medd yr Arglwydd.

Jeremeia 23. 5-6

Gweddi

Dyrchafa ein llygaid tua’r nefoedd, Arglwydd,
i weld dy Fab, sy’n dod â chyfiawnder achubol
i lywodraethu’n gariadus yn ein calonnau.
Casgla at ei gilydd bawb sy’n dy alw’n Dad
i fyw fel un teulu yn dy gariad am byth.”
Gweddiwn drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

‘Llawenha’n fawr, ferch Seion.
Wele dy frenin yn dod atat.’

Sechareia 9. 9-10

Gweddi

Llanw ein calonnau â’th lawenydd, Arglwydd Dduw,
ar ddyfodiad dy Fab:
y Brenin y buom yn dyheu amdano,
y llywodraethwr y buom yn disgwyl amdano.
Bydded iddo ganiatáu i ni fendithion gostyngeiddrwydd a chariad,
a’n harwain mewn tangnefedd a llawenydd,
fel y byddom ni, dy Eglwys, yn barod i’w groesawu.
Gofynnwn hyn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Reading

‘They will hammer their swords in ploughshares.
Nations will not lift sword against nation.’

Micah 4. 1-4

Prayer

Your peaceful ways, O Loving God,
are resisted by the nations,
and the hearts of many, turned away from love,
are plunged into the ways of war.
May all nations lay aside their thoughts of bloodshed
and mould their instruments of death into tools to till the earth
Shaded by the beauty of your creation,
may we sit untroubled and live in the peace that Christ your Son has brought,
for he is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God forever and ever. **Amen.**

Reading

‘Look, the days are coming,’ says the Lord.

Jeremiah 23. 5-6

Prayer

Raise our eyes to heaven, Lord,
to see your Son, who comes with saving justice
to rule our hearts with love.
Gather into one family all who call you Father
to dwell in your love for ever.
We make our prayer through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘Rejoice, heart and soul, daughter of Zion.
Look, your King is coming.’

Zechariah 9. 9-10

Prayer

Fill our hearts with joy, Lord God,
at the coming of your Son:
the King for whom we have longed,
the ruler for whom we have waited.
May he bless us with humility and love,
and fill us with peace and joy,
that we, your Church, may be ready to welcome him
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Amserau a Thymhorau

Darlleniad

'Unwaith eto, ymhen ychydig, yr wyf am ysgwyd y nefoedd a'r ddaear ...' *Haggai 2. 6-9*

Gweddi

Disgleiria gogoniant y trysorau newydd a ddaw o'th law, Arglwydd Dduw,
gan ragori ar yr ysblander a fu.
Ysgwyd seiliau'r nefoedd a'r ddaear
a llanw'r byd â'th ogoniant,
oherwydd ti yw Duw yr holl greadigaeth:
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

Deffro, di sydd yn cysgu, a chod oddi wrth y meirw,
ac fe dywynna Crist arnat!

Effesiaid 5. 1-14

Gweddi

Dduw ein Tad,
bydded i arogl pêr aberth ufudd Crist
ein nerthu ni i fyw fel plant y goleuni.
Cod ni o'n gwâl o bechod,
deffro ni o'n trwmgwsg
a llanw ni â'th Ysbryd Glân.
Trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

'Fel lleidr yn y nos y daw Dydd yr Arglwydd.'

1 Thesaloniaid 5. 1-11

Gweddi

Daw dy Ddydd, Arglwydd Dduw,
pryd na thybiom, fel lleidr yn y nos.
Wedi gwisgo amdanom ffydd a chariad
byddwn effro a disgwyliwn.
Bydded i ni nerthu a chalonogi ein gilydd
i fod yn gryf ac ar ddi-hun wrth aros am adfent dy Fab,
oherwydd y mae ef yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad

'Yna gwelais nef newydd a daear newydd.'

Datguddiad 21. 1-7

Gweddi

Arglwydd Dduw,
mewn byd o dristwch a phoen yr wyt ti yn gwneud pob peth yn newydd.
Sych ymaith ddagrau pawb sy'n galaru,
a chysura bawb sydd mewn cystudd ac mewn poen,
fel y gallom lawenhau yn nyfodiad dy Fab,
yr Alfa a'r Omega,
y dechrau a'r diwedd,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Reading

‘A little while now and I shall shake the heavens and the earth...’

Haggai 2. 6-9

Prayer

As the glory of the days of old, Lord God,
are surpassed by the glory of the new things you are doing,
Shake the foundations of heaven and earth
and fill the world with your glory,
for you are the God of all creation:
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Reading

Awake, sleeper! Rise from the dead, and Christ will shine on you.’

Ephesians 5. 1-14

Prayer

God our Father,
may the sweet aroma of Christ’s obedient offering
enable us to live as children of the light.
raise us from our bed of sin,
wake us from our slumber
and fill us with your Holy Spirit.
Through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘The Day of the Lord will come like a thief in the night.’

1 Thessalonians 5. 1-11

Prayer

Your Day is coming, Lord God,
at a time we do not know, like a thief in the night.
Watchful and waiting
armoured with faith and love
may we strengthen and encourage one another
to be strong and alert to the advent of your Son,
for he is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God for ever and ever. **Amen.**

Reading

‘I saw a new heaven and a new earth.’

Revelation 21. 1-7

Prayer

Lord God,
in a world of sadness and pain you are doing something new.
Wipe away the tears of all who mourn,
and comfort all who are afflicted and in pain,
that we may rejoice in the coming of your Son,
the Alpha and the Omega,
the beginning and the end,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

Darlleniad

‘A bydd y cenedloedd yn rhodio yn ei goleuni hi,
a brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant i mewn iddi.’ *Datguddiad 21.22 – 22.5*

Gweddi

Moliant i ti, Arglwydd Goruchaf, Duw pob peth!
Mae dy ysblander yn rhagori ar ddisgleirdeb yr haul,
a’th ogoniant yn tywys y cenedloedd.
Yn olau â’th gariad,
bydded i’n henwau fod yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen
fel y gallom dy foliannu a’th addoli am byth,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

‘Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd.’ *Luc 1. 39-56*

Gweddi

Gogoniant a moliant i ti, Arglwydd Dduw!
Bydded i gân Mair atseinio yn ein calonnau
wrth i ni orfoleddu yn y pethau da a gyflawnaist dros y byd.
Bydded i’w mab a’i Gwaredwr gael ynom lety teilwng i breswyllo ynddo
a chan ei ddwyn ef i eraill
y cawn gyhoeddi dy gariad a’i drugaredd o genhedlaeth i genedlaeth.
Gweddiwn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a’r Ysbryd Glân, yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad

‘Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f’eneinio.’ *Luc 4. 14-21*

Gweddi

O Dad cariadus,
tywallt dy Ysbryd arnom
a hoelia ein llygaid ar Iesu dy Fab,
sy’n dod i ryddhau pawb sy’n gaeth.
Dyro olwg i’r rhai sy’n ddall i ogoniant dy deyrnas.
Iachâ’r byd a dorrwyd gan bechod,
a gwna ni’n genhadon newyddion da
fel, wedi ein heneinio â’th Ysbryd,
y byddwn yn dystion byw i’th Fab
sy’n byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd. **Amen.**

Reading

‘By its light shall the nations walk,
and to it the kings of the earth shall bring their splendour.’ *Revelation 21.22 – 22.5*

Prayer

Praise to you, Sovereign Lord, God of all,
your splendour surpasses the brightness of the sun,
your glory is a guide for the nations.
Illuminated by your love,
may our names may be inscribed in the Lamb’s book of life
that we may praise and worship you for ever,
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘My soul proclaims the greatness of the Lord.’ *Luke 1. 39-56*

Prayer

Glory and praise to you, Lord God:
may the song of Mary resound in our hearts:
as we rejoice in the good things you have done for the world.
May her son and Saviour find in us a worthy place to dwell
that, bearing Christ for others,
we may proclaim your love and mercy in every generation.
We make our prayer through the same Jesus Christ our Lord who is alive and reigns
with you and the Holy Spirit, one God forever and ever. **Amen.**

Reading

‘The Spirit of the Lord is upon me because he has anointed me.’ *Luke 4. 14-21*

Prayer

Loving Father,
pour your Spirit upon us
and fix our eyes on Jesus your Son,
who comes to liberate all who are captive:
give sight to those who cannot see the glories of your kingdom.
Heal the world, broken by sin,
and make us messengers of good news
that, anointed with your Spirit,
our lives may be a living witness to your Son
Who lives and reigns for ever and ever. **Amen.**

Darlleniad

'Oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw.'

Ioan 3. 1-12

Gweddi

O Dad y nefoedd a'r ddaear,
bydded i ni sydd wedi ein geni o'r newydd yn y Bedydd
gael ein llenwi â'th Ysbryd a chael cipolwg ar deyrnas dy gariad.
Llywia'n bywydau
ac arwain ni'n nes at dy Fab
fel, yn fyw yn yr Ysbryd,
y gallom dyfu mewn gras
a'n cydffurfio beunydd â'i ddelw ef.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

'Y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos.'

Mathew 3. 1-12

Gweddi

Nefol Dad,
daeth dy deyrnas yn agos
a gwawriodd goleuni'r nef,
gan wasgaru cysgod pechod.
Fel y cyhoeddodd dy dyst yn yr anialwch adfent dy Fab yn eofn
felly rhydda ni oddi wrth gariad at bechod
a llanw ni â than dy Ysbryd Glân
fel y gallom ddwyn ffrwyth cariad Iesu
a bod yn gynhaef toreithiog pan ddaw eto,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Y Colect

Gellir defnyddio un o Golectau'r Adfent:

naill ai:

Hollalluog Dduw,
dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist
pan ymwelodd â ni mewn gostyngedd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf,
pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus
i farnu'r byw a'r meirw,
gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

Reading

‘No one can enter the kingdom of God without being born again.’

John 3. 1-12

Prayer

Father of heaven and earth,
may we who have been born again in Baptism
be filled with your Spirit and glimpse the kingdom of your love.
Guide our lives
and lead us closer to your Son
that alive in the Spirit
we may grow in grace
and daily be conformed to his image.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Reading

‘The Kingdom of Heaven is upon you!’

Matthew 3. 1-12

Prayer

Heavenly Father,
your kingdom is upon us:
heaven’s light is dawning,
dispelling the shadow of sin.
As your witness in the wilderness boldly declared the advent of your Son
remove from us the love of sin
and fill us with the fire of your Holy Spirit
that we may bear the fruit of Jesus’ love
and be a harvest of plenty when he comes again,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

Collect

One of the Advent Collects may be used:

either:

Almighty God,
give us grace to cast away the works of darkness
and to put on the armour of light,
now in the time of this mortal life,
in which your Son Jesus Christ came to us in great humility;
that on the last day,
when he shall come again in his glorious majesty
to judge the living and the dead,
we may rise to the life immortal;
through him who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

neu:

Dad yn y nefoedd,
a ddanfonaist dy Fab i waredu'r byd
ac yr anfonef ef drachefn i fod yn farnwr arnom:
dyro inni ras i'w efelychu ef
yng ngostyngyddrwydd a phurdeb
ei ddyfodiad cyntaf
fel, pan ddaw drachefn,
y byddwn yn barod i'w gyfarch
â chariad llawen ac â ffydd gadarn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

neu:

O Arglwydd Iesu Grist,
a anfoneist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf
i baratoi dy ffordd o'th flaen,
pâr i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau
yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd
trwy droi calonnau'r anufudd
i ddoethineb y cyfiawn,
fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd,
y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di;
oherwydd yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu gyda'r Tad
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

neu:

Dduw ein gwardwr,
a roddaist y Forwyn Fair Fendigaid
i fod yn fam i'th Fab:
caniatâ, fel y bu iddi hi ddisgwyl ei ddyfodiad
yn iachawdwr arnom,
y bydd i ninnau fod yn barod i'w gyfarch
pan ddaw drachefn yn farnwr arnom:
yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

or:

Father in heaven,
who sent your Son to redeem the world
and will send him again to be our judge:
give us grace so to imitate him
in the humility and purity of his first coming
that, when he comes again,
we may be ready to greet him
with joyful love and firm faith;
through Jesus Christ our Lord,
who is alive and reigns
with you and the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

or:

O Lord Jesus Christ,
who at your first coming sent your messenger
to prepare your way before you:
grant that the ministers and stewards of your mysteries
may likewise so prepare and make ready your way
by turning the hearts of the disobedient
to the wisdom of the just,
that at your second coming to judge the world
we may be found an acceptable people in your sight;
for you are alive and reign with the Father
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

or:

God our redeemer,
who prepared the Blessed Virgin Mary
to be the mother of your Son:
grant that, as she looked for his coming as our Saviour,
so we may be ready to greet him
when he comes again as our judge;
who is alive and reigns with you,
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever.

Y Fendith

Gellir terfynu'r gwasanaeth ag un o'r ffurfiau isod:

naill ai:

Llewyrched Crist haul cyfiawnder arnoch, a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen ...

neu:

Bydded i Dduw'r Tad
a garodd y byd gymaint nes iddo anfon ei unig Fab,
roi i chwi ras i baratoi ar gyfer y bywyd tragwyddol. **Amen.**

Bydded i Dduw'r Mab,
sy'n dod atom fel Gwardwr a Barnwr,
ddangos i chwi'r llwybr o dywyllwch i oleuni. **Amen.**

Bydded i Dduw'r Ysbryd Glân,
a gysgododd y Forwyn Fair er mwyn iddi genhedlu Crist,
eich cynorthwyo chwi i ddwyn ffrwythau sancteiddrwydd. **Amen.**

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

The Blessing

The service may end with one of the following blessings:

either:

Christ the sun of righteousness shine upon you, scatter the darkness from before you ...

or:

May God the Father
who loved the world so much he sent his only Son,
give you grace to prepare for eternal life. **Amen.**

May God the Son,
who comes to us as redeemer and Judge,
show you the path from darkness to light. **Amen.**

May God the Holy Spirit,
by whom the Virgin Mary conceived the Christ,
help you to bear the fruits of holiness. **Amen.**

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

Coeden Jesse

Mae Coeden Jesse yn cymryd ei henw o ran o lyfr y proffwyd Eiseia adnodau 11. 1: 'O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn, ac fe dyf cangen o'i wraidd ef.' Yn syml a chryno, coeden deulu Iesu ydyw yn olrhain ei linach o Jesse o Fethlehem, tad Dafydd.

Yn y Testament Newydd mae llinach Iesu yn cael ei olrhain gan ddau o awduron yr Efengylau: Mathew a Luc. Mae Luc yn disgrifio 'cenedlaethau Crist' ym Mhennod 3, gan ddechrau ag Iesu a'i olrhain yn ôl bob cam at Adda drwy ei 'dad daearol', Joseff. Mae'r Efengyl yn ôl Mathew yn agor â'r geiriau, 'Dyma achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham' (1. 1). Caiff Iesu ei bortreadu'n eglur fel un sy'n ddisgynydd o bobl sanctaidd Duw, yn disgyn o Jesse ac ymhellach yn ôl, Abraham. Mae Coeden Jesse wedi cael ei phortreadu mewn gweithiau celf di-ri, (nifer ohonynt i'w gweld mewn eglwysi yng Nghymru) yn enwedig yn ystod y cyfnod Canoloesol er bod hefyd lawer o enghreifftiau modern. Dangosant goeden neu winwydden symbolaidd â changhennau ymledol i bortreadu'r achres. Ar ei ffurf fwyaf nodweddiadol mae Coeden Jesse yn dangos Jesse, sy'n aml yn ffigwr mwy na'r lleill, yn gorwedd neu'n cysgu. O'i ystlys neu o'i fogail fe ddaw boncyff coeden neu winwydden, â changhennau ar bob ochr. Ar y canghennau mae ffigyrau sy'n cynrychioli hynafiaid Crist. Mae boncyff y Goeden yn codi at Fair ac yna at Grist. Ar y llaw arall, gall fod darlun o Grist ym mreichiau ei fam.

Mae nifer y ffigyrau a ddarlunnir yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar faint y gofod sydd ar gael. Os defnyddir y llinach hirach o Luc, mae 43 o genedlaethau rhwng Jesse ac Iesu. Mae proffwydoliaeth Eiseia 11 a bortreadir yng Nghoeden Jesse wedi datblygu i gynnwys y Proffwydi a'u rhagfynegiad o Grist. Mae'r ffenestri sy'n dangos Coeden Jesse yn eglwysi cadeiriol San Denis a Chartres ill dwy yn cynnwys colofnau o broffwydi.

Gall Coeden Jesse gael ei hymgorffori yng Nghymun Bendigaid y Sul yn ystod yr Adfent gan ychwanegu symbolau i'r goeden bob wythnos a/neu gellir defnyddio'r litwrgi canlynol.

Gellir ymgorffori rhai neu bob un o'r ffigyrau neu'r digwyddiadau canlynol: Creu'r Byd, Adda ac Efa, Noa, Abraham, Isaac, Jacob, Joseff, Moses, Josua, Gideon, Samuel, Dafydd, Elias, Heseceia, Eiseia, Jeremeia, Habacuc, Nehemeia, Sechareia, Elisabeth, Ioan Fedyddiwr, Mair, Joseff, Iesu.

Litwrgi Coeden Jesse

Yn ystyrgar, gosodir coeden ('Nadolig') fythwyrdd ddiaddurn mewn lleoliad lle na fydd yn tynnu sylw oddi wrth y gofod litwrgaidd. Ni ddylid goleuo'r goeden: dylid cadw'r weithred honno tan y Nadolig. Gellir rhannu symbolau Coeden Jesse rhwng gwahanol blwyfolion cyn dechrau'r litwrgi neu, fel arall, eu gosod ar fwrdd yng nghefn yr eglwys neu'r neuadd. Gall y litwrgi gael ei arwain gan yr offeiriad neu unrhyw weinidog arall neu gan blant a phobl ifanc, gyda'r geiriau wedi eu haddasu yn ôl grŵp oedran a gallu'r rhai fydd yn cymryd rhan. Gellir cynnwys Defod Edifeiriol ar ôl y Rhagarweiniad a defnyddio Brawddegau Adfent o drefn Cymun Bendigaid yr Eglwys yng Nghymru.

The Jesse Tree

The Jesse Tree takes its name from a passage in the book of the prophet Isaiah verses 11. 1: 'A shoot will spring forth from the stump of Jesse, a branch out of his roots.' It is, in short and simple terms, the family tree of Jesus illustrating his descent from Jesse of Bethlehem, the father of David.

In the New Testament the lineage of Jesus is illustrated by two of the Gospel writers: Matthew and Luke. Luke describes the 'generations of Christ' in Chapter 3, beginning with Jesus and tracing backwards through his 'earthly father' Joseph all the way to Adam. The Gospel according to Matthew opens with the words, 'The genealogy of Jesus Christ, son of David, son of Abraham (1. 1). Jesus is explicitly represented as being from God's holy people, descending from Jesse and even farther back to Abraham. The Jesse Tree has often been represented in art, particularly during the Medieval period (many of which may be found in churches in Wales) although there are also many modern examples. They show a symbolic tree or vine with spreading branches to represent the genealogy. The most typical form which the Jesse Tree takes is to show the figure of Jesse, often larger than all the rest, reclining or sleeping. From his side or navel springs the trunk of a tree or vine, with branches on either side. On the branches are figures representing the ancestors of Christ. The trunk of the tree ascends to Mary and then to Christ. Alternatively, there may be an image of Christ in the arms of his mother.

The number of figures depicted varies greatly, depending on the amount of room available for the design. If the longer ancestry from Luke is used, there are 43 generations between Jesse and Jesus. The prophecy of Isaiah 11 illustrated in the Jesse Tree has also come to include the Prophets, and their foretelling of Christ. The Jesse Tree windows of St Denis and Chartres Cathedral both include columns of prophets.

The Jesse Tree may be incorporated into the Sunday Eucharist throughout Advent and each week the symbols added to the tree and/or the following liturgy may be used.

Some or all of the following figures or events may be incorporated: The Creation of the World, Adam and Eve, Noah, Abraham, Isaac, Jacob, Joseph, Moses, Joshua, Gideon, Samuel, David, Elijah, Hezekiah, Isaiah, Jeremiah, Habbakuk, Nehemiah, Zechariah, Elizabeth, John the Baptist, Mary, Joseph, Jesus.

A Jesse Tree Liturgy

An unadorned evergreen ('Christmas') tree is placed sensitively in position so that it does not dominate the liturgical space. The tree should not be illuminated: this act should be reserved for Christmas. The Jesse Tree symbols may be distributed to various representatives before the liturgy begins or placed on a table at the rear of the church or hall. The liturgy may be led by a priest or any other minister or by the children and young people themselves, with the words adapted according to the age group and ability of those involved. A Penitential Rite may be included after the Introduction using the Advent Sentences from the Holy Eucharist of the Church in Wales.

[Jesse Tree Liturgy © copyright Society of Our Lady of Penrhys]

Gellir canu emyn neu gân addas.

Y Dod Ynghyd

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist, sy'n dyfod i'r byd.

A hefyd gyda thi.

Rhagarweiniad

Deuwn ynghyd wrth goeden wag, hardd a pherffaith, gwaith dwylo Duw. Maes o law, byddwn yn ei haddurno â rhagor o arwyddion a symbolau sy'n tystio'n rymus i ddyfodiad Iesu'r Meseia i'r byd. Wrth i ni baratoi i ddathlu ei eni ym Methlehem, dinas Dafydd, gweddiwn y byddwn yn ei ganfod yn ein bywydau ni.

Gweddi

O Dduw ein Tad,
paratoist y byd ar gyfer dyfodiad dy Fab
drwy batriarchiaid a phroffwydi
a gwŷr a gwragedd sanctaidd
a oedd yn effro i'th bresenoldeb
ac yn llawenhau yn dy gariad.
Bydded i ni, dy deulu, dderbyn Crist â llawenydd
a chyhoeddi ei ddyfodiad yn llawen wrth bawb.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniad

'O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn,
ac fe dyf cangen o'i wraidd ef.'

Eseia 11. 1-4, (6-9)

Gellir ychwanegu darlleniadau eraill, gan gynnwys darlleniad addas o'r Efengyl, er enghraifft:

Geni Iesu o Fair, dyweddi Joseff, mab Dafydd.

Mathew 1. 18-24

Dywedir wrth Fair y bydd yn beichiogi ac yn esgor ar fab.

Luc 1. 26-38

'Caiff yr holl bobl weld iachawdwriaeth Duw'.

Luc 3. 1-6

Llinach Iesu.

Luc 3. 23-38

Llinach Iesu.

Mathew 1. 1-17

'Maent fel prennau wedi eu plannu wrth ffrydiau dŵr'.

Salm 1

[Jesse Tree Liturgy © copyright Society of Our Lady of Penrhys]

A suitable hymn or song may be sung.

The Gathering

In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you from God our Father and the Lord Jesus Christ,
who is coming into the world.

And also with you.

Introduction

We gather with an empty tree and, beautiful and perfect, the handiwork of God. We will soon adorn it further with signs and symbols which speak powerfully of Jesus' the Messiah's coming into the world. As we prepare to celebrate his birth in Bethlehem, the city of David, let us pray that we will recognise him in our lives.

Prayer

God our Father,
you prepared the world for the coming of your Son
through patriarchs and prophets
and holy men and women
who were alert to your presence
and rejoiced in your love.
May we, your family, receive Christ with joy
and readily proclaim his coming to all whom we meet.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Reading

'A shoot will spring forth from the stump of Jesse,
a branch out of his roots.'

Isaiah 11. 1-4, (6-9)

Other readings may be incorporated, including a suitable Gospel reading, for example:

Jesus is born of Mary who was betrothed to Joseph, son of David.	<i>Matthew 1. 18-24</i>
Mary is told that she will conceive and bear a son.	<i>Luke 1. 26-38</i>
'And all people shall see the salvation of God'.	<i>Luke 3. 1-6</i>
Genealogy of Jesus.	<i>Luke 3. 23-38</i>
Genealogy of Jesus.	<i>Matthew 1. 1-17</i>
'They are like trees planted by streams of water'.	<i>Psalm 1</i>

Homili neu Esboniad byr ar Goeden Jesse

Symbolau Coeden Jesse

Gellir defnyddio'r geiriau canlynol neu rai tebyg:

Yma ar ganghennau'r Goeden Jesse hon gwelwn, mewn arwydd a symbol, stori ein hiachawdwriaeth. Gwelwn yma sut y mae Duw wedi paratoi'r byd ar gyfer dyfodiad Iesu. Bydded i'r gwŷr a'r gwragedd sanctaidd a wrandawodd ar air Duw a dweud wrth eraill am ei gariad, ein hysbrydoli i groesawu Iesu i'n bywydau, a rhannu stori'r iachawdwriaeth.

Cenir yr emyn canlynol neu emyn arall. Yn ystod y canu cyflwynir y symbolau a'u rhoi ar ganghennau'r goeden. Os gwneir hyn yn ystod gwasanaeth ysgol gyfan, efallai y gall cynrychiolydd o bob dosbarth gyflwyno symbol.

Emyn

Ar gyfer heddiw'r bore
'n faban bach
y ganwyd gwreiddyn Jesse
'n faban bach;
y Cadarn ddaeth o Bosra,
y Deddfwr gynt ar Seina,
yr Iawn gaed ar Galfaria
'n faban bach
yn sugno bron Maria
'n faban bach.

Caed bywiol ddŵr Eseciel
ar lin Mair
a gwir Feseia Daniel
ar lin Mair;
caed bachgen doeth Eseia,
'r addewid roed i Adda,
yr Alfa a'r Omega
ar lin Mair
mewn côr ym Methlem Jwda,
ar lin Mair.

Am hyn, bechadur, brysia
fel yr wyt,
ymofyn am y noddfa
fel yr wyt;
i ti'r agorwyd ffynnon
a ylch dy glwyfau duon
fel eira gwyn yn Salmon
fel yr wyt,
gan hynny tyrd yn brydlon
fel yr wyt.

Eos Iâl, 1794-1862

Homily or a brief Explanation of the Jesse Tree

Jesse Tree Symbols

The following or similar words are used:

Here on the branches of this Jesse Tree we will see, in sign and symbol, the story of our salvation. Here we will see how God has prepared the world for the coming of Jesus. May the holy men and women who have listened to God's word and spoken to others of his love, inspire us to welcome Jesus into our lives and to share the story of salvation.

The following or another hymn is sung, during which the symbols are presented and hung on the branches of the tree. If this is used during a whole school assembly, perhaps a representative of each class could present a symbol.

Hymn

Metre 65 65 D (At the Name of Jesus, etc)

Hanging on the branches
of this Jesse Tree
see the love of Jesus
and his family.
Here we see his goodness
and his light and power
shining through the darkness
'til the final hour.

Prophets, men and women,
all received his word:
promise of the coming
of the mighty Lord.
Born into his fam'ly,
in the church of God
may we share the faith of
God in flesh and blood.

So, in sign and symbol,
So, in branch and tree,
may we tell the story
of the One yet Three.
Through the Holy Spirit
Christ is in our sight:
Promise of the Father
full of grace and light.

*(Copyright Dean Atkins,
Society of Our Lady of Penrhys)*

Gweddi

Gellir offrymu'r Ymbiliau a'r gweddïau canlynol neu rai eraill.

Gweddiwn gyda'n gilydd, gan agor ein calonnau a'n bywydau i Dduw.

Cyhoeddodd y proffwydi ddyfodiad Crist,
bydded i ninnau hefyd rannu'r newyddion da am Iesu â llawenydd a rhyfeddod. **A.**

A. Dduw pob cenhedlaeth:
Gwranddo ein gweddi.

Ganwyd Iesu i deulu dynol,
bydded i bob teulu wybod am ei bresenoldeb yn eu bywydau. **A.**

Ganwyd Iesu ym Methlehem, tref Dafydd:
trwy ein bywydau, bydded i bresenoldeb Iesu fod yn hysbys yn ein cymunedau ni. **A.**

Rhagfynegydd dyfodiad Iesu gan ei hynafiaid:
bydded i ni adael etifeddiaeth dda a sanctaidd i genedlaethau'r dyfodol. **A.**

Magwyd Iesu gan Fair a Joseff â chariad ac ymroddiad:
bydded i rieni ymhob man gael eu hysbrydoli a'u cryfhau yn eu galwedigaeth. **A.**

Wrth i ni baratoi i ddathlu genedigaeth Iesu,
bydded i ni gael ein llenwi ag awydd i wneud ei ewylllys a rhannu ei gariad. **A.**

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Wrth i ni godi ein dwylo, ein calonnau a'n lleisiau i'r nefoedd gadewch i ni weddio am
ddyfodiad Teyrnas Dduw.

Ein Tad ...

Y Fendith

Gall y litwrgi ddiweddu â bendith neu trwy ddweud y Gras gyda'n gilydd.

naill ai:

Yr Arglwydd a fo gyda thi
A hefyd gyda thi.

Bydded i Iesu, a anwyd o linach Jesse ac o dŷ Dafydd, eich llenwi â phob llawenydd
ar ei ddyfodiad, a bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fo yn eich
plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

neu:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

Prayer

The following or other Intercessions and prayers may be offered.

Let us pray together, opening our hearts and lives to God.

The prophets proclaimed the coming of Jesus:
may we too share the good news of Jesus with joy and wonder. **R.**

R. God of every generation:
Hear our prayer.

Jesus was born into a human family,
may all families know his presence in their lives. **R.**

Jesus was born in Bethlehem, the city of David:
through our lives, may Jesus' presence be known in our own communities. **R.**

Jesus' coming was anticipated by his ancestors:
may we leave a good and holy inheritance for generations to come. **R.**

Jesus was brought up by Mary and Joseph with love and dedication:
may all parents be inspired and strengthened in their calling. **R.**

As we prepare to celebrate Jesus' birth,
may we be filled with eagerness to do his will and share his love. **R.**

The Lord's Prayer

(see page 17)

As we raise our hands and hearts and voices to the heavens let us
pray for the coming of God's Kingdom.

Our Father ...

Blessing

The liturgy may end with a blessing or by saying the Grace together.

either:

The Lord be with you
And also with you.

May Jesus, born from the line of Jesse and of the House of David, fill you with all joy
at his coming, and the blessing of Almighty God, the Father and the Son and the
Holy Spirit be among you and remain with you always. **Amen.**

or:

The grace of our Lord Jesus Christ
and the love of God
and the fellowship of the Holy Spirit
be with us all evermore. **Amen.**

Adran 3

Y Nadolig

Rhagarweiniad i'r Tymor

Ar gyfer heddiw'r bore 'n faban bach y ganwyd gwreiddyn Jesse 'n faban bach; y Cadarn ddaeth o Bosra,	y Deddfwr gynt ar Seina, yr Iawn gaed ar Galfaria 'n faban bach yn sugno bron Marïa 'n faban bach.
---	--

(Eos Iâl, 1794-1862)

Mae'r Nadolig yn cael ei ystyried y nesaf mewn pwysigrwydd at ddirgelwch y Pasg. Fodd bynnag, mae dirgelwch y Pasg yn fwy nag adeg bwysicaf blwyddyn yr eglwys oherwydd y mae hefyd yn rhoi ystyr i, ac yn dehongli, holl wyliau ein hamserau a'n tymhorau. Y Nadolig, felly, yw'r adeg pan welwn ac y dathlwn ddirgelwch Pasg yr Arglwydd yn llewyrchu trwy ddigwyddiadau'r ymgawdoliad, genedigaeth a phlentyndod Iesu. Y plentyn a enir yw'r un sydd i achub ei bobl o'u pechodau, yr un sydd i ddod â thangnefedd i'r byd.

O eiliadau cyntaf genedigaeth Iesu, yn wir yn y digwyddiadau paratoadol cyn ei enedigaeth a hyd yn oed cyn ei genhedliad, gwelwn, yn y cawd, gariad achubol Duw a gaiff ei lawn amlygu ar y groes. Adeg y Nadolig, nid digwyddiad hanesyddol neu ben-blwydd yn unig a dathlwn, ond dirgelwch. Y dirgelwch a dathlwn yw Dirgelwch yr Ymgawdoliad, y Gair a ddaeth yn gnawd, Immanuel, 'Duw gyda ni', dynoliaeth gyflawn Iesu, o'i enedigaeth i'w farwolaeth, o'r crud i'r groes, o'r preseb i'r oruwch-ystafell, o ddillad baban i amdo, o ddinas plentynod Dafydd ym Methlehem i eisteddfa'i orsedd a'i frenhiniaeth yn Ninas Jerwsalem, lle mae marwolaeth waredigol Crist, ei atgyfodiad, ei esgyniad a thywalltiad yr Ysbryd yn cwblhau ei waith achubol.

Uchafbwynt dathliad Nadolig yr Eglwys yw'r Cymun Bendigaid Cyntaf a gynhelir gan amlaf Ganol Nos ac y mae deunydd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi ei ddarparu yn Y Cymun Bendigaid (2004), y Colectau a Llithiadur Cyffredin Diwygiedig yr Eglwys yng Nghymru. Mae hefyd ddeunydd ychwanegol ac atodol ar ei gyfer sy'n cynnig gwahanol ddewisiadau o'r Ysgrythur, wedi ei ddarparu yma.

Gellir gadael Preseb a Choeden y Nadolig yn yr eglwys tan 2 Chwefror, Gŵyl Cyflwyniad yr Arglwydd, i bwysleisio helaethrwydd tymor y Nadolig, sy'n ymestyn am ddegain niwrnod llawn gan ddechrau ar Ddydd Nadolig, cyrraedd trobwynt ar Wyl yr Ystwyll ac yna'n parhau hyd at Wyl y Cyflwyniad. Ar Wyl yr Ystwyll gellir symud ffigyrau'r bugeiliaid a rhoi ffigyrau'r doethion yn eu lle.

Darperir yma amrywiaeth o wasanaethau i ddathlu tymor y Nadolig a deunydd litwrgaidd ychwanegol, gan gynnwys Gwasanaeth Cristingl, Naw Llith a Charol, Bendithio'r Preseb a'r Goeden Nadolig. Mae yma hefyd ddeunydd ychwanegol y gellir ei ddefnyddio drwy gydol tymor y Nadolig ac y gellir ei gyfuno ag amrywiol ddathliadau.

Section 3

Christmas

Introduction to the Season

‘Nails, spear shall pierce him through,
the cross be borne for me, for you;
Hail, hail the Word made flesh,
the babe, the son of Mary.’

(‘What Child is This’
by William Chatterton Dix)

Christmas ranks as next in importance to the paschal (Easter) mystery. However, the paschal mystery is not just simply the most important time of the church’s year it also gives meaning to and interprets all the other feasts of our times and seasons. Christmas, then, is when we see and celebrate the Lord’s paschal mystery shining through the events of the incarnation, birth and childhood of Jesus. The child which is born is the one to save his people from their sins, the one to bring peace on earth.

From the first moments of Jesus’ birth, in fact in the preparatory events before his birth and even before his conception, we see, in flesh and blood, the redeeming love of God that will be fully revealed on the cross. At Christmas, we are celebrating a mystery and not simply an historical event or anniversary of a birthday. The mystery we celebrate is the Mystery of the Incarnation, the Word made flesh, Emmanuel, ‘God with us,’ the whole humanity of Jesus, from birth to death, from cross to cradle, from feeding trough to upper room, from swaddling clothes to shroud, from the town of the shepherd David’s boyhood in Bethlehem to the seat of his throne and rule in the City of Jerusalem, where Christ’s redeeming death, resurrection, ascension and the outpouring of the Spirit complete his saving work

The high point of the Church’s celebration of Christmas is the First Eucharist usually celebrated at Midnight. Material for this is provided in the Holy Eucharist (2004) and the Collects and Revised Common Lectionary of the Church in Wales. Additional and supplementary material for the Eucharist is provided here which relates to different choices of Scripture readings.

The Christmas Crib and Tree may remain in church until the feast of the Presentation of the Lord (2nd February) reflecting the fullness of the Christmas season, continuing from Epiphany to Candlemas for a full forty days. At the feast of the Epiphany the figures of the shepherds may be removed and replaced with the figures of the Magi.

A variety of additional Christmas celebrations and liturgical material is provided here, including a Christingle Service, Nine Lessons and Carols, the Blessing of the Crib and Christmas Tree; there is also additional material for use throughout the Christmas season which may be incorporated into various celebrations.

Gweinyddu'r Cymun Bendigaid adeg y Nadolig

Bendithio'r Preseb

Gellir bendithio'r Preseb (os nad yw wedi'i fendithio mewn gwasanaeth cynharach) ar ddechrau'r Cymun Bendigaid. Gweler yr awgrymiadau a ffurfiau ar y fendith ar dudalen 38.

Cyfarchiad

Naill ai'r cyfarchiad o Gymun Bendigaid 2004 *neu'r* canlynol:

Goleuni Crist, ein tangnefedd a'n hiachawdwriaeth, fyddo gyda chwi oll.
A hefyd gyda thi.

Gweddïau o edifeirwch

Rhagarweiniad i'r Gyffes

Gan droi at Grist, y Goleuni,
sydd wedi gwasgaru tywyllwch ein byd,
gadewch i ni lawenhau yn ei allu i achub.

Gellir defnyddio'r brawddegau canlynol o Gymun Bendigaid 2004:

naill ai:

Arglwydd Iesu, y Duw cadarn, Tywysog tangnefedd,
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, Mab Duw a Mab Mair,
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, y Gair a wnaed yn gnawd, gogoniant y Tad,
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu:

Arglwydd Iesu, ti yw Gair tragwyddol Duw,
cenedledig gan y Tad cyn yr holl oesoedd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, gwelsom dy ogoniant,
dy ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, o'th gyflawnder di yr ydym ni oll
wedi derbyn gras ar ben gras.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Cenir y Gloria.

Celebrating the Eucharist at Christmas

Blessing of the Crib

The Crib may be blessed (if it has not been blessed at an earlier celebration) at the beginning of the Eucharist. See the suggestions and prayers of blessing on page 38.

Greeting

Either the greeting from Holy Eucharist 2004 *or* the following may be used:

The light of Christ, who is our peace and salvation, be with you all.
And also with you.

Prayers of Penitence

An Introduction to Confession

Turning to Christ, the Light,
who has dispelled the darkness of our world,
let us rejoice in his power to save.

The following sentences from Holy Eucharist 2004 may be used:

either:

Lord Jesus, you are mighty God and Prince of peace.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, you are Son of God and Son of Mary.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you are Word made flesh and splendour of the Father.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

or:

Lord Jesus, you are the eternal Word of God,
begotten of the Father before time began.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, we have seen your glory,
the glory that is yours as the only Son of the Father.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, of your fullness we have all received,
grace in return for grace.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

The Gloria is sung

Croesawu'r Efengyl

Priod I

Alelwia, alelwia!

Yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr:
ganwyd i ni heddiw Waredwr, Crist yr Arglwydd.

Alelwia!

Priod II

Alelwia, alelwia!

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw
ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.

Alelwia!

Priod III

Alelwia, alelwia!

Daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith;
gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Alelwia!

Ymbiliau

Gellir defnyddio'r Ymbiliau canlynol neu rai eraill addas.

Set I

Gwahoddiad i weddïo

(Ar y noson hon / ar y dydd sanctaidd hwn) tra'n dathlu'r enedigaeth a ddaw â gras ac iachawdwriaeth i bawb, gadewch i ni osod gerbron Duw ein hanghenion ni a rhai'r holl fyd.

Deisyfiadau

Dros yr eglwys yma a thrwy'r holl fyd (yn enwedig *E.* ein hesgob), y bydd i'n haddoliad a'n moliant roi gogoniant i Dduw, a'n tystiolaeth a'n gweinidogaeth hyrwyddo heddwch ar y ddaear, gweddiwn:

Dros bobl o bob llwyth a chenedl, y bydd dathlu genedigaeth Tywysog Tangnefedd yn cynyddu eu llawenydd ac yn symbylu genedigaeth newydd o gyfiawnder a thegwch, gweddiwn: **A.**

A. Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
a thangnefedd i'w bobl ar y ddaear.

Dros y rhai sy'n rhodio yn nhywyllwch anobaith a chysgod anghyfiawnder, y bydd gallu Duw a ffydd ei bobl sanctaidd yn dryllio gwialen gorthrwm ac yn codi iau beichiau bywyd, gweddiwn: **A.**

Dros ffoaduriaid a cheiswyr lloches, dros y rhai sy'n ddigartref, a rhieni sy'n ymdrechu ar eu pennau eu hunain, y gwelwn ynddynt ddarlun o Mair a Joseff, a chanfod wyneb Crist, gweddiwn: **A.**

Gospel Acclamation

Proper I

Alleluia, alleluia!

I bring you news of great joy:
today a Saviour has been born for us, Christ the Lord.

Alleluia!

Proper II

Alleluia, alleluia!

Glory to God in the highest
and peace to all who enjoy his favour.

Alleluia!

Proper III

Alleluia, alleluia!

The Word was made flesh and lived among us
and we saw his glory, the glory that is his as the only Son of the Father.

Alleluia!

Intercessions

The following or other suitable Prayers of Intercession may be used.

Set I

Invitation to Prayer

(On this holy night/day) as we celebrate the birth that brings grace and salvation to all,
let us place before God our needs and those of the whole world.

Petitions

For the church here and throughout the world (especially *N.* our bishop), that our
worship and praise may give glory to God, and our witness and ministry promote
peace on earth, let us pray:

For people of every race and nation, that the celebration of the birth of the Prince of
Peace may increase their joy and encourage a new birth of righteousness and justice,
let us pray: **R.**

R. Glory to God in the highest,
and peace to his people on earth.

For those who walk in the darkness of despair and the shadow of injustice, that the
power of God and the faith of his holy people may break the rod of oppression and lift
the yoke of life's burdens, let us pray: **R.**

For refugees and asylum seekers, for those who are homeless, and parents who struggle
alone, that we may see in them the image of Mary and Joseph, and recognise the face
of Christ, let us pray: **R.**

Amserau a Thymhorau

Dros deulu a chyfeillion pell ac agos, dros y rhai sydd mewn ysbytai neu'n gaeth i'w cartrefi a'r rhai sy'n glaf: y bydd y newyddion da o lawenydd mawr sy'n llenwi ein bywydau yn llonni calonnau'r holl bobl, gweddiwn: **A.**

Drosom ein hunain, y byddwn trwy ras Crist yn ymwrthod â phob peth nad yw'n arwain at Dduw ac y byddwn, trwy fyw bywydau da a sanctaidd, yn dwyn tystiolaeth i'n gobaith am ddyfodiad gogoneddus ein Gwaredwr, gweddiwn: **A.**

Dros y rhai a fu farw yng Nghrist: y bydd y Gwaredwr yr hiraethent am ei ddyfodiad yn eu llonni â gweledigaeth o ogoniant y nefoedd, gweddiwn: **A.**

Mewn distawrwydd a thangnefedd, gadewch i ni offrymu ein gweddiâu ni ein hunain i Dduw ein Tad cariadlon.

Gweddi i gloi

Gogoniant i ti, Arglwydd Dduw! Yng ngenedigaeth dy Fab ym Methlehem, deui â llawenydd a thangnefedd i'r byd. Bydded i bawb y bu i ni weddio drostynt, ynghyd â holl bobl y byd, gael eu llenwi â llawenydd dy bresenoldeb a phrofi dy dangnefedd yn eu bywydau. Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. Amen.

Set II

Gwahoddiad i weddio

Wrth i ni drysori popeth a ddigwyddodd a myfyrio ar Ddirgelwch genedigaeth Crist, galwn ar dosturi Duw a amlygodd ei gariad tuag at yr holl ddynoliaeth trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Deisyfiadau

Llawenhawn yn neges yr angylion a'th foliannu di â chân nefol:
llanwer bywydau yr holl bobl â ffydd yng Nghrist.

Brysiodd y bugeiliaid i weld y cwbl oedd wedi digwydd:
cyflawner dy addewidion ym mywydau'r rhai isel-radd. **A.**

A. O Dduw trugaredd a chariad:
cyfod ein gobeithion i'r nefoedd.

Gwelsom dy Fab, sy'n arwydd o dangnefedd i bawb:
dyro i ni ddyheu am dy dangnefedd a charu dy deyrnas. **A.**

Gogoneddwn a moliannwn di am bopeth a glywsom ac a welsom:
gwna ni'n awyddus i rannu'r newyddion da am enedigaeth Crist. **A.**

Trysorwn ddirgelwch genedigaeth y Gwaredwr:
bydded i'n gweddio a'n haddoli gyfodi ein calonnau a'n bywydau i'r nefoedd. **A.**

Canmolwn di am y cwbl a amlygir yn nhref Dafydd:
llanwer ein cartrefi a'n teuluoedd â goleuni Crist. **A.**

Times and Seasons

For family and friends near and far, for the hospitalized and housebound and those who are ill: that the good news of great joy which fills our lives may brighten the hearts of all people, let us pray: **R.**

For ourselves, that by the grace of Christ we may give up all that does not lead to God and that, living good and holy lives, we may bear witness to our hope for the Saviour's glorious return, let us pray: **R.**

For those who have died in Christ: that the Saviour whose appearing they longed for may gladden them with the vision of heaven's glory, let us pray: **R.**

In silence and peace, let us offer our own prayers to God our loving Father.

Concluding Prayer

Glory to you, Lord God! In the birth of your Son in Bethlehem, you bring joy and peace to the world. May all for whom we have prayed, and all people throughout the world, be filled with the joy of your presence and know your peace in their lives. We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Set II

Invitation to Prayer

As we treasure all that has happened and ponder on the Mystery of Christ's birth, we call on the compassion of God who has revealed his love for the whole of humanity through Jesus Christ our Saviour.

Petitions

We rejoice in the angels' message and praise you with heavenly song:
may the lives of all people be filled with faith in Christ.

The shepherds made haste to see all that had happened:
may your promises be fulfilled in the lives of the lowly. **R.**

R. God of compassion and love:
raise our hopes to heaven.

We have seen your Son, a sign of peace for all:
give us a longing for your peace and a love of your kingdom. **R.**

We glorify and praise you for all we have heard and seen:
make us eager to share the good news of Christ's birth. **R.**

We treasure the mystery of our Saviour's birth:
may our prayer and worship raise our hearts and lives to heaven. **R.**

We praise you for all that is revealed in the city of David:
may our homes and families be filled with the light of Christ. **R.**

Gweddi i gloi

naill ai:

O Dduw ein Tad,
datguddir dy dosturi a'th gariad tuag at yr holl ddynolryw
yng ngenedigaeth dy Fab ym Methlehem.
Fel y mae nef a daear yn cydganu
bydded i'r neges a dderbyniwyd gan fugeiliaid isel-radd
gyfodi ein gobeithion i'r nefoedd,
fel y gallom osod ein gorbwlion ar gyflawnder y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu:

Hollalluog Dduw, ein Tad,
fel y mae cri baban yn hollti distawrwydd y nos
bydded i'r un bach hwn gyflwyno addewid tangnefedd i'r holl bobl
a chyhoeddi iachawdwriaeth i'r sawl sy'n cynnig llety iddo ef sydd yn frenin yn oes
oesoedd. **Amen.**

Set III

Gwahoddiad i weddïo

Fel y mae'r Nadolig yn llenwi'r ddaear â'r newyddion da am y Gair a wnaethpwyd yn
gnawd, bydded i'n gweddïau gofleidio anghenion holl blant Duw.

Deisyfiadau

Am weinidogaeth yr eglwys ledled y byd, y bydd i ni drwy'n gweithredoedd o gariad
wasanaethu'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith ni, gweddiwn:

A. Fe wêl holl gyrrau'r ddaear:
iachawdwriaeth ein Duw ni.

Am ymdrechion rhyngwladol tuag at dangnefedd a sefydlogrwydd, y bydd yr holl genhedloedd
yn croesawu'n llawen y rhai sy'n dwyn neges tangnefedd, gweddiwn ar yr Arglwydd: **A.**

Am y digartref, y di-waith, yr unig a'r amddifad a phawb sy'n cael y Nadolig yn amser anodd,
y bydd Cristnogion yn dwyn iddynt oleuni a bywyd Crist, gweddiwn ar yr Arglwydd: **A.**

Am deuluoedd a adunir gan y tymor sanctaidd hwn, am gartrefi a siriolir gan blant, am
galonnau a lenwir gan lawenydd cyfeillgarwch, y bydd pawb yn bendithio Duw sy'n ein
cysuro a'n cynnal â rhoddion ei gariad, gweddiwn ar yr Arglwydd: **A.**

Am y cyfeillion a'r dieithriaid sy'n dod ynghyd yn un gymuned yn y lle hwn, y cawn weld
a gwerthfawrogi ein gilydd yng Nghrist, goleuni disglair gogoniant Duw, gweddiwn ar yr
Arglwydd: **A.**

[Am ein hanwyliaid ymadawedig a dderbyniodd Grist ac a gredodd ynddo, y bydd
iddynt yn awr ei weld yn llawnder gogoniant y Tad, gweddiwn ar yr Arglwydd: **A.**]

Mewn distawrwydd a thangnefedd, offrymwn ein gweddïau ni ein hunain gerbron
Duw ein Tad cariadlon.

Concluding Prayer

either:

God our Father,
the compassion and love you have for the whole human race
is now revealed through the birth of your Son in Bethlehem.
As heaven and earth are united in song
may the message received by lowly shepherds
raise our hopes to heaven,
that we may look forward to the fullness of eternal life;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

or:

Almighty God and Father,
as a baby's cry breaks the silence of the night
may his infant presence bring the promise of peace
and proclaim salvation for all people.
where he lives and reigns for ever and ever. **Amen.**

Set III

Invitation to Prayer

As Christmas fills the earth with the good news of the Word made flesh,
let our prayers embrace the needs of all God's children.

Petitions

For the church's ministry throughout the world, that by our works of love we may serve
the Word made flesh who has come to live among us, let us pray to the Lord:

For international efforts towards peace and stability, that all nations may gladly
welcome those who bring the message of peace, let us pray to the Lord: **R.**

R. All the ends of the earth shall see:
the salvation of our God.

For the homeless, the unemployed, the lonely and bereaved and all for whom
Christmas is a difficult time, that Christians may be for them the bringer of Christ's
light and life, let us pray to the Lord: **R.**

For families reunited by this holy season, for homes brightened by children, and
for hearts filled with the joy of friendship, that all may bless God who comforts and
sustains us with the gifts of his love, let us pray to the Lord: **R.**

For friends and strangers, one community gathered in this place, that we may see and
cherish one another in Christ, the radiant light of God's glory, let us pray to the Lord: **R.**

[For our beloved departed who accepted and believed in Christ, that they may see
Christ now in the fullness of the Father's glory, let us pray to the Lord: **R.**]

In silence and peace, let us offer our own prayers to God our loving Father.

Gweddi i gloi

Gogoniant i ti, Arglwydd Dduw!
Yng ngenedigaeth dy Fab ym Methlehem,
deui â llawenydd a thangnefedd i'r byd.
Bydded i bawb y bu i ni weddio drostynt,
ynghyd â holl bobl y byd,
gael eu llenwi â llawenydd dy bresenoldeb
a phrofi dy dangnefedd yn eu bywydau.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Rhaglith

Heddiw gwawriodd goleuni newydd arnom.
Atseinia cân yr angylion drwy eangderau'r ffurfafen
gan gyhoeddi newyddion o lawenydd a thangnefedd
i bawb ar y ddaear;
oherwydd y mae Crist, dy Fab cyn yr holl oesoedd,
wedi ei eni i'r byd hwn.
Ef yw'r un sydd yn adfer ein hurddas,
yn cyfoethogi ein gwerth
ac yn estyn i ni'r rhodd o fywyd tragwyddol
oherwydd megis y preswylodd ef yn ein plith ni
felly hefyd y gallom ninnau drigo yn dy lawenydd di am byth.

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Gan lawenhau ym mhresenoldeb Duw yma yn ein plith,
fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, felly gweddiwn.

Ein Tad ...

Y Fendith

Naill ai:

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol, trwy gymryd ein cnawd ni,
eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd ...

neu:

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair, eich llenwi â'i ras fel yr ymddiriedoch yn ei
addewidion ac ufuddhau i'w ewyllys ...

neu:

Bydded i Dduw y Tad,
sy'n teyrnasu yn y goruchelder,
estyn i chwi ras a gwirionedd y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. **Amen.**

Bydded i Grist, Fab Duw, a aned o Fair,
eich llenwi â'i ras
i ymddiried yn ei addewidion ac ufuddhau i'w ewyllys. **Amen.**

Concluding Prayer

Glory to you, Lord God!
In the birth of your Son in Bethlehem,
you bring joy and peace to the world.
May all for whom we pray, and all people throughout the world,
be filled with the joy of your presence
and know your peace in their lives.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Preface

Today a new light has dawned upon us.
The song of angels fills the skies
proclaiming news of joy
and peace to all on earth;
for Christ your Son before all time
is born into this world.
He restores our dignity,
enriches our worth
and brings to us the gift of eternal life
for as he lived among us
we too may experience the joy of life with you for ever.

The Lord's Prayer

(see page 17)

Rejoicing in the presence of God here among us,
as our Saviour taught us, so we pray:

Our Father ...

Blessing

either:

Christ, who by taking our flesh, gathered into one all
things earthly and heavenly, fill you with his joy and
peace ...

or:

Christ the Son of God, born of Mary, fill you with his
grace to trust his promises and obey his will ...

or:

God the Father,
who reigns in highest heaven,
bring you the grace and truth of the Word made flesh. **Amen.**

Christ the Son of God, born of Mary,
fill you with his grace
to trust his promises and obey his will. **Amen.**

Bydded i Dduw'r Ysbryd Glân,
a gysgododd Mair â nerth er mwyn iddi genhedlu,
breswyllo yn eich calonnau chwithau mewn cariad. **Amen.**

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Gollwng

naill ai:

Gan lawenhau yn Immanuel, Duw-gyda-ni,
ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

neu:

Gan lawenhau yn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd
ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

Bendithio'r Goeden Nadolig

Cymharol fodern yw'r arfer o ddefnyddio'r Goeden Nadolig ond gellir canfod ei dechreuadau yn nramâu dirgeledd a miragl y canol oesoedd a oedd yn portreadu Coeden Paradwys, ynghyd â'r goleuadau Nadolig neu'r gannwyll a oedd yn symboleiddio Crist, Goleuni'r Byd. Gellir bendithio'r Goeden Nadolig Ddydd Nadolig neu cyn hynny, yn ystod Litwrgi'r Gair, neu yn ystod y Foreol neu'r Hwyrrol Weddi (yn dilyn cantigl yr Efengyl) neu yn ystod Cymun Bendigaid cyntaf y Nadolig. Gall aros yn yr eglwys tan yr Ystwyll neu tan wyl Cyflwyniad yr Arglwydd.

Fy mrodyr a'm chwiorydd, ganed Iesu Grist ym Methlehem, tref Dafydd: diwalla ei enedigaeth ein hiraethu, llanwa ein calonnau â llawenydd a rhydd llewyrch i'n meddyliau. Bydded i'r goeden hon ein cynorthwyo i groesawu Crist i'n plith; bydded i'w goleuni mwyn ein harwain at y goleuni perffaith.

O Dduw ein Tad,
molwn di am oleuni'r greadigaeth:
am yr haul sy'n codi i'r entrychion ac yn cynhesu'r ddaear
a'r lleuad a'r sêr sy'n sirioli'r nos dywyllaf.
Molwn di am Iesu Grist dy Fab:
Goleuni'r Byd,
sy'n cynhesu ein calonnau,
yn rhoi llewyrch i'n meddyliau
a'n llenwi â rhyfeddod dy gariad.
Bendithia ni wrth i ni oleuo'r goeden hon.
Bydded i'w goleuni siriol a'i llewyrch llon
fod yn arwydd o'r gorfoledd sy'n bywiogi ein calonnau.
Bydded i'r rhai sy'n cael pleser o'r goeden hon
ddod i brofi llawenydd ac iachawdwriaeth.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yna goleuir y canhwylau a goleuadau'r goeden.

God the Holy Spirit,
by whose power Mary conceived,
dwell in your hearts in love. **Amen.**

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

Dismissal

either:

Rejoicing in Emmanuel, God-with-us,
go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

or:

Rejoicing in the Word made flesh
go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

Blessing of the Christmas Tree

The use of the Christmas Tree is relatively modern but its origins may be found in the medieval mystery plays which depicted the tree of paradise and the Christmas light or candle symbolizing Christ, the Light of the World. The Christmas Tree may be blessed on or before Christmas during a celebration of the Word of God, or during Morning and Evening Prayer (after the gospel canticle) or during the first Eucharist of Christmas, and may remain in church until Epiphany or the Presentation of the Lord.

My brothers and sisters, in Bethlehem, the city of David, Jesus Christ was born: his birth fulfils our longing, fills our hearts with joy and enlightens our minds. May this tree help us to welcome Christ among us; may its gentle light guide us to the perfect light.

Lord our God,
we praise you for creation's light:
for the high sun rising in the sky and warming the earth,
and the moon and stars that brighten the darkest night.
We praise you for Jesus Christ your Son:
the Light of the World,
who warms our hearts and illuminates our minds
and filling us with the wonder of your love.
Let your blessing come upon us
as we light up this tree.
May its glimmering light and warming cheer
be a sign of the joy that fills our hearts.
May all who delight in this tree
come to the knowledge of joy and salvation.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

The candles or lights of the tree are then illuminated.

Bendithio'r Preseb neu Olygfa'r Geni

Gellir olrhain yr arfer o bortreadu golygfa geni Crist i Sant Francis o Assisi a luniodd y Preseb ar gyfer Noswyl Nadolig 1223. Fodd bynnag, mor gynnar â'r bedwaredd ganrif roedd golygfa'r geni wedi ei phortreadu ar furluniau, a oedd yn cynnwys nid yn unig yr hanesion am enedigaeth Crist ond hefyd eiriau'r proffwydi Eseia a Habacuc a ragfyngodd y byddai'r Meseia yn cael ei eni ymysg anifeiliaid mewn preseb.

Gall bendithio'r preseb ddigwydd ar Noswyl y Nadolig neu ar unrhyw achlysur arall priodol. Gellir hefyd ddefnyddio ac addasu'r gweddiâu hyn ar gyfer bendithio golygfa'r geni yn y cartref.

Cyfarchiad

Tangnefedd ein Harglwydd Iesu Grist,
Mab Duw a Mab Mair, a fo gyda chwi oll.
A hefyd gyda thi.

Rhagarweiniad

Gyfeillion annwyl, wrth i ni gyfarfod i ddathlu genedigaeth Crist, gweddiwn y bydd Duw yn bendithio'r preseb hwn, ac y bydd pawb sy'n addoli ei Fab, a anwyd o'r Forwyn Fair, yn dod i rannu ei fywyd yn y gogoniant.

naill ai:

O Dad cariadlon,
pan oedd cwrs cyflym y nos ar ei hanner,
llamodd dy Air hollalluog o'th orsedd frenhinol yn y nef.
Draw yn ninas Dafydd Frenin,
ar orsedd bron Maria,
atseinia ei gri i dywys ein calonnau a'n meddyliau
at lawenydd dy gariad tragwyddol.
Bendithia ni a phawb sy'n edrych ar y preseb hwn.
Â'n meddyliau'n llawn cyffro ar enedigaeth Crist
a'n calonnau'n cynhesu ar ei ddyfodiad,
bydded iddo gael ei eni ynom ni y dydd hwn.
Bydded i ni brofi rhyfeddod dy gariad
ac ysblander dy Air a wnaethpwyd yn gnawd,
yn nyfnder ein byw a'n bod.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu:

Trwy enedigaeth Crist dy Fab yn nhref Dafydd
amlygir dy gariad, O Dduw.
Ac yntau yn llewyrch cariad ei fam,
clodforir baban Bethlehem
fel yr Un sydd i ddwyn tangnefedd i bawb ar y ddaear.
Atseinia cân yr angylion drwy eangderau'r ffurfafen
a phrysura bugeiliaid

Blessing of a Christmas Crib or Nativity Scene

The custom of depicting the scene of Christ's birth owes its origins to St Francis of Assisi who made the Christmas Manger for Christmas Eve 1223. However, as early as the fourth century the nativity scene has been depicted on wall decorations, including not only the infancy narrative accounts of Christ's birth but also the words of the prophets Isaiah and Habbaku illustrating that the Messiah would be born in the midst of animals in a manger.

The blessing of the Christmas Manger may take place on Christmas Eve or on another appropriate occasion. These prayers may also be used and adapted for the blessing of a Nativity scene at home.

Greeting

May the peace of our Lord Jesus Christ,
Son of God and Son of Mary, be with you all.
And also with you.

Introduction

Dear friends, as we meet to celebrate the birth of Christ, let us pray that God will bless this crib, that all who worship his Son, born of the Virgin Mary, may come to share his life in glory.

either:

Loving Father,
when darkness lay across the land
your Word leaped down from heaven.
Born in Royal David's City,
his infant cry draws our hearts and minds to the joy of your eternal love,
cradled in the arms of Mary.
Bless us and all who gaze upon this Crib.
With minds alert to the birth of Christ
and hearts warmed by his coming,
may he be born in our hearts this day.
May we experience the wonder of your love
and the splendour of your Word made flesh,
cradled in our lives.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

or:

The unfolding of your love, O God,
is glimpsed in David's town
through the birth of Christ your Son.
Surrounded by a mother's love,
the infant child of Bethlehem
is greeted as the One to bring peace to all on earth.
The sky is filled with angels' song,
and shepherds leave their hilltop home

Amserau a Thymhorau

i weld y cwbl sydd wedi digwydd a'r cyfan a hysbyswyd iddynt.
Bendithia ni a phawb sy'n edrych ar y preseb hwn
fel y bydd ein calonnau yn llawenhau yng ngenedigaeth Crist.
Llanwer ni â rhyfeddod a pharchedig ofn
fel y byddwn yn gyforiog o gariad
a'n bywydau cyfan yn adleisio persain gân y nefoedd
Gweddiwn hyn drwy ein Harglwydd Iesu Grist dy Fab,
y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gwasanaeth Bendithio'r Preseb a Gwylnos y Nadolig yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid

Yn dilyn y Credo gellir cyflwyno a gosod ffigyrau'r preseb yng ngolygfa'r stabl. Gellir defnyddio'r geiriau canlynol (neu ganu carol neu gân addas).

Rhagarweiniad

Gyfeillion annwyl, wrth i ni gyfarfod i ddathlu genedigaeth Crist, gweddiwn y bydd Duw yn bendithio'r preseb hwn, ac y bydd pawb sy'n addoli ei Fab, a anwyd o'r Forwyn Fair, yn dod i rannu ei fywyd yn y gogoniant.

A. Gadewch i ni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd:
y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano.

Ffigyrau'r gwartheg

'Y mae'r ych yn adnabod y sawl a'i piau, a'r asyn breseb ei berchennog; ond nid yw Israel yn adnabod, ac nid yw fy mhobl yn deall.'
Eseia 1. 3

Rhoddir Iesu i orwedd yn y cafn bwydo ymhlith yr anifeiliaid.
Bydded i'r holl bobl ddirnad ei bresenoldeb,
oherwydd ef yw Bara'r Bywyd sydd wedi dyfod i'r byd. **A.**

Mair

Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel.'

Eseia 7. 14

Mae poen genedigaeth Iesu yn troi yn llawenydd wrth i Fair ymhyfrydu yn y plentyn sy'n ei breichiau. Bydded i ninnau ymhyfrydu ym mhresenoldeb Iesu, yr Immanuel, Duw gyda ni, sy'n dod â thangnefedd i bawb ar y ddaear. **A.**

Joseff

A phan ddeffrodd Joseff o'i gwsg, gwnaeth fel yr oedd yr angel wedi gorchymyn; a chymryd Mair yn wraig iddo.'

Mathew 1. 24

Profir ffydd Joseff, ond erys yn gadarn a chariadlon. Y mae'n derbyn cynllun Duw ar gyfer y byd a chymer i'w ofal Fab Duw a Mab Mair.
Bydded i ni fod yn gariadus ac yn barod i dderbyn presenoldeb Iesu i'n bywydau. **A.**

to see all that has been made known to them.
Bless us and all who gaze upon this Crib
that, rejoicing in the birth of Christ
and filled with awe and wonder,
our hearts may overflow with love
and our whole lives echo with the sound of Heaven's song.
We make our prayer through our Lord Jesus Christ your Son,
the Word made flesh,
who lives and reigns with you and the Holy Spirit,
one God, for ever and ever. **Amen.**

Blessing of the Crib Service and Christmas Vigil in the context of the Holy Eucharist

After the Creed, the figures of the crib may be presented and placed in the stable scene.
The following words may be used (or a carol or suitable song be sung).

Introduction

Dear friends, as we meet to celebrate the birth of Christ, let us pray that God will bless this crib, that all who worship his Son, born of the Virgin Mary, may come to share his life in glory.

R. Let us go to Bethlehem and see this thing that has happened:
which the Lord has made known to us.

Figures of Cattle

'An ox knows its owner and a donkey its master's stall; but Israel lacks all knowledge,
my people has no discernment.' *Isaiah 1. 3*

Jesus is laid in a feeding trough amongst the animals.
May all people discern his presence,
for he is the Bread of Life who has come into the world. **R.**

Mary

A young woman is with child and she will give birth to a son and call him Immanuel.'
Isaiah 7. 14

The pain of Jesus' birth gives way to joy as Mary delights in the child in her arms.
May we delight in the presence of Jesus, who is Emmanuel, God-with-us, and who
brings peace to all on earth. **R.**

Joseph

When Joseph awoke from sleep, he did as the angel of the Lord commanded him; he
took her as his wife.' *Matthew 1. 24*

Joseph's faith is tested but he remains firm and loving. He accepts God's plan for the
world and takes into his care the Son of God and Son of Mary.
May we be loving and accepting of the presence of Jesus in our lives. **R.**

Bugeiliaid

Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, 'Gadewch i ni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano.' *Luc 2. 15*

Llawenychodd y bugeiliaid a brysio i'r lle y gorwedda i Iesu, a chân yr angylion yn atseinio yn eu calonnau ac yn llenwi eu bywydau â goleuni a chariad. Bydded i ni fynd ar frys i groesawu Crist â llawenydd fel y gallom, o weld ei ogoniant, gyhoeddi ag un llais, 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.' **A.**

Iesu

Croesawn di Arglwydd Iesu,
a aned o Fair yn nhref frenhinol Bethlehem.
Ti sy'n rhoi tangnefedd i bawb ar y ddaear,
ti yw Gwaredwr y byd,
meddyg y rhai toredig o galon,
gorfoledd pawb sy'n gobeithio yn Nuw.
Rhoddwn ogoniant i Dduw yn y goruchaf
a chyhoeddwn i'r holl bobl y newyddion da am dy enedigaeth
a'r llawenydd a ddaw o adnabod dy bresenoldeb yn ein plith,
oherwydd yr wyt ti yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Y Fendith

Gellir defnyddio un o'r gweddïau o'r adran flaenorol sydd ar gyfer Bendithio'r Preseb neu Olygfa'r Geni.

Ymbiliau

Gellir defnyddio'r canlynol neu weddïau eraill tebyg.

Gwahoddiad i Weddi

Gan i ni ymgynnull ynghyd (i greu ac) i ymhyfrydu yn y preseb hwn, gweddiwn am fendith Duw arnom ni a phawb fydd yn syllu ar yr olygfa hon, fel y bydd ei ras achubol yn disgleirio yn ein bywydau ac yn ffagl i'r rhai sy'n dyheu am oleuni.

Deisyfiadau

Gweddiwn dros Eglwys Dduw: wrth i ni ddwyn i gof stori genedigaeth Iesu ym Methlehem bydded i'n calonnau gael eu llenwi â llawenydd a moliant.

A. Y dydd hwn bydd goleuni newydd yn llewyrchu ar y ddaear:
Ganed yr Arglwydd er ein mwyn.

Gweddiwn dros gymuned ein plwyf ni ein hunain: y bydd cariad Iesu yn preswyllo yn ein calonnau fel y gallom droi at ein gilydd i annog a chefnogi. **A.**

Shepherds

When the angels had left them and gone into heaven, the shepherds said to one another, 'Let us now go to Bethlehem and see this thing that has taken place, which the Lord has made known to us.' *Luke 2. 15*

The shepherds rejoiced and rushed to the place where Jesus lay, the angels' song resounding in their hearts and filling their lives with light and love. May we eagerly make our way to welcome Christ with joy that, having seen his glory, we may proclaim with one voice, 'Glory to God in the highest.' *R.*

Jesus

We welcome you Lord Jesus,
born of Mary in Bethlehem's royal town:
you are the giver of peace to all on earth,
the Saviour of the world,
the healer of the broken hearted,
the joy of all who hope in God.
We give glory to God in the highest
and proclaim to all people the good news of your birth
and the joy of your presence among us,
for you are Lord for ever and ever. **Amen.**

Prayer of Blessing

One of the prayers in the previous section for the Blessing of a Christmas Crib or Nativity Scene may be used.

Intercessions

The following or other similar prayers may be used.

Invitation to Prayer

As we have gathered to (create and) delight in this crib. let us pray for God's blessing upon us and all who will gaze upon this scene, that his saving love will shine in our lives and be a beacon for those who are longing for light.

Petitions

Let us pray for the Church of God: as we recall the story of Jesus' birth in Bethlehem may our hearts be filled with joy and praise.

R. This day new light will shine upon the earth:
The Lord is born for us.

Let us pray for our own parish community: that the love of Jesus may dwell in our hearts so that we may turn to one another with encouragement and support. **R.**

Amserau a Thymhorau

Gweddiwn dros y byd yr ydym yn byw ynddo: y bydd yr holl bobl yn adnabod Crist a aned mewn distadledd, a folwyd yng nghân yr angylion ac a welwyd gan y bugeiliaid isel-radd. **A.**

Gweddiwn dros ein teuluoedd a'n cartrefi: y bydd Crist, a roddwyd i orwedd yn y preseb, yn preswyllo gyda ni bob amser. **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n rhieni: y bydd cariad y Forwyn Fair Fendigaid a Sant Joseff yn ysbrydoli ac yn arwain pob un sydd â gofal plant. **A.**

Gweddiwn dros y rhai sydd wedi eu gwrthod: bydded i'r Eglwys estyn croeso i bawb sy'n dod yn enw'r Arglwydd a themlo'r awydd i'w cynorthwyo i weld y cwbl a ddigwyddodd. **A.**

Gweddiwn dros y rhai nad oes ganddynt dŷ na chartref: am y digartref yn ein trefi a'n dinasoedd, am ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio lloches mewn gwledydd tramor. **A.**

Gweddi i gloi

Dduw ein Tad, mae syllu ar dy Fab yn y gwely gwellt
yn dod â thangnefedd a llawenydd i bawb sy'n clywed cri'r un bach.
Gwrando'r gweddïau a offrymwn yn ei enw
a llanw'r byd â chariad,
oherwydd ef yw'r Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Mae'r Cymun Bendigaid yn parhau â'r tangnefedd.

Os na weinyddir y Cymun Bendigaid yna bydd y Litwrgi yn gorffen gyda Gweddi'r Arglwydd (*gweler tudalen 17*) a ffurf briodol ar y fendith

Let us pray for the world in which we live: that all people may recognise Christ whose humble birth was hailed by angels' song and seen by lowly shepherds. **R.**

Let us pray for our families and homes: that Christ, who was laid in the manger, may dwell with us always. **R.**

Let us pray for all parents: that the love of the Blessed Virgin Mary and St Joseph may inspire and guide all who have the care of children. **R.**

Let us pray for those who are turned away: may the Church provide a welcome for all who come in the name of the Lord and be eager to help them see all that has happened. **R.**

Let us pray for those who have no house or home: for the homeless of our towns and cities, for refugees and those who seek asylum in foreign lands. **R.**

Concluding Prayer

God our Father, the sight of your Son in a bed of straw
gives peace and joy to all who hear his newborn cries.
Listen to the prayers we make in his name
and fill the world with love,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

The Eucharist continues with the peace.

If the Eucharist is not celebrated then the Liturgy ends with the Lord's prayer (*see page 17*) and an appropriate blessing.

Deunydd Ychwanegol i'w ddefnyddio trwy gydol Tymor y Nadolig

Gellir defnyddio'r gweddïau hyn ar gyfer defosiwn preifat neu gyhoeddus trwy gydol Tymor y Nadolig:

Hollalluog Dduw,
ganed dy Fab Iesu yn nhref Dafydd.
Ef yw'r Meseia a addawyd
sydd wedi dod i'r byd i ddwyn undod i'r holl greadigaeth
a chasglu'r holl ddynoliaeth i'th deyrnas o oleuni a thangnefedd.
Wrth i ni addoli gyda bugeiliaid tlawd,
adleisia cân yr angylion yn ein clustiau,
gan lenwi ein calonau ag emynau o fawl.
Bydded i'n gweddi am dangnefedd ddwyn ffrwyth ym mywydau'r holl bobl
fel y bo'r byd cyfan yn atseinio dy gariad.
Gweddiwn hyn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gogoniant i ti Arglwydd Dduw,
hollalluog Dduw a Thad,
rhoddwn ddiolch a moliant i ti am dy ogoniant
a llawenychwn yng ngenedigaeth dy Fab ymgnawdoledig.
Yn gorwedd mewn preseb mae'n cynnal y byd â'i gariad
ac yn ein porthi ni wrth roi ohono'i hun,
oherwydd ef yw Bara'r Bywyd, a ddaeth i lawr o'r nefoedd
i fyw ymhlith ei bobl.
Agor ein calonau i'w adnabod yn ein bywydau
ac anfon ni allan i rannu'r newyddion da
am yr iachawdwriaeth y mae ef yn ei chynnig.
Gofynnwn hyn drwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Arglwydd Dduw,
yr wyt yn bendithio'r byd drwy roi dy Fab
sy'n llenwi popeth â goleuni a bywyd.
Wrth i ni lawenhau yn nirgelwch ei enedigaeth,
bydded i gân yr angylion ac addoliad y bugeiliaid,
ymgeledd Mair ac ymroddiad Joseff,
ddyfnhau cariad y Gwarddwr oddi mewn i ni
a'n cynorthwyo i ddirnad ei bresenoldeb yn ein bywydau,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Additional Material for use throughout the Christmas Season

These prayers may be used for private or public devotion throughout the Christmas Season:

Almighty God,
born in David's town, Jesus your Son, the promised Messiah,
has come into the world to bring unity to the whole of creation
and gather the whole of humanity into your kingdom of light and peace.
As we worship with poor shepherds,
the song of angels echoes in our ears,
and fills our hearts with hymns of praise.
May our prayer for peace bear fruit in the lives of all people
that the whole world may resound with your love.
We make our prayer through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Glory to you Lord God,
almighty God and Father,
we give you thanks and praise you for your glory
and rejoice in the birth of your incarnate Son.
Cradled in a manger he sustains the world with his love
and nourishes us with the gift of himself,
for he is the Bread of Life, who has come down from heaven
to live in the midst of his people.
Open our hearts to his presence in our lives
and send us out to share the good news of salvation he brings.
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Lord God,
you bless the world with the gift of your Son,
who fills the world with light and life.
As we rejoice in the mystery of his birth,
may the song of angels and the worship of the shepherds,
the love of Mary and the dedication of Joseph,
bring us closer to the knowledge of our Saviour's love
and help us discern his presence in our lives,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

O Dduw a Thad Hollalluog,
llenwir tref Dafydd, y bugail-frenin isel-radd,
ag addewidion am enedigaeth y Meseia,
ac eto nid oes le yn y llety i'n Gwaredwr.
Pan fo llef yr un bach yn torri ar ddistawrwydd y nos dywyll,
y mae disgleirdeb ein Duw yn gwawrio ar draws y ddaear
gan lenwi'r negesyddion nefol â chaniadau llawen
wrth iddynt ddwyn newyddion o dangnefedd i fugeiliaid sy'n gwyllo yn y nos.
Gan frysio o'u cartrefi yn y bryniau, gwelant eu Gwaredwr yn gorwedd ar wely o wellt
a thraethant mewn ffyrdd anhygoel am yr addewidion a gyflawnwyd.

Bydded i lawenydd a thangnefedd genedigaeth Iesu
oleuo'r tywyllwch sy'n bygwth y ddaear
a chasglu'r hen a'r ifanc ynghyd i ryfeddu at ddirgelwch ein Duw Ymgawdoledig.
Bydded i'n cartref gael ei lenwi â phresenoldeb Iesu
gan ddarparu croeso twymgalon i'r un sy'n Frenin ac yn Fugail inni oll,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda'r Ysbryd Glân,
un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Gweddïau i'w defnyddio gan blant

LArglwydd Iesu,
diolch i ti am ddod i'r byd
a dangos i ni sut i fyw.
Gweddïwn dros holl blant y byd.
Helpa nhw i ddod o hyd i'w ffordd atat ti
a phrofi llawenydd a thangnefedd yn eu bywydau. **Amen.**

Arglwydd Iesu,
deuwn â'n bywydau i ti.
Helpa ni os gweli di'n dda i'th ddilyn
ac i rannu ag eraill y newyddion da
am dy enedigaeth ym Methlehem. **Amen.**

O Dduw ein Tad,
mae genedigaeth Iesu yn ein gwneud yn hapus.
Helpa ni i rannu ein hapusrwydd ag eraill
a byw fel dy blant di yn y byd.
Trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

All powerful God and Father,
the royal town of David, the lowly shepherd king,
is filled with promises of the Messiah's birth,
and yet there is no room for our Saviour.
When his newborn cries break the silence of the dark night,
the brightness of our God dawns across the earth
and fills the heavenly messengers with songs of joy
bringing news of peace to shepherds watching in the night.
Making haste from their hilltop home they see their Saviour laid in straw,
and speak in wondrous ways about the promises fulfilled.

May the joy and peace of Jesus' birth
illuminate the darkness threatening the earth
and gather young and old to marvel at the mystery of our Incarnate God.
May our living space be filled with Jesus' presence
and provide a wondrous welcome for the King and Shepherd of us all,
your Son Jesus Christ our Lord,
who is alive and reigns with and the Holy Spirit,
one God for ever and ever. **Amen.**

Prayers for use with children

Lord Jesus,
thank you for coming into the world
and showing us how to live.
We pray for all the children of the world.
Help them to find their way to you
and know happiness and peace in their lives. **Amen.**

Lord Jesus,
we bring our lives to you.
Please help us to follow you
and to share with others the good news
of your birth in Bethlehem. **Amen.**

God our Father,
the birth of Jesus makes us happy.
Help us share our happiness with others
and to live as your children in the world.
Through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Litani, yn seiliedig ar Ddoethineb Solomon 7. 1-6

‘Yr wyf finnau hefyd yn ddyn meidrol fel pawb arall,
o hil y dyn cyntaf a luniwyd o bridd y ddaear.’

Arglwydd Iesu, Mab Adda a Mab Dafydd, trugarha wrthym.

‘O fewn croth fy mam fe’ m ffurfiwyd yn gnawd,
mewn deng mis wedi ceulo mewn gwaed.’

Iesu, Mab Dafydd a Mab Mair, trugarha wrthym.

‘Ac wedi fy ngeni anedlais innau yr awyr gyffredin,
a chwympo ar y ddaear sy’n derbyn pawb fel ei gilydd
ac fel pawb arall, sw’n crio a ddaeth gyntaf o’ m genau.’

Arglwydd Iesu, Mab Mair a Mab Duw, trugarha wrthym.

‘Fe’ m rhwymwyd a’ m magu â phob gofal,
Ni chafodd yr un brenin ddechrau gwahanol i’ w fywyd
Un ffordd i mewn i fywyd sydd i bawb, ac un ffordd allan.’

Arglwydd Iesu, y Gair a ddaeth yn gnawd, gogoniant y Tad, trugarha wrthym.

‘A dyma’ r arwydd i chwi: cewch hyd i’ r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban, ac
yn gorwedd mewn preseb.’

Luc 2. 12

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw

Ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.

Litani yr Ymgawdoliad yn seiliedig ar Luc 1. 26-38

‘Anfonwyd yr angel Gabriel at wryf o’ r enw Mair.’

A. Bydded i mi yn ôl dy air di.

‘Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi! Y mae’ r Arglwydd gyda thi.’ **A.**

‘Byddi’ n beichiogi ac yn esgor ar fab a gelwi ef yn Iesu.’ **A.**

‘Bydd ef yn fawr, a Mab y Goruchaf y gelwir ef
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.’ **A.**

‘Daw’ r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi.’ **A.**

‘Gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw.’ **A.**

‘Ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw.’ **R.**

‘Dyma lawforwyn yr Arglwydd.’ **R.**

A Litany based on Wisdom 7. 1-6

‘I too am mortal like everyone else,
a descendant of the first man formed from the earth.’

Lord Jesus, Son of Adam and Son of David, have mercy on us.

‘I was modelled in flesh inside a mother’s womb,
where in blood I acquired substance.’

Jesus, Son of David and Son of Mary, have mercy on us.

‘I, too, when I was born drew in the common air,
I fell on the same ground that bears us all,
and crying was the first sound I made, like everyone else.’

Lord Jesus, Son of Mary and Son of God, have mercy on us.

‘I was nurtured in swaddling clothes, with every care.
No other king has known any other beginning of existence;
for there is only one way into life, and one way out of it.’

Lord Jesus, Word made flesh and splendour of the Father, have mercy on us.

‘And here is a sign for you: you will find a baby wrapped in swaddling clothes
and lying in a manger.’

Luke 2. 12

**Glory to God in the highest heaven
and on earth peace for all those he favours.**

A Litany of the Incarnation based on Luke 1. 26-38

‘The angel Gabriel was sent to a virgin named Mary.’

R. Let what you have said be done to me.

(or: Be it unto me according to your word.)

‘Rejoice highly favoured, the Lord is with you.’ **R.**

‘You are to conceive a bear a son and you must name him Jesus.’ **R.**

‘He will be great and will be called Son of the Most High
and his reign will have no end.’ **R.**

‘The Holy Spirit will come upon you
and the power of the Most High will cover you with its shadow.’ **R.**

‘The child will be called holy and will be called Son of God.’ **R.**

‘Nothing is impossible with God.’ **R.**

‘I am the servant of the Lord.’ **R.**

Erfyniwn arnat, O Arglwydd,
dywallt dy ras yn ein calonnau
fel, megis y bu i ni wybod am ymgnawdoliad dy Fab Iesu Grist trwy neges angel,
y bydd i ni trwy ei groes a'i ddiodefaint
gael ein dwyn i ogoniant ei atgyfodiad
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth. **Amen.**

Litani y Gair a ddaeth yn gnawd

Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear:
Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder.

A. Dywedodd Duw 'Bydded goleuni.'
A bu goleuni.

Dywedodd Duw, 'Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni.'
Ar ddelw Duw y creodd y ddynoliaeth, yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy. **A.**

Yn y dechreuad yr oedd y Gair
Yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. **A.**

Daeth pob peth i fod trwyddo ef.
Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch,
ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef. **A.**

Y Gair oedd y gwir oleuni sy'n goleuo pawb.
Daeth ef i'r byd ac nid adnabu'r byd mohono. **A.**

Daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd;
Gwelsom ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. **A.**

O Dduw Goleuni,
mae dy Air hollalluog yn llamu i lawr o'r nefoedd
i gymryd ein cnawd a byw ymhlith ei bobl.
Bydded i lewyrch ei ddyfodiad oleuo tywyllwch y ddaear
ac ennyn ynom ddyhead am ei bresenoldeb
fel y gallom, a ninnau'n llawn gras a gwirionedd, dy addoli,
yn un Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân. **Amen.**

Lord, pour your grace into our hearts.
As we have known the incarnation of your Son through an angel's message
so through his cross and passion
we may experience the joy of his resurrection.
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

A Litany of the Word made Flesh

In the beginning God created heaven and earth:
the earth was a formless void, there was darkness over the deep.

R. God said, 'Let there be light.'
And there was light.

God said, 'Let us make humankind in our own image.'
In the image of God he created humanity, male and female he created them. **R.**

In the beginning was the Word:
the Word was with God and the Word was God. **R.**

All that came to be had life in him:
a light that shines in the dark, a light that darkness could not overpower. **R.**

The Word was the true light that enlightens all people.
He was coming into the world and the world did not know him. **R.**

The Word was made flesh and lived among us:
We saw his glory as the only Son of the Father, full of grace and truth. **R.**

God of Light,
your all-powerful Word leaps down from heaven
to take flesh and live among his people.
May the light of his coming illuminate the darkness of the earth
and create in all people a longing for his presence
so that, filled with grace and truth, we may worship you:
one God, Father, Son and Holy Spirit. **Amen.**

‘Croesawn di, Arglwydd Iesu’

Croesawn di, Arglwydd Iesu
gwir Oleuni'r byd.

**A. Gogonaint yn y goruchaf i Dduw
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
Addewid y Tad. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
y Gair a ddaeth yn gnawd. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
y Meseia a addawyd. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
Immanuel, Duw gyda ni. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
Gwardwr a Brenin. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd. **A.**

Croesawn di, Arglwydd Iesu,
yr Un Sanctaidd. **A.**

Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd,
ti yn unig yw'r Arglwydd,
ti yn unig,
O Grist,
gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. **Amen.**

‘Paid ag ofni’

Gyfeillion annwyl, ar yr adeg hon datguddiodd Duw ei gynllun trwy anfon negesyddion nefol a llanwyd y rhai a gyfarchent ag anesmwythyd ac ofn. Felly gadewch i ni lawenhau ym mhresenoldeb achubol Iesu, ein Harglwydd a'n Duw. Daeth i breswyllo yn ein plith fel Immanuel, ‘Duw gyda ni’. Mae'n bwrw allan ofn, yn dwyn i ni dangnefedd ac yn gwasgaru y rhai balch eu calon, fel y gallwn gydag angylion ac archangylion ymuno â'r lleisiau nefol i addoli Crist ein Duw.

‘Paid ag ofni, Sachareias, y mae dy ddeisyfiad wedi ei wrando. Bydd dy wraig Elisabeth yn esgor ar fab i ti, a gelwi ef Ioan. Fe gei lawenydd a gorfoledd ... ac fe dry lawer o bobl Israel yn ôl at yr Arglwydd eu Duw.’

Luc 1.13 – 14.16

‘We Welcome you, Lord Jesus’

We welcome you, Lord Jesus,
as the true Light of the world.

**R. Glory to God in the highest
and peace to his people on earth.**

We welcome you, Lord Jesus,
as the Promise of the Father. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as the Word made flesh. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as the promised Messiah. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as Emmanuel, God with us. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as Saviour and King. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as the Lamb of God who takes away the sins of the world. **R.**

We welcome you, Lord Jesus,
as the Holy One. **R.**

For you alone are the Holy One,
you alone are the Lord,
you alone are the Most High,
Jesus Christ,
with the Holy Spirit,
in the glory of God the Father. **Amen.**

‘Do not be Afraid’

Dear friends, at this time, when God revealed his plan through heavenly messengers whose presence filled those they greeted with trepidation and fear, let us rejoice in the saving presence of Jesus, our Lord and our God. He has come to live among us as Emmanuel, ‘God with us.’ He casts out fear, brings us peace and humbles earthly pride so that with angels and archangels we may join the heavenly voices to worship Christ our God.

‘Do not be afraid, your prayer has been heard. Your wife Elizabeth is to bear a son and you shall name him John. He will be your joy and delight ... and he will bring back many of the Israelites to the Lord their God.’

Luke 1.13 – 14.16

A. Paid ag ofni:

Y mae Duw gyda ni.

‘Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaist ffafr gyda Duw. Byddi’n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu. Bydd hwn yn fawr, a Mab y Goruchaf y gelwir ef.’

A.

Luc 1. 30-32b

‘Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae’r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o’r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wared ei bobl oddi wrth eu pechodau.’ **A.**

Mathew 1. 20b-21

Fugeiliaid! ‘Peidiwch ag ofni, oherwydd yr wyf yn cyhoeddi i chwi newydd da am lawenydd mawr a ddaw i’r holl bobl. Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw’r Meseia, yr Arglwydd.’ **A.**

Luc 2. 10, 11

Hollalluog Dduw a Thad,
unwyd y nefoedd a’r ddaear drwy enedigaeth Crist dy Fab.
Bydded i neges yr angylion atseinio ynom
a dwyn disgleirdeb i’n calonnau
fel yr elom ar frys i weld popeth yr wyt ti yn ei wneud yn y byd.
Tyrd â thangnefedd i bawb o’th bobl,
tawela ein hofnau,
cryfha ein ffydd fel y gallom ddilyn dy ffordd
a derbyn yn llawen dy gynllun i’r byd
yn nisglair wawr genedigaeth ein Hiachawdwr.
Gofynnwn hyn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

‘Tra’r oeddem yn brysur’

Tra’r oeddem yn brysur yn llafurio ac yn gweithio
a gadael ein hôl ar y ddaear,
llithraist i’n presenoldeb
bron heb inni sylwi.

A. Bachgen a aned i ni

Mab a roed i ni.

Tra’r oeddem yn brysur yn ceisio pleserau bywyd
ac yn diystyru gweddi,
llithraist i’n presenoldeb
bron heb inni dy glywed. **A.**

Tra’r oeddem yn brysur yn tynnu ein bywydau bychain yn ddarnau
ac yn ymddieithrio oddi wrth gyfeillion a cheraint,
llithraist i’n presenoldeb
bron yn ddiafwybod inni. **A.**

R. Do not be afraid:
God is with us.

‘Do not be afraid, you have won God’s favour. You are to conceive in your womb and bear a son, and you must name him Jesus. He will be great and will be called Son of the Most High.’ **R.** *Luke 1. 30-32b*

‘Do not be afraid to take Mary home as your wife, because she has conceived what is in her by the Holy Spirit. She will give birth to a Son and you must name him Jesus, because he is the one who is to save his people from their sins.’ **R.** *Matthew 1. 20b-21*

‘Do not be afraid I bring you news of great joy, a joy to be shared by the whole people.’ Today in the town of David a Saviour has been born to you; he is Christ the Lord.’ **R.** *Luke 2. 10, 11*

Almighty God and Father,
heaven and earth are united through the birth of Christ your Son.
May the message of the angels
resound with radiance in our hearts
and hasten us to see all that you are doing in the world.
Bring peace to all your people,
calm our fears
and strengthen our faith to follow your way
and accept with joy your plan for the world
in the dawning brightness of our Saviour’s birth.
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

‘Whilst we were busy’

Whilst we were busy labouring and working
and making our mark upon the earth,
you slipped into our presence
almost unnoticed.

R. Unto us a child is born
unto us a Son is given.

Whilst we were busy seeking the pleasures of life
and paying no attention to prayer,
you slipped into our presence
almost unheard. **R.**

Whilst we were busy pulling our little lives apart
and parting from friends and loved ones,
you slipped into our presence
almost unknown. **R.**

Tra'r oeddem yn brysur yn chwilio uchod am arwyddion a rhyfeddodau
ac yn disgwyl am rywbeth dwyfol,
llithraist i'n presenoldeb
bron heb inni dy weld. **A.**

Tra'r oeddem yn brysur yn siarad am bethau crefyddol
a bod yn bwysig a phwerus,
llithraist i'n presenoldeb
bron heb inni dy adnabod. **A.**

Tra'r oeddem yn brysur yn ceisio rhywbeth arall
ac yn crynhoi trysorau a chyfoeth,
llithraist i'n presenoldeb
bron heb inni dy geisio. **A.**

O Dduw'r gwan a'r isel-radd,
Arglwydd y colledig a'r tlawd,
yr ydym wedi ein hudo gymaint gan bethau bydol
fel na roddwn sylw teilwng i'th bresenoldeb.
Symud y pethau sy'n ein rhwystro rhag gweld dy ogoniant,
a thyn ni'n nes atat ti ac at ein gilydd
fel y gallom, trwy fyfyrion ar dy Air a thrysori dy gariad,
adnabod yr Un a roddaist i ni,
a dirnad y gwirionedd am y plentyn sy'n gorwedd ym mreichiau Mair,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddi Ôl-Gymun

O Dduw ein Tad,
yn gyforiog o ryfeddod a pharchedig ofn
buom yn gwledda wrth fwrdd dy Fab.
Ar ei enedigaeth ym Methlehem, fe'i osodwyd mewn cafn bwydo,
ond eto ef sy'n bwydo'r byd drwy roi ohono ef ei hun.
Bydded i'r rhoddion a dderbyniwyd gennym wrth ei fwrdd
ein nerthu a'n cynnal
fel, wedi'n llenwi â'r newyddion da am iachawdwriaeth a thangnefedd i'r holl ddaear,
y byddwn yn cyhoeddi ei bresenoldeb i'r holl ddynolryw
trwy fywydau a nodweddir gan sancteiddrwydd a chariad.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Dduw ein Tad,
moliannwn di am bopeth a welsom ac a glywsom,
am bopeth a gawsom wrth fwrdd dy Fab.
Cryfha ni i rannu'r newydd da am ei enedigaeth
ac i lawenhau yn y gras sy'n ein gwneud yn gyd-etifeddion ag ef
fel y cawn edrych ymlaen mewn ffydd at gyflawnder y bywyd tragwyddol;
trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Whilst we were busy looking above for signs and wonders
and waiting for something divine,
you slipped into our presence
almost unseen. **R.**

Whilst we were busy taking about religious things
and being important and powerful,
you slipped into our presence
almost unrecognised. **R.**

Whilst we were busy seeking after something more
and storing up treasures and riches,
you slipped into our presence
almost unwanted. **R.**

God of the weak and the lowly,
Lord of the lost and the poor,
we have been too distracted by other things
to pay much attention to your presence.
Remove the things that hinder us from glimpsing your glory,
and draw us closer to you and one another
that, pondering your Word and treasuring your love,
we may know the One you have given to us,
and the truth of the child who lies in the arms of Mary,
your Son Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Prayer after Communion

God our Father,
filled with awe and wonder
we have feasted at the table of your Son,
who, at his birth in Bethlehem was cradled in a feeding trough,
and feeds the world with the gift of himself.
May the gifts we have received at his table
strengthen and sustain us
that, filled with the good news of salvation and peace for all on earth,
we will proclaim his presence to the whole human race
through lives marked by holiness and love.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

God our Father,
we praise you for all we have seen and heard,
for all we have received at the table of your Son.
Strengthen us to share the good news of his birth
and rejoice in the grace which make us heirs with him
to look forward with faith to the fullness of eternal life;
through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Hollalluog Dduw,
gwawriodd y goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch ar ein bywydau,
gan wasgaru cysgodion y nos
a'n llenwi ni â'i ras a'i wirionedd.
Bydded i ni, sy'n gorfoleddu yn y Gair a ddaeth yn gnawd
ac sydd wedi ei groesawu i'n plith,
gyhoeddi newyddion da, bod yn negeswyr tangnefedd, a dwyn hapusrwydd i eraill.
Codwn ein lleisiau gyda'n gilydd a bloeddiwn yn llawen,
oherwydd yr ydym wedi gweld ein Brenin sy'n cysuro ei bobl
ac sy'n dwyn iachawdwriaeth i'r holl ddynolryw.
Trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gwasanaeth Carolau a Darlleniadau ar gyfer y Nadolig

Lluniwyd y Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn gyntaf gan Edward Benson pan oedd yn Esgob Truro at ddefnydd ei gadeirlan. Cafodd ei symleiddio a'i gymhwyso ar gyfer ei ddefnyddio yng nghapel Coleg y Brenin, Caergrawnt ym 1918 gan y Deon, Eric Milner-White, a ysgrifennodd y Rhagarweiniad a'r Weddi o Wahoddiad a welir isod.

Gellir defnyddio gwersiglau ac atebion yr Hwyrrol Weddi yma.

Rhagarweiniad I

Anwyliaid yng Nghrist, bydded i ni'r Nadolig hwn ymhyfrydu unwaith eto yn neges yr angylion, a mynd yn ein calonnau a'n meddyliau hyd at Fethlehem a gweld y peth hwn a ddaeth i fod a'r Baban yn gorwedd mewn preseb. Felly gadewch i ni ddarllen a nodi yn yr Ysgrythur Lân stori bwriadau cariadlon Duw o ddyddiau cyntaf ein hanufuddod hyd at y brynedigaeth ogoneddus a sicrhawyd i ni gan y Plentyn Sanctaidd hwn.

Ond yn gyntaf, gweddiwn am angenrheidiau'r holl fyd; am dangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da ymhlith ei holl bobl; am undod a brawdoliaeth o fewn yr Eglwys y daeth i'w hadeiladu, ac yn arbennig yn y ddinas hon [y dref hon, y pentref hwn] ...ac esgobaeth...Ac oherwydd mai hyn uwchlaw popeth fyddai'n llawenhau ei galon, gadewch i ni gofio, yn ei enw, y tlawd a'r diymgeledd, yr oer, y newynog a'r gorthrymedig, y cleifion a'r rhai sy'n galaru, yr unig a'r rhai nad oes neb yn eu caru, yr henoed a'r plant bach; pawb nad ydynt yn adnabod yr Arglwydd Iesu, neu nad ydynt yn ei garu, neu sydd trwy bechod wedi peri dolur i'w galon gariadlon.

Yn olaf, gadewch i ni gofio gerbron Duw bawb sy'n llawenhau gyda ni, ond sydd ar lan arall, ac mewn golau disgleiriach, y llu aneirif, y rhai oedd â'u gobaith yn y Gair a ddaeth yn gnawd ac yr ydym ni yn un â hwy am byth yn yr Arglwydd Iesu. Offrymwn ein gweddiâu a'n moliant yn ostyngedig gerbron gorsedd y nefoedd, yn y geiriau a ddysgodd Crist ei hun i ni:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Ein Tad ...

Almighty God,
the light that shines in the darkness
has filled our lives, dispelled the shadows of the night
and filled us with his grace and truth.
May we, who rejoice in the Word made flesh
and who have welcomed him into our midst,
proclaim good news, be heralds of peace, and bring happiness to others.
We raise our voices and shout for joy together,
for we have seen our King who consoles his people
and brings salvation to the whole human race.
Through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

A Service of Carols and Readings for Christmas

The Service of Nine Lessons with Carols was first drawn up by Edward Benson when Bishop of Truro for use in his cathedral. It was simplified and adapted for use in the chapel of King's College, Cambridge, in 1918 by the Dean, Eric Milner-White, who wrote the first Introduction and Bidding Prayer provided below.

The versicles and responses for Evening Prayer may be used here

Introduction I

Beloved in Christ, be it this Christmastide our care and delight to hear again the message of the angels, and in heart and mind to go even unto Bethlehem and see this thing which is come to pass, and the Babe lying in a manger. Therefore let us read and mark in Holy Scripture the tale of the loving purposes of God from the first days of our disobedience unto the glorious redemption brought us by this Holy Child.

But first, let us pray for the needs of the whole world; for peace on earth and goodwill among all his people; for unity and brotherhood within the Church he came to build, and especially in this city [town, village] of ... and diocese of ... And because this of all things would rejoice his heart, let us remember, in his name, the poor and helpless, the cold, the hungry and the oppressed; the sick and them that mourn, the lonely and the unloved, the aged and the little children; all those who know not the Lord Jesus, or who love him not, or who by sin have grieved his heart of love.

Lastly, let us remember before God all those who rejoice with us, but upon another shore, and in a greater light, that multitude which no man can number, whose hope was in the Word made flesh, and with whom in the Lord Jesus we are for ever one. These prayers and praises let us humbly offer up to the throne of heaven, in the words which Christ himself hath taught us:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Our Father ...

Rhagarweiniad II

Fy mrodyr a'm chwiorydd, mae gŵyl y Nadolig yn llenwi'r byd â gorfoledd a hyfrydwch, â goleuni a bywyd, wrth i ni lawenhau yng ngenedigaeth Crist ym Methlehem. Wedi dod ynghyd yn ei bresenoldeb, gadewch i ni wrando ar eiriau'r Ysgrythur a thrysori'r pethau hyn yn ein calon gan fyfyrion ar bopeth a wnaeth Duw drosom yng Nghrist. Bydded i neges yr angylion lenwi ein calonnau â llawenydd a bydded i Ysbryd Duw, a gysgododd Mair, gryfhau ein ffydd. Felly bydded i ninnau, sydd wedi teithio yn ein calon a'n meddwl i dref Dafydd, gyhoeddi i'r holl bobl gariad syfrdanol y Tad a rhoi gogoniant i Dduw yn y goruchaf!

Deuwch yn awr, mewn meddwl ac ysbryd, i'r cartref isel-radd ym Methlehem a gwelwch y peth hwn a ddigwyddodd. Gwrandewch ar neges yr angylion, a'u cân yn llawn o newyddion da a thangnefedd i'r holl ddaear. Deuwch a llawenhewch gyda'r bugeiliaid isel-radd gan rannu yn llawenydd Mair wrth i ni syllu ar Grist a anwyd i'r byd hwn i ddwyn iachawdwriaeth i bawb. Wrth i ni lawenhau, na fydded i ni anghofio anghenion ein cymdogion, oherwydd daw Iesu â thangnefedd i'r tlawd a'r gorthrymedig, i'r rhai a anwybyddir ac a danseilir, i'r newynog a'r digartref, ac mae'n gweinidogaethu â gras a chariad. Gweddiwn drostynt ac ymrwymo i weithredu trugaredd a chariad, gan gyflwyno iddynt y newyddion da am enedigaeth Iesu a sicrwydd ei gariad.

Gweddiwn am gymod a thangnefedd ledled y byd, am ryddhad o bechod a phwerau'r tywyllwch. Gan groesawu goleuni Crist, gadewch i ni agor ein calonnau a'n bywydau i'n Tad nefol, ceisio'i ewyllys ym mhob peth, a gweddiö fel y dysgodd Iesu ei hun i ni:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Ein Tad ...

Introduction II

My brothers and sisters, the feast of Christmas fills the world with joy and delight, with light and life, as we rejoice in the birth of Christ in Bethlehem. Gathered in his presence, let us listen to the words of Scripture and treasure these things in our heart, pondering upon all that God has done for us in Christ. May the message of the angels fill our hearts with joy and may the Spirit of God, who overshadowed Mary, strengthen our faith that we too, having journeyed in heart and mind to the city of David, may announce to all people the awe inspiring love of the Father and give glory to God in the highest!

Come now, in mind and spirit, to the humble home in Bethlehem and see this thing that has happened. Listen to the angels' message, their song filled with good news and peace for all on earth. Come and rejoice with the lowly shepherds and share in the joy of Mary as we gaze upon Christ who has been born into this world to bring salvation to all. As we rejoice, let us never forget the needs of others, for Jesus comes to the poor and downtrodden, the overlooked and undermined, the hungry and the homeless with peace and he ministers with grace and love. Let us pray for them and be resolved, through acts of charity and love, to bring them the good news of Jesus' birth and the assurance of his love.

Let us pray for reconciliation and peace throughout the world, for freedom from sin and the powers of darkness. Welcoming the light of Christ, let us open our hearts and lives to our heavenly Father, seeking his will in all things, praying as Jesus himself has taught us:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Our Father ...

Patrwm Darlleniadau I (Y Patrwm o Goleg y Brenin, Caergrawnt)

Y Cwmp	Genesis 3. 8-14
Yr addewid i Abraham	Genesis 22. 1-19 (neu 22. 15-18)
Proffwydoliaeth am eni'r Meseia	Eseia 9. 2, 6, 7
Proffwydoliaeth am deyrnas tangnefedd y Meseia (neu Caiff y Meseia ei eni ym Methlehem)	Eseia 11. 1-9 Micha 5. 2-4
Cyfarchiad Gabriel i Fair (neu Dyfodiad gogoniant yr Arglwydd)	Luc 1. 26-38 Eseia 60. 1-6, 19
Genedigaeth Immanuel (neu Genedigaeth Iesu)	Mathew 1. 18-23 Luc 2. 1-7
Y bugeiliaid yn mynd at y preseb	Luc 2. 8-16
Y doethion yn cael eu harwain gan seren at Iesu	Mathew 2. 1-11
Ymgawdoliad Gair Duw	Ioan 1. 1-14

Patrwm Darlleniadau II (Yr Efengyl yn ôl Luc)

Y cyfarchiad i Sachareias	Luc 1. 5-25
Y cyfarchiad i Fair	Luc 1. 26-38
Ymweliad Mair ag Elisabeth	Luc 1. 39-56
Genedigaeth Ioan	Luc 1. 57-80
Genedigaeth Iesu	Luc 2. 1-7
Y bugeiliaid	Luc 2. 8-20
Y Cyflwyniad yn y Deml	Luc 2. 22-40
Amlygwyd Gras Duw er iachawdwriaeth pawb	Titus 2. 11-14; 3. 3-7

Patrwm Darlleniadau III (Y Newyddion Da i'r Tlawd)

Bethlehem, ohonot ti y daw allan lywodraethwr	Micha 5. 2-4
Bydd yr anial a'r sychdir yn llawenhau	Eseia 35
Llanwaf y tŷ hwn â gogoniant (neu Barnodd eich Tad achos y tlawd)	Haggai 2. 5b-9 Jeremeia 22. 13-16; 23. 5,6
O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn	Eseia 11. 1-9
Mor weddaidd ar y mynyddoedd (neu Llais un yn galw, 'Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd')	Eseia 52. 7-10 Eseia 40. 1-11
Cymerodd ffurf caethwas	Philipiaid 2. 5-11

Efengyl

Yn ystod yr Adfent:

Y Cyfarchiad	Luc 1. 26-38
--------------	--------------

Adeg y Nadolig:

Genedigaeth Iesu	Luc 2. 1-20
------------------	-------------

Pattern of Readings I (Pattern from King's College, Cambridge)

The Fall	<i>Genesis 3. 8-14</i>
The promise to Abraham	<i>Genesis 22. 1-19 or (22. 15-18)</i>
The prophecy of the Messiah's birth	<i>Isaiah 9. 2, 6, 7</i>
The prophecy of the Messiah's kingdom of peace	<i>Isaiah 11. 1-9</i>
(or The Messiah will be born in Bethlehem	<i>Micah 5. 2-4)</i>
The Annunciation to Mary	<i>Luke 1.26-38</i>
(or The coming of the glory of the Lord	<i>Isaiah 60. 1-6, 19)</i>
The birth of Emmanuel	<i>Matthew 1. 18-23</i>
(or The birth of Jesus	<i>Luke 2. 1-7)</i>
The shepherds go to the manger	<i>Luke 2. 8-16</i>
The magi are led by the star to Jesus	<i>Matthew 2. 1-11</i>
The Incarnation of the Word of God	<i>John 1. 1-14</i>

Pattern of Readings II (The Gospel according to Luke)

The Annunciation to Zechariah	<i>Luke 1. 5-25</i>
The Annunciation to Mary	<i>Luke 1. 26-38</i>
The visit of Mary to Elizabeth	<i>Luke 1. 39-56</i>
The birth of John	<i>Luke 1. 57-80</i>
The birth of Jesus	<i>Luke 2. 1-7</i>
The shepherds	<i>Luke 2. 8-20</i>
The Presentation in the Temple	<i>Luke 2. 22-40</i>
The Grace of God has appeared for the salvation of all	<i>Titus 2. 11-14; 3. 3-7</i>

Pattern of Readings III (Good News for the Poor)

Bethlehem, from you shall come forth a ruler	<i>Micah 5. 2-4</i>
The wilderness and the dry land shall be glad	<i>Isaiah 35</i>
I will fill this house with splendour	<i>Haggai 2. 5b-9</i>
(or Your Father judged the cause of the poor	<i>Jeremiah 22. 13-16; 23. 5,6)</i>
There shall come forth a shoot from the stump of Jesse	<i>Isaiah 11. 1-9</i>
How beautiful on the mountains	<i>Isaiah 52. 7-10</i>
(or A voice cries in the wilderness: 'Prepare the way of the Lord'	<i>Isaiah 40. 1-11)</i>
He took the form of a servant.....	<i>Philippians 2. 5-11</i>

Gospel

In Advent:

The Annunciation	<i>Luke 1. 26-38</i>
------------------------	----------------------

At Christmas:

The birth of Jesus	<i>Luke 2. 1-20</i>
--------------------------	---------------------

Y Weddi i gloi a'r Fendith

Gellir defnyddio'r canlynol neu ryw weddi briodol arall:

O Dduw ein Tad,
yr ydym wedi gwranddo'n astud
ar ddyhead eiddgar dy bobl
a chyflawniad eu gobeithion yng ngenedigaeth Iesu.
Wrth i ni lawenhau yn yr iachawdwriaeth a gyhoeddir gan ei enedigaeth
bydded i ddirgelwch y Gair a ddaeth yn gnawd
oleuo'n meddyliau a'n dyrchafu fry i'r nefoedd,
lle mae ef yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Y Fendith a'r Gollwng

o'r llyfr Gweddï Ddyddiol

Adfent

Bendigedig wyt ti, Dduw Goruchaf, Arglwydd pob peth!
O'th dyner drugaredd
y tyr arnom y wawrddydd oddi uchod,
i chwalu gweddillion cysgodion y nos.
A ninnau'n disgwyl dy ddyfod i'n plith,
agor ein llygaid i ganfod dy bresenoldeb
a chryfha ein dwylo i wneud dy ewylllys,
fel y gall y byd dy feliannu'n llawen.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Llewyrched Crist, Haul Cyfiawnder, arnoch,
a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen ...

neu:

Bydded i Dduw Dad,
a garodd y byd gymaint nes iddo anfon ei unig Fab,
rodde i chwi ras i baratoi at fywyd tragwyddol. **Amen.**

Bydded i Dduw Fab,
sy'n dod atom yn Waredwr ac yn Farnwr,
ddangos i chwi'r llwybr o dywyllwch i oleuni. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,
trwy'r hwn y beichiogodd y Forwyn Fair ar Grist,
eich cynorthwyo i ddwyn ffrwythau sancteiddrwydd. **Amen.**

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Final Prayer

The following or some other appropriate prayer may be used:

God our Father,
we have listened attentively
to the eager longing of your people
and the fulfilment of their hopes in the birth of Jesus.
As we rejoice in the salvation his birth announces
may the mystery of the Word made flesh
illuminate our lives and raise us high to heaven,
where he is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God for ever and ever. **Amen.**

Blessing and Dismissal

from Daily Prayer

Advent

You are blessed, Sovereign God, Lord of all!
In your tender compassion
the dawn from on high breaks upon us,
o dispel the lingering shadows of night.
As we look for your coming among us,
open our eyes to behold your presence
and strengthen our hands to do your will,
that the world may rejoice to give you praise.
Blessed be God for ever.

Christ the Sun of Righteousness shine upon you, scatter the darkness from before you ...

or:

May God the Father
who loved the world so much he sent his only Son,
give you grace to prepare for eternal life. **Amen.**

May God the Son,
who comes to us as Redeemer and Judge,
show you the path from darkness to light. **Amen.**

May God the Holy Spirit,
by whom the Virgin Mary conceived the Christ,
help you to bear the fruits of holiness. **Amen.**

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

Nadolig

Gogoniant i Dduw yn nef y nefoedd,
a thangnefedd ar y ddaear y daeth ef iddi.
Fel y bugeiliaid, ar anogaeth angylion,
bydded inni dy geisio a'th ganfod,
wedi dy eni o Fair ym Methlehem orlawn,
a'th ogoneddu a'th foliannu
am y cwbl a glywsom ac a welsom.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol,
trwy gymryd ein cnawd ni, eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd ...

neu:

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair, eich llenwi â'i ras fel yr ymddiriedoch yn ei
addewidion ac ufuddhau i'w ewylllys ...

neu:

Bydded i Dduw Dad,
sy'n teyrnasu yn nef y nefoedd,
ddwyn i chwi ras a gwirionedd y Gair a wnaed yn gnawd. **Amen.**

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair,
eich llenwi â'i ras
i ymddiried yn ei addewidion ac i ufuddhau i'w ewylllys. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,
y beichiogodd Mair trwy ei ras,
breswyllo yn eich calonnau mewn cariad. **Amen.**

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a
drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

neu o'r Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:
ei gariad sy'n dragywydd.

Defnyddir gweddi ôl-gymun ynghyd ag/neu un o'r gweddïau canlynol

**Diolchwn i ti, ein Tad,
am ein porthi â chor a gwaed dy Fab
yn y sacrament sanctaidd hwn,
y cawn trwyddo sicrwydd
o'r gobaith am fywyd tragwyddol.
Offrymwn ein hunain yn aberth bywiol i ti.
Cadw ni yng nghymdeithas ei gor, yr Eglwys,
ac anfon ni allan yn nerth dy Ysbryd
i fyw ac i weithio er mawl a gogoniant i ti. Amen.**

Christmas

Glory to God in highest heaven,
and peace on the earth to which he came.
Like the shepherds, encouraged by angels,
may we still seek and find you,
born of Mary in crowded Bethlehem,
and glorify and praise you
for all we have heard and seen.

Blessed be God for ever.

Christ, who by taking our flesh, gathered into one all things earthly and heavenly,
fill you with his joy and peace ...

or:

Christ the Son of God, born of Mary, fill you with his grace to trust his promises
and obey his will ...

or:

God the Father,
who reigns in highest heaven,
bring you the grace and truth of the Word made flesh. **Amen.**

Christ the Son of God, born of Mary,
fill you with his grace
to trust his promises and obey his will. **Amen.**

God the Holy Spirit,
by whose power Mary conceived,
dwell in your hearts in love. **Amen.**

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

or from the Order of the Holy Eucharist 2004

Give thanks to the Lord for he is gracious:
his love is everlasting.

A post-communion prayer and/or one of the following prayers is used:

**We thank you, Father,
for feeding us with the body and blood of your Son in this holy sacrament,
through which we are assured
of the hope of eternal life.**

**We offer ourselves to you as a living sacrifice.
Keep us in the fellowship of his body, the Church,
and send us out in the power of your Spirit
to live and work to your praise and glory. Amen.**

neu:

**O Dduw haelionus,
porthaist ni wrth dy fwrdd nefol.
Ennyn ynom am dy Ysbryd,
fel pan ddaw'r Arglwydd drachefn
y cawn ddisgleirio fel goleuadau o'i fl aen ef,
sy'n byw ac yn teyrnasu,
mewn gogoniant am byth. Amen.**

neu:

**Dduw tragwyddol,
cysur y gorthrymedig ac iachawr y drylliedig,
porthaist ni wrth fwrdd bywyd a gobaith.
Dysg inni lwybrau addfwynder a thangnefedd,
er mwyn i'r holl fyd gydnabod
teyrnas dy Fab,
Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.**

neu:

**Dduw'r gwirionedd,
yr ydym wedi gweld â'n llygaid
a chywrdd â'n dwylo fara'r bywyd.
Cryfha ein ffydd
fel y tyfwn mewn cariad atat ti,
ac at ein gilydd,
trwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig. Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

I'w ddefnyddio, os mynnir, rhwng yr ymatebion terfynol, gyda'r fendith neu hebdi

Yr Adfent

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder arnoch a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen ...

Y Nadolig

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol, trwy gymryd ein cnawd ni,
eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd ...

neu:

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair, eich llenwi â'i ras fel yr ymddiriedoch yn ei
addewidion ac ufuddhau i'w ewyllys ...

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a
drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

or:

**Generous God,
you have fed us at your heavenly table.
Kindle us with the fire of your Spirit
that when the Lord comes again
we may shine as lights before him,
who is alive and reigns in glory for ever. Amen.**

or:

**Eternal God,
comfort of the aicted and healer of the broken,
you have fed us at the table of life and hope:
teach us the ways of gentleness and peace,
that all the world may acknowledge
the kingdom of your Son,
Jesus Christ our Lord. Amen.**

or:

**God of truth,
we have seen with our eyes
and touched with our hands the bread of life.
Strengthen our faith
that we may grow in love for you
and for each other,
through Jesus Christ, our risen Lord. Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

For optional use between the final responses, with or without a blessing

Advent

Christ the Sun of righteousness shine on you and scatter the darkness from before
you ...

Christmas

Christ, who by taking our flesh, gathered into one all things earthly and heavenly,
fill you with his joy and peace ...

or:

Christ the Son of God, born of Mary, fill you with his grace to trust his promises
and obey his will ...

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

Gwasanaeth y Cristingl

Cynigir y canlynol fel amlinelliad ar gyfer Gwasanaeth y Cristingl i gyd-fynd ag, ac i ychwanegu at, ddeunydd arall sy'n hawdd cael gafael arno. Mae'r iaith a ddefnyddir mor syml â phosibl er mwyn bod yn addas ar gyfer y nifer fawr o blant sydd gan amlaf yn bresennol mewn gwasanaeth o'r fath, sef y rhai y mae'r gwasanaeth hwn wedi ei anelu atynt yn bennaf. Dylid dewis carolau ac emynau priodol.

Y Dod Ynghyd

Gellir canu emyn neu garol.

Cyfarchiad

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Tangnefedd a goleuni Iesu ein Brenin a fo gyda chwi oll.
A hefyd gyda thi.

Gellir defnyddio'r Datganiad canlynol:

Mae bugeiliaid yn clywed neges yr angel:

A. Mae gogoniant yr Arglwydd yn disgleirio!

Heddiw yn nhref Dafydd ganwyd Gwarddwr: **A.**

Un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban yw'r arwydd a roddwyd iddynt: **A.**

Maent yn mynd ar frys i'r lle y mae Iesu Grist yn gorwedd: **A.**

Mae pawb yn synnu wrth glywed neges y bugeiliaid. **A.**

Mae Mair yn trysori'r holl bethau hyn ac yn myfyrio arnynt yn ei chalon: **A.**

Gadewch inni weld y peth hwn a ddigwyddodd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano: **A.**

Oherwydd ganwyd Iesu Grist ein Gwarddwr yn nhref Dafydd: **A.**

Geiriau o Gyflwyniad

Ffrindiau annwyl, mae genedigaeth Iesu ym Methlehem yn dod â golau a hapusrwydd i'n bywydau ac yn addo tangnefedd i'r holl fyd. Wrth i ni ddathlu'r gwasanaeth Cristingl hwn gweddiwn y bydd cariad Duw a ddaeth i'r byd yn llenwi bywydau pawb ac y bydd ei ogoniant yn disgleirio o gwmpas.

Christingle Service

The following is offered as a suggested outline for a Christingle Service to accompany and supplement other material already widely available. The language used is as simple as possible to cater for the large number of children that is usually present at this kind of service and for whom this service is primarily aimed. Suitable carols and hymns should be chosen.

Gathering

A hymn or carol may be sung.

Greeting

In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit. **Amen.**

May the peace and light of Jesus our King be with you all.
And also with you.

The following Acclamation may be also be used:

Shepherds hear the angel's message:

R. The glory of the Lord shines round!

Today in David's town a saviour has been born: **R.**

A baby wrapped in swaddling clothes is the sign they have been given: **R.**

They hurry to the place where Jesus Christ is laid: **R.**

The shepherds astound others with all they have been told. **R.**

Mary treasures all these things and ponders them in her heart: **R.**

Let us see this thing that has happened, the things the Lord has said: **R.**

For Jesus Christ our Saviour has been born in David's town: **R.**

Words of Introduction

Dear friends, the birth of Jesus in Bethlehem brightens our lives, brings us happiness and promises peace to the whole world. As we celebrate this Christingle service we pray that the love of God which has come into the world will fill the lives of all people and that his glory will shine around.

Rhagarweiniad i Weddïau o Edifeirwch (Gweddïau i ddweud 'Mae'n ddrwg gen i')

Dymunwn ddilyn Iesu â'n holl galon ond weithiau rydym ni'n gwneud rhywbeth sy'n ei dristáu. Felly, gadewch i ni ddweud ei bod hi'n ddrwg gennym am hynny a gofyn iddo ein gwneud yn gryf a ffyddlon.

Gweddïau o Edifeirwch (Gweddïau i ddweud 'Mae'n ddrwg gen i')

naill ai:

Arglwydd Iesu, cefaist dy eni mewn tlodi
Rho i ni gyfoeth dy gariad.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, cefaist dy gyfarch gan fugeiliaid llwm.
Cod ni fel y byddwn yn dda ac yn sanctaidd.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, cefaist dy roi i orwedd mewn preseb.
Helpa ni i'th weld di yn ein bywydau bob dydd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu:

Dduw ein Tad,
rwy't ti bob amser yn caru ac yn maddau.
Mae'n ddrwg gennym am bopeth a wnaethom
sydd wedi tristáu Iesu.
Gweddïwn y bydd i'w oleuni ddisgleirio yn ein bywydau
a'n helpu ni i garu eraill
fel y mae ef yn ein caru ni. **Amen.**

Gweddi sy'n datgan maddeuant

Bydded i gariad Iesu, sy'n goleuo'r holl fyd,
gael ei blannu yn *eich/ein* calonnau,
eich cryfhau *chwi/ein* cryfhau ni i wneud pethau da
a rhannu ei dangnefedd ag eraill,
oherwydd y mae ef yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Gweddi

Arglwydd Dduw,
mae dy air yn llusern i'n traed
yn goleuo'n llwybr ar hyd ein bywyd.
Helpa ni i wrando ar dy eiriau
fel y gall goleuni genedigaeth Iesu
ddisgleirio yn ein bywydau
a dod â thangnefedd i'r holl fyd.
Gofynnwn hyn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Introduction to the Prayers of Penitence ('Prayers to Say Sorry')

We want to follow Jesus with all our heart but sometimes we make mistakes and make him sad. So, let's think about the things that have spoiled our friendship with Jesus, and ask that he will make us strong and faithful.

Prayers of Penitence ('Prayers to say Sorry')

either:

Lord Jesus, you were born in poverty.
Enrich us with your love.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, you were greeted by lowly shepherds.
Raise us up to be good and holy.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you were laid in a manger.
Help us to see you in our daily lives.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

or:

God our Father,
you are always kind and forgiving.
We are sorry for all the things we have done
to spoil our friendship with Jesus.
Let his light shine in our lives
and help us to love others
as he loves us. **Amen.**

Prayer of Forgiveness

May the love of Jesus, which shines out for all the world to see,
take root in *your/our* hearts,
strengthen *you/us* to do good things
and to share his peace with others,
for he is Lord for ever and ever. **Amen.**

Prayer

Lord God,
your word is a lantern to our feet
lighting up our path through life.
Help us to listen the words we are about to hear,
that the light of Jesus' birth
may shine in our lives
and bring peace to all on earth.
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Darlleniadau

Dylid dewis darlleniadau priodol o'r Beibl a fydd yn dweud y stori am enedigaeth Iesu.

Homili

Rhannu a Goleuo'r Cristinglau

Gellir canu carol neu emyn neu gân briodol arall wrth oleuo'r Cristinglau. Gellir goleuo'r Cristinglau wedi iddynt gael eu rhoi i'r plant, pan fyddant wedi dychwelyd i'w lle, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r hyn sy'n ddiogel a phriodol.

Gweddi'r Cristingl

O Dduw ein Tad,
golau'r gannwyll sydd yn ein dwylo
yw golau Iesu yr Arglwydd:
trwy ddod i'r byd
mae'n goleuo'n bywydau,
yn cynhesu ein calonnau
ac yn dod â hapusrwydd i fywydau'r holl bobl.
Trwy ein cyfeillgarwch ag ef
bydded i eraill ddod i wybod am ei gariad cyson.
Gofynnwn hyn drwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddiâu

Rhoddir dwy set o weddiâu yma: gweddiâu o ddiolchgarwch ac ymbiliau. Gellir eu cyfuno neu gellir defnyddio gweddiâu priodol eraill.

1 *Gweddiâu o Ddiolch ('Gweddiâu i ddweud 'Diolch')*

Annwyl ffrindiau, mae Duw mor gryf ac yn llawn cariad. Mae ef wedi rhoi cymaint o bethau i ni fel bod ein calonnau yn orlawn o hapusrwydd. Gadewch i ni ddweud diolch wrth Dduw a garodd y byd gymaint nes iddo roi i ni ei Fab Iesu.

Diolchwn i ti, O Dduw, am y byd a greaist ac am ryfeddodau'r bydysawd. Dywedwn gyda'n gilydd.

A. *(Dywedwn gyda'n gilydd)* **Diolch i ti, O Dduw ein Tad.**

Diolchwn i ti, O Dduw, am yr holl bobl ar hyd yr oesoedd a fu'n dy ddilyn di gan ddangos i ni sut mae gwneud dy waith. **A.**

Diolchwn i ti, O Dduw, am roi Iesu i'n byd i ddangos i ni sut i fyw a charu. **A.**

Diolchwn i ti, O Dduw, am y cyfle i rannu dy gariad â'r rhai sydd mewn angen. **A.**

Readings

Suitable readings from the Bible should be chosen which will tell the story of Jesus' birth.

Homily

Distribution and Lighting of the Christingles

A carol or other appropriate hymn or song may be sung as the Christingles are lit. The Christingles may be lit after they have been distributed to the children, when they have returned to their place, according to local circumstances and as is safe and appropriate.

A Christingle Prayer

God our Father,
the glow of the candle we hold in our hands
is the glow of Jesus the Lord:
by coming into the world
he lights up our lives,
warms our hearts
and brings happiness to the lives of all people.
Through our friendship with him
may others come to know his undying love.
We ask this through the same Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Prayers

Two sets of prayers are given here: prayers of thanksgiving and prayers of intercession. They may be combined or other appropriate prayers may be used.

I Prayers of Thanksgiving ('Thank you Prayers')

Dear friends, God is so powerful and so loving. He has given us so many things that our hearts must be bursting with happiness. Let's say thank you to God who loved the world so much that he gave us Jesus his Son.

We thank you, God, for the world you have created and the wonders of the universe.

R. *(We say together)* **Thank you God our Father.**

We thank you, God, for all the people over many years who have followed you and shown us how to serve you. **R.**

We thank you, God, for the gift of Jesus who has come into our world to show us how to live and love. **R.**

We thank you, God, for the chance to share your love with those who are in need. **R.**

Amserau a Thymhorau

Diolchwn i ti, O Dduw, am bopeth hyfryd sydd wedi cael eu rhoi i ni yn ystod ein bywydau. **A.**

Diolchwn i ti, O Dduw, am yr holl bethau rhyfeddol y mae'r Nadolig yn eu cynnig. **A.**

Diolchwn i ti, O Dduw, am ein teuluoedd a'n ffrindiau a phawb sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom. **A.**

O Dduw ein Tad
ti a greodd yr holl fyd
a rhoi Iesu y Goleuni i ni.
Diolchwn i ti am bob peth a roddaist i ni.
Helpa ni i rannu dy holl roddion ag eraill.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

II *Ymbiliau ('Gweddiâu dros eraill')*

Annwyl ffrindiau, daeth yr Arglwydd Iesu i'r byd i wasgaru'r tywyllwch a rhoi goleuni cariad Duw ym mywydau'r holl bobl. Gweddiwn dros bawb sy'n byw mewn tywyllwch, y bydd Crist yn oleuni iddynt.

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch rhyfel ...

A. Arglwydd Iesu, Goleuni'r byd:
llanw'r byd â'th gariad.

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch poen ... **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch newyn ... **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch unigrwydd ... **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch tlodi ... **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n byw yn nhywyllwch amheuaeth ... **A.**

Gellir ychwanegu anghenion eraill tebyg fel y mae'n briodol.

Arglwydd Iesu Grist,
mae dy enedigaeth ym Methlehem yn dod â thangnefedd a goleuni i'r holl fyd.
Gwasgar y tywyllwch sy'n bygwth cymaint o bobl,
fel y gall dy oleuni ddisgleirio yn eu bywydau
a'th dangnefedd fyw yn eu calonnau,
oherwydd ti yw'r Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Gyda'n brodyr a'n chwiorydd Cristnogol ledled y byd,
gweddiwn ar y Tad yn y geiriau a roddodd Iesu i ni:

Times and Seasons

We thank you, God, for all the lovely things we have been given in our lives. **R.**

We thank you, God, for all the wonderful things that Christmas brings. **R.**

We thank you, God, for our families and friends and all who love and care for us. **R.**

God our Father,
you created the whole world
and you have given us Jesus the Light.
We thank you for everything you have given us.
Help us to share all your gifts with others.
We ask this through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

II Prayers of Intercession ('Prayer for others')

Dear friends, the Lord Jesus has come into the world to scatter the darkness and bring the light of God's love to the lives of all people. Let us pray together for all who live in darkness, that they may know the light of Christ.

We pray for all who live in the darkness of war ...

R. Lord Jesus, Light of the world:
fill the world with your love.

We pray for all who live in the darkness of pain ... **R.**

We pray for all who live in the darkness of hunger ... **R.**

We pray for all who live in the darkness of loneliness ... **R.**

We pray for all who live in the darkness of poverty ... **R.**

We pray for all who live in the darkness of doubt ... **R.**

Other similar intentions may be added as appropriate.

Lord Jesus Christ,
your birth in Bethlehem brings peace and light to all on earth.
Scatter the darkness that threatens so many people,
that your light may shine in their lives
and your peace live in their hearts,
for you are Lord for ever and ever. **Amen.**

With our Christian brothers and sisters throughout the whole world,
let us pray to the Father in the words Jesus has given us:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Ein Tad ...

Y Fendith

Yr Arglwydd fyddo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig-anedig Fab i ni.

Bydded I lawenydd a hapusrwydd Iesu, ei dangnefedd a'i oleuni,

lenwi ein calonnau a'n bywydau,

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Gan lawenychu yn Iesu, goleuni'r byd,

ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Yn enw Crist. **Amen.**

The Lord's Prayer

(see page 17)

Our Father ...

Blessing

The Lord be with you.

And also with you.

God loved the world so much that he gave us his only Son.

May the joy and happiness, the peace and light which Jesus brings,
fill your hearts and lives,

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

Rejoicing in Jesus, the light of the world,

go in peace to love and serve the Lord.

In the name of Christ. **Amen.**

Gweddïau ac Adnoddau ar gyfer y Flwyddyn Newydd

Dethlir Nos Galan drwy'r byd â llawer o frwdfrydedd a llawenydd ond i ni, wrth gwrs, mae heddiw ac yfory yn ddyddiau yn Nhymor y Nadolig. Mae 1 Ionawr yn dathlu Enwi Iesu ac mae'r gweddïau a ddarperir yma yn clymu ynghyd y delweddau a gysylltir â throad y flwyddyn a Gŵyl y Nadolig yr ydym yn ei dathlu. Efallai y bydd llawer o eglwysi yn dymuno cynnal gwasanaeth gwylnos neu gyfuno gweddi â dathliad plwyfol a gellir defnyddio'r gweddïau hyn a'u haddasu i'r diben hwnnw. Gellir canu emynau a charolau priodol. Gall y gweddïau hyn hefyd gael eu defnyddio gan deuluoedd sy'n dymuno ymgynnull i weddio ar Nos Galan.

Brawddegau byr o'r Ysgrythur

Gellir defnyddio un o'r canlynol:

Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni. *Salm 65. 11*

Y mae'r Arglwydd yn deall fy ffordd;
wedi iddo fy mhrofi, dof allan fel aur. *Job 23. 10*

Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef,
a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi. *Mathew 6. 3*

Peidiwch felly â phryderu am yfory,
oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun.
Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun. *Mathew 6. 34*

Myfi yw Alfa ac Omega,
y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd. *Datguddiad 22. 13*

Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,
oherwydd iddo f'eneinio i bregethu newyddion da i dlodion.
Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion
ac adferiad golwg i ddeillion,
i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd,
i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd. *Luc 4. 18, 19*

Cyfarchiad

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Oddi wrth Iesu Grist, yr Alfa a'r Omega, y dechrau a'r diwedd:
Gras, goleuni a thangnefedd fyddo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Prayers for the New Year

New Year's Eve is celebrated throughout the world with much enthusiasm and joy but of course today and tomorrow are, for us, days of the Christmas Season. 1 January celebrates the Naming of Jesus and the prayers provided here hold together the images associated with the turning of the year with the Christmas Feast we celebrate. Many churches may want to hold a vigil service or to combine prayer with a parish celebration and these prayers may be used and adapted for that purpose. Suitable hymns and carols may be sung. These prayers may also be used by households who wish to gather for prayer on New Year's Eve.

Short Sentences from Scripture

One of the following may be used:

You crown the year with your goodness. *Psalm 65. 11*

The Lord knows the way that I take;
when he has tested me, I shall come out like gold. *Job 23. 10*

Seek first the kingdom of God and his righteousness,
and all these things shall be yours as well. *Matthew 6. 3*

Do not worry about tomorrow,
for tomorrow will bring worries of its own.
Today's trouble is enough for today. *Matthew 6. 34*

I am the Alpha and the Omega,
the first and the last, the beginning and the end. *Revelation 22. 13*

The Spirit of the Lord is upon me,
because he has anointed me to bring good news to the poor.
He has sent me to proclaim release to the captives
and recovery of sight to the blind,
to let the oppressed go free,
to proclaim the year of the Lord's favour. *Luke 4. 18, 19*

Greeting

In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit. **Amen.**

From Jesus Christ, the Alpha and the Omega, the beginning and the end:
grace, light and peace be with you.
And also with you.

Rhagarweiniad

Fy mrodyr a'm chwiorydd, wrth inni ddod ynghyd ar wawrddydd blwyddyn newydd yr ydym yn un â'r holl hil ddynol wrth edrych ymlaen, gan obeithio a breuddwydio o'r newydd, a chan goleddu uchelgais a bwriadau i wella ein bywydau a thrawsnewid ein ffordd o fyw. Fel Cristnogion, gadewch i ni ymgysegru o'r newydd i ddilyn yr Arglwydd, i geisio tangnefedd ac undod ymhlith pobl, i gyhoeddi newyddion da Iesu Grist, ac i fod yn awyddus am y doniau uwch o ffydd, gobaith a chariad.

Distawrwydd

Gweddi

Gweddiwn.

naill ai:

Gogoneddus wyt ti, Arglwydd, Duw amser a gofod,
creawdwr y byd,
cynhaliwr pob peth sy'n bod.
Datguddiaist dy hun drwy amserau a thymhorau,
drwy rythm bywyd
a threigladd y blynyddoedd,
i bobl o bob cenhedlaeth, yr ifanc a'r hen.
Bendithia ni wrth i ni ymgynnull i weddio,
a chadw ni drwy'r flwyddyn sydd i ddod
fel y gallom ymgysegru o'r newydd i ddilyn dy Fab, a anwyd o Fair,
ac anrhydeddu ei enw drwy dystiolaeth ein bywydau,
oherwydd y mae ef yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

neu:

Hollalluog Dduw,
creawdwr pob blwyddyn newydd a chynhaliwr ei holl ddyddiau,
yr wyt yn arwain pob peth i'w llawnder terfynol ynot ti.
Pan ddaeth cyflawniad yr amser, anfoneist dy Fab, wedi ei eni o wraig, er mwyn i ni
gael braint mabwysiad a bod yn blant i ti.
Llenwaist ein calonnau ag Ysbryd dy Fab fel y gallwn lefain, "Abba! Dad!"
Bendithia ni a chadwa ni yn y flwyddyn sydd i ddod.
Bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnom a bod yn drugarog wrthym
fel y bo i'th dangnefedd grasol breswyllo yn ein calonnau a'n bywydau.
Gofynnwn hyn drwy ein Harglwydd Iesu Grist, dy Fab,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn oes oesoedd. **Amen.**

Introduction

My brothers and sisters, as we gather at the dawning of a new year we are one with the whole of humanity in looking forward with new hopes and dreams, with ambitions and intentions to improve our lives and transform the way we live. As Christians, let us be resolved to follow the Lord, to seek peace and unity among the whole human race, to proclaim the good news of Jesus Christ, and to be ambitious for the higher gifts of faith, hope and love.

Silence

Prayer

Let us pray.

either:

Glorious are you, Lord, God of time and space,
creator of the world,
sustainer of all that exists.
You have made yourself known through times and seasons
through the rhythm of life
and the turning of the years,
to people of all generations, young and old.
Bless us as we gather in prayer,
and protect us through the coming year
that we may be resolved to follow your Son, born of Mary,
and honour his name by the lives we live,
for he is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God, for ever and ever. **Amen.**

or:

Almighty God,
creator of each new year and sustainer of all its days,
you lead all things to their ultimate fulfilment in you.
In time, you sent your Son, born of a woman,
so that, adopted as your children and filled with his Spirit,
we may cry out 'Abba! Father!'
Bless us and keep us, in this new year (or: in the year to come)
Let your face shine on us and be gracious to us
so that the gift of peace may dwell in our hearts and lives.
We ask this through our Lord Jesus Christ, your Son,
who lives and reigns with you and the Holy Spirit,
God for ever and ever. **Amen.**

Amserau a Thymhorau

neu:

O godiad haul hyd ei fachlud
yr wyt yn casglu pobl atat ti dy hun, O Dduw.
O wawrddydd blwyddyn newydd
tan dywyllwch ei therfyn
bydd dy law gadarn yn arwain ac yn cynnal,
oherwydd ti yw Creawdwr pob peth sydd yn bod,
ac mae dy Ysbryd yn anadlu bywyd i bopeth sy'n rhoi gogoniant i ti.
Bendithia ni wrth i ni ymgynnull yn enw dy Fab,
fel y bydd y flwyddyn newydd hon sy'n llawn o obaith
yn cyflawni dy addewidion ac yn dwyn ffrwyth dy deyrnas
a wawriodd yng ngostyngeddwydd genedigaeth Iesu Grist,
oherwydd ef yw Immanuel, Duw gyda ni,
ac y mae yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Gweddiau am Faddeuant

Daethom ynghyd i lawenhau yn Iesu, yn enw'r hwn y bydd pob glin yn plygu, ac edrychwn ymlaen â gobaith a hyder at y flwyddyn newydd.

Cyn i ni frysio ymlaen gadewch i ni oedi ac ystyried y flwyddyn a aeth heibio, gan gydnabod y troeon y bu i ni grwydro o ffyrdd yr Arglwydd, a gadewch i ni fod yn benderfynol i ddilyn ffordd Iesu yn fwy selog. Bydded iddo lenwi ein calonau â'i faddeuant a'n nerthu i symud ymlaen â gobaith newydd ac â chalon bur.

naill ai:

Gellir defnyddio'r Brawddegau o Edifeiriwch ar gyfer y Nadolig.

neu:

Arglwydd Iesu, rhoddi ddŵr o ffynnon y bywyd yn rhad i bawb sy'n sychedig.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, ti yw'r Alfa a'r Omega, y dechrau a'r diwedd.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, yr wyt ti yn gwneud pob peth yn newydd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu:

Arglwydd Iesu, fe'th anwyd o wraig,
dan y Gyfraith, i brynu rhyddid i ni a'n gwneud yn blant Duw.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, plentyn annwyl Mair,
daethost i breswyllo yn ein plith a chyflwyno bendithion tangnefedd i ni.
Crist, trugarha. **Christ, have mercy.**

Arglwydd Iesu, gogoniant a moliant y bugeiliaid,
yr wyt yn cyflawni addewidion Duw ac yn dwyn iachawdwriaeth i ni.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

or:

From the rising of the sun to its setting,
you gather a people to yourself, O God.
From the dawning of a new year
until darkness settles across its days
your powerful hand guides and sustains,
for you are the Creator of all that exists,
and your Spirit breathes life into all that gives you glory.
Bless us as we gather in your Son's name,
that the new year to which we look forward with hope
will bring fulfilled promises and the fruits of your kingdom
which Jesus Christ, through his humble birth, has brought to the world,
for he is Emmanuel, God with us,
and is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

Prayers for Forgiveness

We have gathered together to rejoice in Jesus, at whose name every knee shall bow, and we look forward with hope and anticipation towards a new year.

Before we hurry forward let us pause and reflect on our past year, acknowledging the times we have failed in our discipleship, and let us be resolved to follow more fervently the way of Jesus. May he fill our hearts with forgiveness and strengthen us to move forward with a new hope and a pure heart.

either:

The Penitential Sentences for Christmas may be used.

or:

Lord Jesus, you give water from the well of life free to all who are thirsty.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, you are the Alpha and the Omega, the beginning and the end.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you are making all things new.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

or:

Lord Jesus, born of a woman, born a subject of the Law,
you redeem us and make us children of God.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, treasured child of Mary,
you come to live among us and bring us the blessings of peace.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, the glory and praise of the shepherds,
you fulfil the promises of God and bring us salvation.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Darlleniadau

Gellir defnyddio darlleniadau'r Nadolig neu'r rhai priod ar gyfer Enwi'r Iesu neu unrhyw un o'r canlynol neu ddarlleniadau priodol eraill:

Salm 65
Genesis 1 – 2.4
Philipiaid 2. 1-11
Hebreaid 1. 1-6
Datguddiad 21. 1-7 *neu* 22. 14

Ymbiliau

Gwahoddiad i Weddi

Ar droad y flwyddyn, clodforwn Dduw amser a gofod, gan weddio am arweiniad a diogelwch, a dycnwch i ddilyn ei ffyrdd yn agosach.

Deisyfiadau

Gweddiwn dros y rhai sy'n dioddef gofid ac atgofion poenus oherwydd digwyddiadau'r flwyddyn a aeth heibio: bydded i'r misoedd sydd i ddod ddwyn bendithion a thangnefedd.

Gweddiwn dros bawb sy'n ofni'r dyfodol:
bydded iddynt gofleidio'r heriau sydd o'u blaen a darganfod goleuni Crist hyd yn oed yn yr amgylchiadau tywyllaf. **A.**

A. Arglwydd y blynyddoedd
arwain ni a chadw ni yn dy gariad.

Gweddiwn dros gymuned ein plwyf:
bydded i ni drwy gydol y flwyddyn dyfu mewn cariad at ein gilydd. **A.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n ynysig neu'n unig:
bydded iddynt wybod am gysur a diddanwch pobl sanctaidd Duw. **A.**

Gweddiwn dros yr eglwys ledled y byd:
bydded i'r holl Gristnogion gyhoeddi gweithredoedd nerthol Duw drwy fyw mewn cyfiawnder, cariad a thangnefedd. **A.**

Gweddiwn dros arweinwyr a chenhedloedd y byd:
bydded iddynt geisio tangnefedd a chymod a chalonogi'r gwangalon. **A.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n galaru:
bydded iddynt gael eu cysuro gan yr Ysbryd Glân. **A.**

Readings

The Christmas readings or the propers for the Naming of Jesus may be used or any of the following or other appropriate readings:

Psalm 65
Genesis 1 – 2.4
Philippians 2. 1-11
Hebrews 1. 1-6
Revelation 21. 1-7 *or* 22. 14

Intercessions

Invitation to Prayer

At the turning of the year, we praise the God of all time and space,
praying for guidance and protection, and resolved to follow his ways closely.

Petitions

We pray for those for whom the passing year brings regret or painful memories:
may the months ahead bring blessings and peace.

We pray for all for whom the future is frightening:
may they embrace the challenges ahead and discover the light of Christ in even the
darkest of situations. **R.**

R. Lord of the years
guide and keep us with your love.

We pray for our parish community:
throughout the year may we grow in love for one another. **R.**

We pray for those who are isolated or lonely:
may they know the comfort and consolation of God's holy people. **R.**

We pray for the church throughout the world:
may all Christian people proclaim the mighty works of God through lives of justice,
love and peace. **R.**

We pray for the leaders and nations of the world:
may they seek peace and reconciliation and bring hope to those who live in despair. **R.**

We pray for those who have been bereaved:
may they be comforted by the Holy Spirit. **R.**

Os na weinyddir y Cymun Bendigaid mae'r Ymbiliau yn parhau â'r geiriau isod:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Gan godi ein calonnau a'n lleisiau mewn gweddi i Dduw ein Tad,
gadewch i ni geisio'i ewyllys ym mhob peth:

Ein Tad ...

Y Tangnefedd

Arglwydd Iesu Grist,
rhoddaist dy dangnefedd grasol i'th apostolion
wrth iddynt ddod ynghyd yn dy bresenoldeb, wedi i ti atgyfodi oddi wrth y meirw.
Nac edrych ar y rhaniadau rhyngom, a fu o'n dewis ni
ond ystyria ein ffydd a'n dyhead am dangnefedd,
fel y gallwn adnabod tangnefedd ac undod dy deyrnas,
lle'r wyt yn byw yn oes oesoedd. **Amen.**

Tangnefedd yr Arglwydd fyddo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Gadewch i ni rannu â'n gilydd arwydd o dangnefedd.

Pawb yn cyfnewid arwydd o dangnefedd.

Am hanner nos gellir canu clychau'r eglwys.

Y Fendith a'r Gollwng

Yr Arglwydd fyddo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bydded i'r Arglwydd eich amddiffyn a'ch llenwi â gras ei Ysbryd Glân,
fel y byddoch yn ymgysegru i ddilyn ei Fab mewn ffydd a gobaith a chariad,

... a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a
drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Bydd yr Arglwydd yn gwyllo eich mynd a'ch dod.
Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

If the Eucharist is not being celebrated the Intercession continue with:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Lifting our hearts and voices in prayer to God our Father,
let us seek his will in all things:

Our Father ...

The Peace

Lord Jesus Christ,
you gave the gift of peace to your apostles
as they gathered in your presence, risen from the dead.
Look not on the things that we have allowed to divide us
but consider our faith and our longing for peace,
so that we may know the peace and unity of your kingdom,
where you live for ever and ever. **Amen.**

The peace of the Lord be with you always.
And also with you.

Let us offer one another a sign of peace.

All exchange a sign of peace.

At Midnight, the bells of the church may be rung.

Blessing and Dismissal

The Lord be with you.
And also with you.

May the Lord protect you and fill you with the grace of his Holy Spirit,
that you may be resolved to follow his Son in faith and hope and love,

... and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

The Lord guards your coming in and your going out.
Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

Adran 4

Ystwyll i Cyflwyniad Crist

(a elwir hefyd yn Wyl Fair y Canhwyllau)

6 Ionawr

Gŵyl yr Ystwyll (neu'r Seren-wyl)

Nodiadau

Gŵyl yr Ystwyll (gair sy'n tarddu o'r Lladin stella) yw penllanw'r Nadolig. Yn wir mae'n rhagfynegi'r Ail Ddyfodiad ac yn rhagflas o gyflawniad addewid y Pasg, o amlygiad Crist i'r holl bobl. Dyma'r dyddiad mwyaf hynafol i'w gysylltu â dathlu'r Nadolig a'r diwrnod y mae'r traddodiad Uniongred yn dathlu prif ŵyl y Nadolig.

Yn draddodiadol mae'r ŵyl hon yn ddathliad triphlyg: y seren yn arwain y Doethion at y Baban Iesu, Bedydd Crist a'r Briodas yng Nghana, a phob un ohonynt yn amlygiad o Grist. Mae'r Llithiadur yn darparu ar gyfer hyn yn y dyddiau sy'n dilyn.

Mae'n draddodiad mewn llawer o eglwysi rhwng y Nadolig a'r Ystwyll i symud ffigurau'r Doethion un cam yn agosach at y preseb bob dydd nes cyrraedd o'r diwedd ar ŵyl yr Ystwyll. Wrth wneud hyn, gellir yn hawdd gynnwys y plant.

Gellir hefyd symud Gŵyl yr Ystwyll i'r Sul agosaf.

Section 4

Epiphany to The Presentation of Christ

(also known as Candlemas)

6 January

Epiphany of our Lord

Notes

The Feast of the Epiphany is the climax of Christmas. Indeed it is an anticipation of the parousia, a foretaste of the fulfilment of the promise of Easter, of Christ's manifestation to all people. It is the most ancient date associated with the celebration of Christmas and in the Orthodox tradition today is the primary Christmas feast.

This feast is traditionally a three fold celebration of the Magi's guidance by the star to the Infant Christ, the Baptism of Christ and the Wedding at Cana, all of which are manifestations of Christ – and the Lectionary provides for this in the days that follow.

It is a tradition in many churches between Christmas and Epiphany to move the figures of the Magi closer and closer to the crib each day until they finally arrive on the feast of the Epiphany: it is something in which children can be easily involved.

The Feast of the Epiphany may also be transferred to the nearest Sunday.

Deunydd ar gyfer gweinyddu'r Cymun Bendigaid ar Wyl yr Ystwyll

Rhagarweiniad i'r Gweddïau o Edifeirwch

Gyfeillion annwyl, mae goleuni Iesu fel pelydrau gloyw wrth iddo alw pob cenedl a phobl at wawr ei ddisgleirdeb. Gadewch i ni ddod â thywyllwch ein pechod i'w weddnewid gan oleuni Crist.

Brawddegau o Edifeirwch

Naill ai'r Brawddegau o Edifeirwch o Gymun Bendigaid 2004

neu:

Arglwydd Iesu, yr wyt ti'n barnu dy bobl yn gyfiawn:
mae dy galon yn gorlifo â chariad.
Arglwydd trugarha, **Arglwydd trugarha.**

Arglwydd Iesu, bydd dy gyfiawnder yn llwyddo
a heddwch yn ffynnu tra bo lleuad.
Crist trugarha, **Crist trugarha .**

Arglwydd Iesu, yr wyt yn gwaredu'r anghenus pan lefa
ac yn tosturio wrth y gwan a'r anghenus.
Arglwydd trugarha, **Arglwydd trugarha.**

neu:

Er bod tywyllwch yn gorchuddio'r ddaear,
a'r fagddu dros y bobloedd.
Bydded i'th ogoniant lewyrchu arnom.
Arglwydd trugarha, **Arglwydd trugarha.**

Fe ddaw'r cenhedloedd at dy oleuni,
a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr.
Bydded i ni weld dy ogoniant arnom.
Crist trugarha, **Crist trugarha.**

Troir atat gyflawnder y môr,
a daw golud y cenhedloedd yn eiddo iti.
Bydded i oleuni dy ogoniant ddisgleirio yn ein plith.
Arglwydd trugarha, **Arglwydd trugarha.**

Yr Ymbiliau

Gwahoddiad i weddio

Annwyl frodyr a chwirydd, mae goleuni gogoniant Crist wedi gwawrio ar y byd.
Gadewch i ni weddio gyda'n gilydd dros y byd y daeth ef i'w waredu, gan ddeisyf y
bydd yr eglwys yn oleuni i'r cenhedloedd.

Material for a Celebration of the Eucharist on the Feast of the Epiphany

Introduction to the Penitential Rite

Dear friends, the light of Jesus shines out as he calls all nations and peoples to his dawning brightness. Let us bring the darkness of our sin to be transformed by the light of Christ.

Penitential Sentences

Either the Penitential Sentences in Holy Eucharist 2004

or:

Lord Jesus, you judge your people with justice,
your heart overflows with love.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus, your justice shall flourish,
your peace till the moon fails.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you save the poor when they cry,
you have pity on the weak and helpless.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

or:

Though night still covers the earth and darkness the peoples,
let your glory shine upon us.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

All nations come to your light and kings to your dawning brightness.
Let your glory rise above us.
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

The riches of the sea will flow to you and the wealth of the nations come to you.
Let your glory shine in our midst.
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Intercessions

Invitation to Prayer

Dear brothers and sisters, the light of Christ's glory has risen upon the world. Let us pray together for the world he has come to redeem, praying that the church will be a light to the nations.

Deisyfiadau

Gadewch i ni weddio dros holl genhedloedd ac arweinwyr y byd: bydded i'r Arglwydd wasgaru'r tywyllwch sy'n gorchuddio'r ddaear ac sy'n gwahanu pobl oddi wrth ei gilydd. Bydded iddo ein casglu ni ynghyd yn ei gorlan.

A. Arglwydd y gogoniant Gwranddo ein gweddi.

Gadewch i ni weddio dros y rhai nad ydynt yn adnabod Crist: y bydd eu calonnau yn gorlifo â llawenydd ar ei ymddangosiad. **A.**

Gadewch i ni weddio dros yr eglwys ledled y byd: y byddwn yn oleuni disglair i arwain eraill at yr Arglwydd. **A.**

Gadewch i ni weddio dros gymuned ein plwyf ni: y bydd addewidion Duw yn cael eu cyflawni ynom er mwyn i ni estyn tangnefedd a goleuni Iesu i bawb sydd yn byw yn y lle hwn. **A.**

Gadewch i ni weddio dros bawb y mae eu taith drwy fywyd yn anodd neu'n feichus oherwydd dioddefaint neu waeledd: a hwythau'n olau gan lewyrch ffydd, bydded iddynt godi fel pobl y dydd a rhodio yng ngogoniant disglair Crist. **A.**

Yr Ymbiliau

O Dduw Tragwyddol,
trwy oleuni seren arweiniaist y cenhedloedd
at ddisgleirdeb gwawrddydd dy Fab
a datguddiaist gyfoeth ei genhadaeth yn rhoddion y Doethion.
Gwranddo ar y gweddiau a offrymwn yn ei enw,
y cesglir pawb ynghyd
i fwynhau am byth ogoniant dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist. **Amen.**

Rhaglith

I'w ddefnyddio ar Wyl yr Ystwyll a thrwy gydol y Tymor.
Ac yn awr dathlwn ddatguddiad dy ogoniant
a amlygwyd drwy'r Gair a ddaeth yn gnawd.
Addolodd y doethion ef yn frenin yr holl genhedloedd.
Ar lan yr Iorddonen gorchymynnaist ni i wrando ar dy annwyl Fab
wrth iddo gyfodi o ddŵr y bedydd.
Yng Nghana amlygodd ei allu i ddatguddio'r greadigaeth newydd
yn y dŵr a drowyd yn win.
Ef yw'r eneniog, dy Feseia di
sy'n dwyn gobaith ac iachawdwriaeth i'r byd.

Petitions

Let us pray for all the nations and leaders of the world: may the Lord scatter the darkness that covers the earth and divides the people, and gather us all into his fold.

Let us pray for those who do not know Christ: that, at his appearing, their hearts will overflow with joy. **R.**

R. Lord of glory
Hear our prayer.

Let us pray for the church throughout the world: that we may be a radiant light, leading others to the Lord. **R.**

Let us pray for our own parish community: that the promises of God may be fulfilled in us that we may bring the peace and light of Jesus to all who live in this place. **R.**

Let us pray for all whose journey through life is difficult or burdened by suffering or illness: illumined by the light of faith, may they may rise as children of the day and walk in Christ's radiant glory. **R.**

Concluding Prayer

Eternal God,
by the light of a star you guided the nations
to the dawning brightness of your Son,
and the Magi's gifts unfold the riches of his mission.
Listen to the prayers we offer in his name,
that all may be gathered into one
to enjoy for ever the glory of your Son, our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

Preface

For use from the Feast of the Epiphany and Epiphanytide
And now we celebrate the revelation of your glory
made manifest through the Word made flesh.
The wise men worshipped him as king of all the nations.
At the River Jordan you commanded us to listen to your beloved Son
as he emerged from the waters of baptism.
At Cana he revealed his power to restore the new creation
in the water made wine.
You have anointed him as your Messiah,
Who brings hope and salvation to the world.

I'w ddefnyddio rhwng Bedydd Crist a Chyflwyniad Crist

Ac yn awr rhoddwn ddiolch i ti
oherwydd drwy'r Gair a ddaeth yn gnawd
disgleiria dy ogoniant drwy'r byd.
Ynddo ef datguddir y greadigaeth newydd.
gwawriodd goleuni newydd
a dygir yr holl genhedloedd allan o dywyllwch.

Gwahoddiad i weddio Gweddi'r Arglwydd

naill ai:

Dan arweiniad goleuni ffydd, gadewch i ni godi'n llygaid tua'r nefoedd,
a galw ar Dduw ein Tad.

neu:

Yng Nghrist yr ydym wedi derbyn Ysbryd mabwysiad fel meibion a merched Duw,
ac felly mentrwn weddio:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Ein Tad ...

Yr Anfon Allan

Yng ngoleuni Crist a than eneiniad yr Ysbryd,
ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

Bendithio'r Sialc yn Nhymor yr Ystwyll

Arfer traddodiadol yw Bendithio'r Sialc, sy'n ein hatgoffa fod Crist yn bresennol yn y cariad a ddangoswn i'n gilydd yn ein bywydau beunyddiol. Fel y daeth y Doethion i chwilio am oleuni Crist a chael eu croesawu i'r tŷ gan y Teulu Sanctaidd, felly croesawn ni bawb sy'n dod yn enw'r Arglwydd, gan weddio y bydd ein cartrefi'n cael eu hamddiffyn rhag tywyllwch a'u llenwi â goleuni Crist a chynhesrwydd ei Ysbryd. Mae'r ddefod hon yn defnyddio'r enwau traddodiadol a roddir i'r Doethion: Caspar, Melchior a Balthasar.

Gall bendithio'r sialc ddigwydd ar ôl yr efengyl yn y Cymun Bendigaid neu cyn y fendith derfynol. Gellir rhoi'r sialc ger y preseb fel y gall pobl fynd â darn adre gyda hwy ar ddiwedd y Cymun Bendigaid.

For use Between the Baptism of Christ and the Presentation of Christ

And now we give you thanks
because through the Word made flesh
your glory shines through the world.
In him the new creation has been revealed,
a new light has dawned
and all the nations are brought out of darkness.

Invitation to the Lord's Prayer

either:

Led by the light of faith, let us lift up our eyes to heaven,
and call out to God our Father.

or:

In Christ we have received the Spirit of adoption as sons and daughters of God,
and so we dare to pray:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Our Father ...

Dismissal

Enlightened by Christ and anointed by the Spirit,
go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

The Epiphany Blessing of Chalk

The Blessing of Chalk is a traditional custom, reminding us that Christ is incarnate in the love we offer to one another in our daily lives. As the Magi came in search of the light of Christ and were welcomed by the Holy Family into the house, we welcome all who come in the Lord's name, praying that our homes may be protected from darkness and be filled with the light of Christ and the warmth of his Spirit. This rite uses the traditional names ascribed to the Magi: Caspar, Melchior and Balthasar

The blessing of chalk may take place after the gospel at the Eucharist or before the final blessing. The chalk may be placed near the crib so that the people may take a piece home with them at the end of the Eucharist.

Rhagarweiniad

Fy nghyfeillion annwyl, heddiw dathlwn Oleuni Crist a ddatguddiwyd i'r holl fyd drwy ymweliad y Doethion â'r tŷ ym Methlehem. Gadewch i ni weddio y bydd Crist a ddaeth i ymgartrefu yn ein plith yn gwarchod ein calonnau a'n cartrefi ac yn ein llenwi â chynhesrwydd ei gariad, fel y byddo i bawb sy'n ymweld â'n cartrefi gael eu bendithio â'i fywyd a'i gariad.

Arglwydd Dduw,

trwy oleuni seren arweiniaist y cenedloedd
at ddisgleirdeb Crist.

Bendithia bawb fydd yn defnyddio'r sialc hwn i arnodi llythrennau cyntaf enwau'r
doethion (Caspar, Melchior a Balthasar) ar ddrysau eu cartrefi.

Bydded iddynt groesawu pawb a ddaw yn enw'r Arglwydd
a chynnig cynhesrwydd a lletygarwch, goleuni a llawenydd.

Amddiffyn eu haelwydydd rhag tywyllwch pechod
a llanw eu bywydau â goleuni Crist

fel, a hwythau'n llawn o lewyrch yr Ysbryd,

y byddant yn rhannu eu trysor o adnabod Crist Iesu ein Harglwydd,

sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,

yn un Duw yn awr a hyd byth. **Amen.**

Arnodi Cartrefi â Sialc wedi'i Fendithio adeg yr Ystwyll

Rhoddir marc ar gapan prif ddrws y tŷ (ac unrhyw ddrws arall os dymunir) gan aelod o'r
teulu yn y dull a ganlyn:

20 + C + M + B + (blwyddyn)

Y tri Gŵr Doeth

C Caspar

M Melchior

B a Balthasar fu'n dilyn y seren a'u harweiniodd at Grist.

20 Ddwy fil

... a ... o flynyddoedd yn ôl.

++ Bydded i Grist fendithio'n cartref

++ ac aros gyda ni drwy'r flwyddyn newydd.

Gellir defnyddio'r weddi ganlynol

O Dduw ein Tad,

bendithia ni wrth i ni ymgynnull yma
wrth ddrws ein cartref.

Amddiffyn ni rhag tywyllwch

a llanw ni â gras Crist

sy'n galw arnom i groesawu

pawb sy'n dod yn ei enw ef.

Gofynnwn hyn drwy Iesu yr Arglwydd. **Amen.**

Mae'r llythrennau CMB hefyd yn talfyrru'r ymadrodd Lladin, *Christus mansionem benedicat*, sef "Bendithied Crist y cartref."

Introduction

My dear friends, today we celebrate the Light of Christ revealed to the whole world through the Magi's visit to the house in Bethlehem. Let us pray that Christ who has come to make his home among us may guard our hearts and homes and fill us with the warmth of his love, so that all who visit our homes may be blessed with his life and love.

Lord God,
by the light of a star you guided the nations
to the radiant light of Christ.
Bless all who use this chalk to inscribe the initials of the wise men
(Caspar, Melchior and Balthasar) on the doors of their homes.
May they welcome all who come in the Lord's name
and offer warmth and hospitality, light and joy.
Protect their homes from the darkness of sin
and fill their lives with the light of Christ
so that, aglow with the Spirit,
they will share the treasure of knowing Christ Jesus our Lord,
who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God forever and ever. **Amen.**

The Marking of Houses with Blessed Chalk at Epiphany

The lintel of the main door of the house (and any other door if you wish) is marked by a member of the household in the following way:

20 + C + M + B + (year)
The three Wise Men
C Caspar
M Melchior
B and Balthasar followed the star which led them to Christ.
20 Two thousand
... and ... years ago.
++ May Christ bless our home
++ and remain with us through the new year.

The following prayer may then be used:

God our Father,
bless us as we gather here
at the doorway of our home.
Protect us from darkness
and fill us with the grace of Christ
who calls us to welcome
all who come in his name.
We ask this through Jesus the Lord. **Amen.**

The letters CMB also abbreviate the Latin phrase *Christus mansionem benedicat*, "May Christ bless the dwelling."

Cyhoeddiad yr Ystwyll

Am fod dyddiad gŵyl fel y Nadolig yn ansymudol fe'i cofir yn hawdd ond nid yw dyddiad y gwyliau symudol, yn bennaf y Pasg a'r gwyliau y dibynna eu dyddiad arno, mor hawdd ei ddyfalu. Wrth gwrs, erbyn heddiw, mae calendrau sy'n cyhoeddi'r dyddiadau ymhell o flaen llaw ond pan nad oedd calendrau ar gael yr oedd cyhoeddiad yr Ystwyll yn amhrisiadwy. Fodd bynnag, hyd yn oed heddiw, mae'r cyhoeddiad o werth mawr: mae'n datgan mai gŵyl y Pasg yw calon y flwyddyn litwrgaidd ac yn cyhoeddi atgyfodiad Crist fel y dirgelwch sy'n lliwio holl amserau a thymhorau'r flwyddyn. Mae'r Cyhoeddi hefyd yn gyfle da i rannu'r calendrau plwyf.

Gwneir y cyhoeddiad ar ôl yr efengyl neu'r homili neu ar ôl y Cymun, cyn y fendith a'r anfon allan. Gellir ei adrodd neu ei ganu gan offeiriad, diacon, darllenydd neu gantor.

Annwyl frodyr a chworydd,
disgleiria gogoniant yr Arglwydd arnom
ac fe'i hamlygir yn ein plith yn wastadol
hyd y dydd y daw drachefn.

Ddydd ar ôl dydd ac wythnos ar ôl wythnos,
drwy rythm yr amserau a'r tymhorau,
gadewch i ni ddathlu dirgelwch ein hiachawdwriaeth,
sy'n cyrraedd ei uchafbwynt yn Nhridiau Sanctaidd marwolaeth Crist, ei gladdedigaeth
a'i atgyfodiad gogoneddus a ddethlir rhwng hwyrnos y... o Fawrth/Ebrill a hwyrnos y
... o Fawrth/Ebrill.

Y Pasg yw dathliad yr eglwys o waith gwaredigol Crist a'i fuddugoliaeth dros bechod
a marwolaeth, a phob Sul deawn ynghyd fel Pobl y Pasg ar Ddydd Atgyfodiad yr
Arglwydd. Y Pasg sy'n penderfynu dyddiadau'r holl ddyddiau a gadwn yn rhai sanctaidd:

Bydd Dydd Mercher y Lludw, dydd cyntaf y Garawys, yn syrthio ar y ...
Dethlir Dydd Dyrchafael yr Arglwydd ar y ...
Dethlir y Pentecost, penllanw llawen Tymor y Pasg, ar y ...
Dethlir Sul Cyntaf yr Adfent ar y ...

Trwy holl wyliau'r Eglwys yr ydym ni, pererin bobl Dduw, yn cyhoeddi pasg Crist.

I Iesu Grist, yr hwn oedd, yr hwn sydd, a'r hwn sydd i ddod, Arglwydd amser a hanes,
y bo'r gogoniant a'r moliant yn oes oesoedd. **Amen.**

An Epiphany Proclamation

Whilst dates such as Christmas Day are immovable and fixed in our minds, the moveable feasts of the church, primarily Easter and all the other days that depend upon it, are not so familiarly known or easily worked out. Of course, these days, calendars publish these dates well in advance but during the time when calendars were not available the Epiphany proclamation was invaluable. However, even today, the proclamation has great value: it asserts the primary feast of Easter as the heart of the liturgical year and proclaims the resurrection of Christ and the paschal mystery which colours all the times and seasons of the year. The proclamation is also a good opportunity to distribute parish calendars.

The proclamation is made after the gospel or homily or after Communion, before the blessing and dismissal. It may be said or sung by a priest, deacon, reader or cantor.

Dear brothers and sisters,
the Lord's glory has shone upon us
and will forever be manifest in our midst
until the day of his return.

Day by day and week by week,
through the rhythm of times and seasons,
let us celebrate the mystery of our salvation,
culminating in the Holy Triduum of Christ's death, burial and glorious resurrection
celebrated between the evening of the ... of April and the evening of the ... April.

Easter is the church's celebration of Christ's saving work and his triumph over sin and death, and each Sunday we gather as an Easter People on the Day of the Lord's Resurrection. From Easter are determined the dates of all the days we keep as holy:

Ash Wednesday, the beginning of Lent, will occur on the ...
The Ascension of the Lord will be celebrated on the ...
Pentecost, the joyful conclusion of the Easter Season, will be celebrated on ...
The First Sunday of Advent will be celebrated on ...

Through all the feasts of the Church we, the Pilgrim people of God, proclaim the passover of Christ.

To Jesus Christ, who was and is and is to come, the Lord of time and history,
be glory and praise for ever and ever. **Amen.**

Bendithio'r Calendrau

O Dduw Tragwyddol,
ddydd ar ôl dydd ac wythnos ar ôl wythnos, yr wyt yn ein sicrhau o'th bresenoldeb.
Trwy fywyd dy eglwys ac yn amgylchiadau ein bywyd
yr wyt yn ein harwain yn ddyfnach i ddirgelwch marwolaeth ac atgyfodiad Crist.
Bendithia ni a phawb sy'n derbyn y calendrau hyn.
Rhagflaena ni fel colofn o dân
ac arwain ni â chwmwl dy bresenoldeb
fel y profwn bob dydd dy ddaioni
a thyfu'n agosach atat.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Bedydd Crist

Bendithio ac Ysgeintio Dŵr Sanctaidd

Heddiw dathlwn Fedydd Crist gan Ioan Fedyddiwr yn nyfroedd yr Iorddonen. Unwaith eto try ein golygon at annwyl Fab y Tad, Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechod y byd. Mae'r ddefod o ysgeintio yn ein hatgoffa o'r alwad a ddaw drwy ein bedydd i droi oddi wrth bechod a, thrwy dywalltiad yr Ysbryd Glân, i fyw bywyd atgyfodedig Crist. Gellir defnyddio'r ddefod o ysgeintio yn lle'r ddefod o edifeirwch arferol.

Rhagarweiniad

Blwyddyn A

Fy mrodyr a'm chwiorydd: trwy Iesu dygwyd Efengyl tangnefedd i'r holl bobl.
Eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth, gan gyflawni ewyllys y Tad ac iacháu pawb oedd dan ormes y diafol. Y mae unrhyw un sy'n anrhydeddu Duw ac yn gwneud yr hyn sydd dda yn dderbyniol ganddo ef.

Defnyddiwn y dŵr hwn i'n hatgoffa o'r bywyd y galwyd ni iddo, trwy droi ymaith oddi wrth bechod a chofleidio'r newyddion da o heddwch a ddygodd Iesu, fel, wedi ein llenwi â'r Ysbryd Glân a gallu o'r uchelder, y gallom ddwyn yn ffyddlon cyfiawnder Duw i fyd sy'n disgwyl am ei gariad.

Blwyddyn B

Fy mrodyr a'm chwiorydd: gadewch i ni ymddiried yn Anwyl y Tad, Iesu Grist ein Harglwydd, oherwydd trwyddo ef y'n gwneir ni yn blant Duw.

Gadewch i ni ddefnyddio'r dŵr hwn i'n hatgoffa o'r dydd y'n dygwyd ni yn gyntaf at ddyfroedd y bedydd, ac i gadw ein golygon ar y ffordd o fyw y'n galwyd ni iddi.
Gadewch i ni ymwrthod â phechod a throi at Dduw sy'n maddau'n helaeth ac yn ein digoni â phethau da.

Blwyddyn C

Fy mrodyr a'm chwiorydd: amlygir daioni Duw yng Nghrist a'i gariad tuag atom, wrth iddo ein hachub ni drwy olchiad yr ailenedigaeth ac adnewyddiad gan yr Ysbryd Glân, a dywalltodd ef arnom ni yn helaeth.

Defnyddiwn y dŵr hwn i ddwyn i gof yr alwad a dderbynasom yn ein bedydd, trwy droi oddi wrth bechod a chael ein golchi yn nhosturi difesur Crist, Annwyl Fab y Tad.

Blessing of Calendars

Eternal God,
day by day and week by week you assure us of your presence.
Through the life of your church and in the circumstances of our life
you lead us deeper into the paschal mystery of Christ's death and resurrection.
Bless us and all who receive these calendars.
Go before us as a burning pillar of fire
and lead us with the cloud of your presence
that each day we may know your goodness
and grow closer to you.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

The Baptism of Christ

Blessing and Sprinkling of Holy Water

Today we celebrate the Baptism of Christ by John the Baptist in the waters of the River Jordan. Our eyes are, once again, turned to the beloved Son of the Father, the Lamb of God who takes away the sins of the world. The rite of sprinkling reminds us of our baptismal calling to turn away from sin and, through the outpouring of the Holy Spirit, to live the risen life of Christ. This rite of Sprinkling may be used to replace the usual penitential rite.

Introduction

Year A

My brothers and sisters: through Jesus, the good news of peace has been brought to all people. God anointed him with the Holy Spirit and with power, fulfilling the will of the Father and curing all who had fallen into the power of the devil. Anyone who honours God and does what is right is acceptable to him.

We will use this water to remind us of the life to which we have been called, by turning away from sin and embracing the good news of peace brought by Jesus, so that filled with the Holy Spirit and with power from on high we may faithfully bring the justice of God to a world awaiting his love.

Year B

My brothers and sisters: let us place our trust in the Beloved of the Father, Jesus Christ our Lord, through whom we are made children of God.

Let us use this water to remind us of the day we were first drawn to the waters of baptism, and to keep our eyes fixed on the way of life to which we have been called. Let us abandon sin and turn to God who is rich in forgiving and fills us with good things.

Year C

My brothers and sisters: the kindness and goodness of God is revealed in Christ who has saved us through the cleansing waters of rebirth and by renewing us with the Holy Spirit which he has poured over us.

We will use this water to remind us of our baptismal calling, by turning from sin and being washed in the overflowing compassion of Christ, the Beloved Son of the Father.

Rhagarweiniad cyffredinol

Gyfeillion annwyl,
defnyddiwn y dŵr hwn i'n hatgoffa o'n bedydd.
Gadewch i ni ofyn i Dduw ei fendithio
a'n cadw ni'n ffyddlon i'r Ysbryd a roddodd ef i ni,
fel y gallom barhau i rodio yn y goleuni
a chadw fflam y ffydd ynghyn yn ein calonnau.

Gweddi ddistaw

O Dduw ein Tad,
bedyddiwyd dy Fab ein Harglwydd Iesu Grist
yn nyfroedd yr Iorddonen gan Ioan,
a'i eneinio â'r Ysbryd Glân.
Gofynnwn i ti fendithio'r dŵr hwn a ddefnyddiwn mewn ffydd.
Tywallt dy faddeuant arnom
a chyfnertha ni mewn sancteiddrwydd.
Dyro i ni ddŵr bywiol
sy'n tarddu yn wastadol o ffynnon iachawdwriaeth,
fel y'n harweinir ni gan Grist dy Annwyl Fab i'th bresenoldeb
â chalonnau pur.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir canu cân briodol tra yr ysgeintir yr offeiriad a'r bobl.

Daw'r ysgeintio i ben â'r weddi ganlynol:

Bydded i Dduw hollalluog faddau inni ein pechodau,
ein nerthu mewn daioni
a'n cadw yn y bywyd tragwyddol
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Mae'r Cymun Bendigaid yn parhau â'r Gloria.

Cyflwyniad Crist

Bendithio'r Canhwyllau a'r Gorymdeithio

Mae Cyflwyniad Crist (a elwir hefyd yn Wyl Fair y Canhwyllau) yn dathlu diwedd Gŵyl Goleuni'r Nadolig. Mae'n arferiad traddodiadol, ar ddechrau'r Cymun Bendigaid, i fendithio'r canhwyllau a'u cario mewn gorymdaith i groesawu Crist. Dathlwn y dydd pan gyflwynodd Mair a Joseff Iesu yn y deml, yn unol â Chyfraith Moses. Yno croesawodd a chofleidiodd Simeon y baban Iesu, Goleuni'r Cenedloedd a gogoniant ei bobl. Isod, cynigir tair ffurf wahanol ar y rhagarweiniad, yn pwysleisio gwahanol agweddau ar themâu'r wyl.

General Introduction

Dear friends,
we will use this water to remind us of our baptism.
Let us ask God to bless it
and to keep us faithful to the Spirit he has given us,
so that we may continue to walk in the light
and keep the flame of faith alive in our hearts.

Silent Prayer

God our Father,
your Son our Lord Jesus Christ was baptised
in the waters of the River Jordan by John,
and anointed with the Holy Spirit.
We ask you to bless this water which we use in faith.
Pour out your forgiveness upon us
and strengthen us in holiness.
Give us living water
always springing up as a fountain of salvation,
that Christ your Beloved Son may lead us to your presence in purity of heart.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

An appropriate song may be sung while the priest and people are sprinkled.

The following prayer is said after sprinkling:

May almighty God, forgive us our sins
strengthen us in goodness
and keep us in eternal life
Through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Eucharist continues with the Gloria

The Presentation of Christ

Blessing of Candles and Procession

The Presentation of Christ (also known as Candlemas) celebrates the close of the Christmas Festival of Light. It is a traditional custom that, at the beginning of the Eucharist, candles are blessed and carried in procession to welcome Christ. We celebrate the moment when Mary and Joseph, fulfilling the Law of Moses, presented Jesus in the temple. There Simeon welcomed and embraced the child Jesus, the Light of the Gentiles and the glory of his people. Three alternative introductions are offered here, drawing out the various themes of the feast.

Y Ffurf gyntaf: Gorymdaith

Bydd y bobl yn ymgynnull mewn capel oddi mewn i'r eglwys neu rywle arall addas y tu allan i'r eglwys y gweinyddir y Cymun Bendigaid ynddi. Cludant ganhwyllau heb eu goleuo. Tra goleuir y canhwyllau, gellir canu emyn neu gân briodol.

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.
Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
A'th gadw di yng nghariad Crist.

Mae'r offeiriad yn cyfarch y bobl yn y geiriau hyn neu rai tebyg (*I, II & III*):

I. Canu ei glodydd

Adeg y Nadolig clywsom neges yr angylion yn cyhoeddi 'Tangnefedd i bawb ar y ddaear.' Ddeugain niwrnod wedi hynny, wrth i ni gofio'r adeg sanctaidd pan gyflwynwyd Crist yn y deml, gwrandawn ar lais Simeon yn canu clodydd Iesu, yr iachawdwriaeth a addawyd i'r holl genhedloedd.

Ar y dydd hwn, yn y deml, datgenir poen cariad a phris iachawdwriaeth, a molir Duw am ei waith achubol yn arwain ei bobl o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef ei hun.

Wrth i'n dathliadau Nadolig ddod i ben daliwn ein gafael yng ngoleuni y baban Iesu. Dan arweiniad yr Ysbryd, gadewch ni fynd i dŷ Dduw, gan gofleidio'r Goleuni a ddaeth i'r byd, a chanu ei glodydd. Yno fe'i adnabyddwn ef ar doriad y bara, gan gyhoeddi ei farwolaeth a'i atgyfodiad hyd nes y daw.

Gweddiwn.

Molwn a bendithiwn di, O Dad,
oherwydd goleuaist y byd drwy roi dy Fab
a ddaeth i rannu ein dynoliaeth a'n rhyddhau.
Bydded i ni, sy'n dal y canhwyllau hyn,
rodio yn llawenydd ei bresenoldeb
a chan ganu ei glodydd,
ei gyhoeddi'n Frenin y gogoniant.

Gofynnwn hyn drwy yr un Crist ein Harglwydd. **Amen**

Gadewch i ni fynd mewn tangnefedd i gyfarfod yr Arglwydd.

First Form: Procession

The people gather in a chapel or other suitable place outside the church where the Eucharist will be celebrated. They carry unlighted candles. While the candles are being lit, an appropriate hymn or song may be sung.

In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit.
Amen.

Grace and peace be with you.
And keep you in the love of Christ.

The priest greets the people in these or similar words (*I, II & III*):

I. Singing his praises

At Christmas we heard the angels' message proclaiming 'Peace to all on earth.' Forty days later, as we recall the sacred moment when Christ was presented in the temple, we hear the voice of Simeon singing the praises of Jesus, the salvation promised to all the nations.

On this day, in the temple, the pain of love and the cost of salvation is declared, and God is praised for all he has done to lead his people from darkness into his own wonderful light.

As our Christmas celebrations come to a close we cling to the light of the Christ child. Led by the Spirit, let us go to the house of God, embracing the Light that has come into the world, and singing his praises. There we will recognise him in the breaking of bread, proclaiming his death and resurrection until he comes again.

Let us pray.

We praise and bless you Father,
for you have enlightened the world with the gift of your Son
who, sharing in our humanity, has come to set us free.
May we, who carry these candles,
walk in the joy of his presence
and, singing his praises,
proclaim him the King of glory.

We ask this through the same Christ our Lord. **Amen.**

Let us go in peace to meet the Lord.

II. *Coleddu'r Goleuni*

Ddeugain niwrnod yn ôl yr oeddem yn llawenhau yng ngenedigaeth ein Harglwydd Iesu Grist, ac yntau'n cael ei fagu ym mreichiau ei fam gariadus. Heddiw, wedi'n llenwi â goleuni ei bresenoldeb, dygwn i gof y diwrnod llawen pan gafodd ei gyflwyno yn y deml, yn unol â Chyfraith Moses, a chyfarfod â'i bobl ffyddlon.

Dan arweiniad yr Ysbryd, daeth Simeon ac Anna i'r deml a chydabod Crist yn Arglwydd a Gwardwr iddynt. Gan gymryd Crist yn ei freichiau, bendithiodd Simeon Dduw a llanwyd Mair a Joseff â rhyfeddod a pharchedig ofn gan y pethau a ddywedodd am eu plentyn. Ar yr un adeg, dechreuodd Anna hithau ogoneddu Duw a llefaru am y plentyn wrth bawb a oedd yn disgwyl rhyddhad.

Gadewch inni, felly, fynd i dŷ Dduw, i weld yr iachawdwriaeth a ddarparwyd i'r holl fyd. Wrth i ni ddal y goleuadau hyn yn ein dwylo, gadewch i ni gofleidio Goleuni'r holl genhedloedd yn ein calonnau a'n bywydau. Gyda hyn, byddwn yn adnabod Crist ar doriad y bara, ac yno, wrth ei fwrdd, yn cyhoeddi ei farwolaeth a'i atgyfodiad hyd nes y daw mewn gogoniant.

Gweddiwn.

O Dduw ein Tad,
o oes i oes ac ym mhob cenhedlaeth
arweiniaist dy bobl o dywyllwch i oleuni.
Yn awr, yng Nghrist, mae disgleirdeb dy oleuni
yn llewyrchu drwy'r holl fyd.
Wrth i ni gario'r canhwylau hyn
gwarded ni o afael y tywyllwch
fel y cawn esgyn i gyfarfod â'r Arglwydd,
sy'n dyfod mewn gostyngeddwrwydd i ryddhau ei bobl.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gadewch i ni fynd mewn tangnefedd i gyfarfod â'r Arglwydd.

III. *Cerdded fel Plant y Goleuni*

Aeth deugain niwrnod heibio ers i ni ddatlu gŵyl genedigaeth Crist, a gyhoeddwyd gan angylion, a gyfarchwyd gan fugeiliaid ac a ddatguddiwyd i'r Doethion. Yn awr, gan lawenhau yng ngoleuni ei ddyfodiad i'r byd, cofiwn y dydd pan gyflwynwyd ef gan Mair a Joseff yn y deml.

Yno, yn y deml, cofleidiodd yr hen ŵr Simeon blentyn Mair, canodd ei glodydd, a datganodd bris cariad a llawenydd iachawdwriaeth. Gogoneddodd Anna hithau Dduw a llefaru am y plentyn wrth bawb a oedd wedi hiraethu am ryddid ar hyd eu bywydau.

Yn llawnder llawenydd genedigaeth Crist a chan ddal ein gafael yn yr iachawdwriaeth a enillodd ef i ni drwy ei groes a'i atgyfodiad, gadewch i ni gerdded fel plant y Goleuni a hyderu yn nisgleirdeb gogoneddus Crist yr Arglwydd. Gan agor y drysau hynafol led y pen, gadewch i ni fynd i dŷ Dduw ac yno ei gofleidio ef, yr un sy'n gwneud pob peth yn newydd. Bydded i ni gael ein nerthu i rodio yn ffordd y groes a dod, o'r diwedd, i ogoniant yr Atgyfodiad.

II. Cradling the Light

Forty days ago we rejoiced in the birth of our Lord Jesus Christ, cradled in the arms of his loving mother. Today, filled with the light of his presence, we recall the joyful day when he was presented in the temple, fulfilling the Law of Moses and going up to meet his faithful people.

Led by the Spirit, Simeon and Anna came to the temple and recognised Christ as their Lord and Saviour. Cradling Christ in his arms Simeon praised God and filled Mary and Joseph with awe and wonder at the things he said about their child. Anna, too, just at that moment, began to praise God and spoke of the child to all who looked forward with hope.

Let us, then, go up to the house of God, to see the salvation prepared for all the world. As we cradle these lights in our hands, let us embrace the Light of all nations in our hearts and lives. Soon, in the breaking of bread, we shall recognise Christ and there, at his table, proclaim his death and resurrection until he comes in glory.

Let us pray.

God our Father,
from age to age and in every generation
you have guided your people from darkness to light.
Now, in Christ, the brilliance of your light
shines out for all the world to see.
As we carry these candles
deliver us from the dominion of darkness
to go up to meet the Lord,
who comes in humility to set his people free.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Let us go in peace to meet the Lord.

III. Walk as Children of the Light

Forty days have passed since we celebrated the feast of Christ's birth, announced by angels, greeted by shepherds and revealed to the Magi. Now, joyful in the light of his coming into the world, we recall the day when he was presented by Mary and Joseph in the temple.

There, in the temple, the old man Simeon embraced the child of Mary, sang his praises, and declared the cost of love and the joy of salvation. Anna, too, praised God and spoke of the child to all whose lingering lives had longed for freedom.

Filled with the joy of Christ's birth and embracing the salvation he has won for us through his cross and resurrection, let us walk as children of the Light, confident in the glorious brightness of Christ the Lord. Flinging wide the ancient doors, let us go to the house of God and there embrace his eternal youth. May we be strengthened to walk in the way of the cross and come, at last, to the glory of the Resurrection.

Gweddiwn.

O Dduw ein Tad, ffynhonnell pob goleuni,
heddiw amlygaist i Simeon
oleuni dy ddatguddiad i'r cenhedloedd.
Bydded i ni sy'n cario'r canhwyllau hyn,
rodio fel plant y goleuni
â fflam y ffydd yn fyw yn ein calonnau,
fel pan ddaw'r Arglwydd
y byddwn yn barod i'w groesawu.
Trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
Gadewch i ni fynd mewn tangnefedd i gyfarfod â'r Arglwydd.

Yn ystod yr orymdaith, cenir Cân Simeon, neu emyn arall.

Mae'r Cymun Bendigaid yn parhau â'r Gloria.

Yr Ail Ffurf: Gorymdaith Urddasol

Mae'r bobl, yn cario canhwyllau heb eu goleuo, yn ymgynnull yn yr eglwys. Mae'r llywydd, gyda grŵp sy'n cynrychioli'r bobl, yn mynd i fan addas lle y gall mwyafrif y gynulleidfa gymryd rhan yn hawdd. Tra goleuir y canhwyllau, cenir y canlynol neu Antiffon debyg:

Crist yw goleuni'r cenhedloedd
a gogoniant i'w bobl Israel.

Ar ôl y cyfarchiad a'r Rhagarweiniad mae'r llywydd yn bendithio'r canhwyllau, yr un fath ag uchod, yna'n mynd mewn gorymdaith at yr allor, tra bo pawb yn canu.

Y Drydedd Ffurf

Mae'r dewis hwn yn gosod yr orymdaith ar ddiwedd y Cymun Bendigaid ar ôl y Weddi Ôl-Gymun. Mae'n addas hefyd i'w ddefnyddio cyn rhannu'r Tangnefedd.

Goleuir y canhwyllau (gan gynnwys Cannwyll y Pasg) ac adroddir neu cenir yr antiffonau canlynol:

Crist y Gair Tragwyddol:
Wedi ei osod er cwmp a chyfodiad llawer.

Datguddia feddyliau ein calonnau
A thrywana ni â chleddyf dy gariad.

Gellir canu emyn

Pan fyddo'r canhwyllau i gyd wedi'u goleuo, dywed y llywydd:

Let us pray.

God our Father, source of all light,
today you revealed to Simeon
the light of revelation to the nations.
May we who carry these candles,
walk as children of the light
with the flame of faith alive in our hearts,
so that when the Lord comes
we may be ready to greet him.
Through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Let us go in peace to meet the Lord.

During the procession, the Canticle of Simeon, or another hymn, is sung.

The Eucharist continues with the Gloria

Second Form: Solemn Entrance

The people, carrying unlighted candles, assemble in the church. The celebrant, with a representative group of the people, goes to a suitable place where most of the congregation can easily participate. While the candles are being lighted, the following or a similar Antiphon is sung:

Christ is the light of the nations
and the glory of Israel his people

After the greeting and introduction the celebrant blesses the candles, as above, then goes in procession to the altar, while all are singing.

Third Form

This option places the procession at the end of the Eucharist after the Prayer after Communion. It is also suitable for use before the sharing of the Peace.

The candles are lit (including the Paschal Candle) and the following antiphons are said or sung:

Christ the Eternal Word
Destined for the falling and rising of many

Reveal the secret longings of our hearts
And pierce us with the sword of your love.

A hymn may be sung

When all the candles are lit, the president says:

Gweddiwn

Molwn a bendithiwn di, O Dad,
oherwydd goleuaist y byd drwy roi dy Fab
a ddaeth i rannu ein dynoliaeth a'n rhyddhau.
Bydded i ni, sy'n dal y canhwyllau hyn,
rodio yn llawenydd ei bresenoldeb
a chan ganu ei glodydd,
ei gyhoeddi'n Frenin y gogoniant.

Gofynnwn hyn drwy yr un Crist ein Harglwydd. **Amen**

Disgwyliwn am dy drugaredd, O Dduw
Yng nghanol dy deml.

(Distawrwydd)

Dywed y llywydd:

Arglwydd Dduw, ffynhonnell fyw y goleuni tragwyddol,
tywallyt i galonnau dy bobl ffyddlon
ddisgleirdeb dy ysblander tragwyddol,
fel y gallwn ni, sy'n cario'r fflamau gloyw hyn,
oleuo'r deml hon i'th ogoniant;
a chyda thywyllwch ein calonnau wedi ei wasgaru
gael ein cyfrif yn deilwng i sefyll yn dy wŷydd yn y deml dragwyddol honno,
lle'r wyt ti yn preswyllo ac yn teyrnasu
Tad, Mab ac Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

Mae'r gweinidogion a'r bobl yn gorymdeithio at y fedyddfán, gan ganu neu ddweud:
naill ai:

Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air. **A.**

**A. Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd
ac yn ogoniant i'th bobl Israel."**

Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd. **A.**

(Luc 2. 29-32)

neu: Y Nunc Dimittis

**Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air;
Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd:
Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.**

Let us pray.

We praise and bless you Father,
for you have enlightened the world with the gift of your Son
who, sharing in our humanity, has come to set us free.
May we, who carry these candles,
walk in the joy of his presence
and, singing his praises,
proclaim him the King of glory.

We ask this through the same Christ our Lord. **Amen.**

We wait for your loving kindness, God
In the midst of your temple.

(Silence)

The president says:

Lord God, springing source of everlasting light,
pour into the hearts of your faithful people
the brilliance of your eternal splendour,
that we, who bear these kindling flames
may light up this temple to your glory;
and with the darkness of our souls dispelled
may be counted to stand worthy before you in that eternal temple,
where you live and reign,
Father, Son and Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

The ministers and people go in procession to the font, singing or saying:
either:

Lord, now you have set your servant free:
to go in peace as you have promised. **R.**

**R. A light to reveal you to the nations:
and to give glory to your people Israel.**

For these eyes of mine have seen your salvation:
which you have prepared for all the world to see. **R.**

(Luke 2. 29-32)

or: The Nunc Dimittis

**Lord, now you have set your servant free:
to go in peace as you have promised.
For these eyes of mine have seen your salvation:
which you have prepared for all the world to see;
A light to reveal you to the nations:
and to give glory to your people Israel.**

Dilynir gan:

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. **Amen.**

Y Gwersiglau a'r Atebion Terfynol

O Dad, heddiw daw i ben ein dathliad
o enedigaeth ein Gwardwr.
**Cynorthwya ni, y ganed ef ynom,
i fyw ei fywyd diderfyn ef.**

Heddiw, offrymwn aberth moliant yr Eglwys
**Cynorthwya ni, sy'n derbyn bara'r bywyd,
i fod yn ddiolchgar am dy rodd.**

Heddiw, llawenychwn gyda Simeon ac Anna ffyddlon.
**Cynorthwya ni, sy'n darganfod yr Arglwydd yn ei deml dragwyddol
i ymddiried yn dy addewidion digyfnewid.**

Heddiw, cyfarchwn Oleuni'r byd.
**Cynorthwya ni, wrth i ni ddiffodd y canhwyllau hyn,
fyth i gefnu ar oleuni Crist.**

Mae pawb yn diffodd eu canhwyllau. Mae kannwyll y Pasg yn parhau ynghyn.

Heddiw, safwn yn ymyl lle ein bedydd.
**Cynorthwya ni, sydd wedi derbyn nod y groes,
i rannu ym marwolaeth yr Arglwydd a'i atgyfodiad.**

Heddiw, trown o enedigaeth Crist at ei ddioddefaint.
**Cynorthwya ni, a'r Garawys yn nesáu,
i dreiddio'n ddwfn i ddirgelwch y Pasg.**

Heddiw, bendithiwn ein gilydd yn dy enw
**Cynorthwya ni i rodio yn dy oleuni
holl ddyddiau ein bywyd
a disgleirio fel goleuadau yn y byd
er gogoniant i ti, ein Duw a'n Tad. Amen.**

Mae'r gweinidogion a'r bobl yn ymadael neu os yw'r gorymdeithio wedi digwydd cyn
rhannu'r tangnefedd, rhennir y tangnefedd yn awr.

followed by:

Glory to the Father, and to the Son:
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now:
and shall be for ever. **Amen.**

Final Responsory

Father, today we bring to an end our celebration
of the Saviour's birth.

**Help us, in whom he has been born,
To live his life that has no end.**

Today, we offer the Church's sacrifice of praise

**Help us, who receive the bread of life,
To be thankful for your gift.**

Today, we rejoice with faithful Simeon and Anna.

**Help us, who will find the Lord in his eternal temple
To trust in your unfailing promises.**

Today, we greet the Light of the world.

**Help us, as we extinguish these candles,
never to forsake the light of Christ.**

All now extinguish their candles. The Paschal candle remains lit.

Today, we stand near the place of baptism

**Help us, marked with the cross,
to share the Lord's death and resurrection.**

Today, we turn from Christ's birth to his passion.

**Help us, for whom Lent is near,
to enter deeply into the Easter mystery.**

Today, we bless one another in your name

**Help us to walk in your light
all the days of our life
and shine as alight in the world
to your glory, our God and Father. Amen.**

The ministers and people depart or if the procession has taken place before the sharing of the peace, the peace is now shared.

Adran 5

Gwasanaeth y Plygain

Cyflwyniad

Y mae gwasanaeth y Plygain yn rhan unigryw o draddodiad Cristnogol Cymru. Canu carolau Nadolig Cymraeg traddodiadol yn ddigyfeiliant yw cynnwys y gwasanaeth yn bennaf. Y mae'r enw 'plygain' ei hun yn deillio o'r Lladin pulli canto sy'n golygu 'ar ganiad y ceiliog'. Yn wreiddiol cyfeiriai at wasanaeth canol nos a oedd yn rhan o gylch gwasanaethau cymunedau crefyddol. Dros gyfnod o amser dechreuwyd canu carolau gwerinol yn ystod Offeren y Bugeiliaid, sef y Cymun a weinyddwyd tua thri o'r gloch ar fore Dydd Nadolig. Gyda threigl amser, gelwid y gwasanaeth yn 'Blygain' a'i garolau yn 'garolau Plygain'. Mewn rhai manau mae'r gwasanaeth yn dal i ddigwydd yn y bore ond ers canrif a mwy daeth i fod yn wasanaeth a ddigwyddai yng nghyd-destun yr Hwyl Weddi mewn manau eraill. Bellach defnyddir yr enw 'Plygain' i gyfeirio at natur y gwasanaeth ac nid at ei amser.

Cafodd y traddodiad fel y mae heddiw ei feithrin a'i anwylo mewn rhai ardaloedd penodol. Mewn manau eraill bu farw, a hynny weithiau o fewn cof y gynulleidfa leol, ond bryd arall ymhell yn ôl. Bellach mewn llawer ardal y mae dyhead dwfn i ailgychwyn gwasanaethau'r Plygain ac ar hyd a lled y wlad y mae'r hen garolau yn cael eu dysgu o'r newydd. Yr ardal lle goroesodd y traddodiad ar ei gryfaf yw'r hen Sir Drefaldwyn a'r cyffiniau, neu ogledd Powys fel y'i gelwir erbyn hyn. Mae'r drefn ar gyfer gwasanaethau'r Plygain a amlinellir yma yn seiliedig i raddau helaeth ar draddodiadau ac arferion yr ardal honno.

Y mae i wasanaeth y Plygain ei ysbrydolrwydd ei hun, ond mae diffinio neu ddisgrifio hwnnw yn anodd. Nid yw yn deillio o ganu'r carolau traddodiadol yn unig; y mae hefyd yn ymwneud â chyd-destun a naws y canu hwnnw. Gweithred o addoliad yw gwasanaeth y Plygain ac felly mae'n digwydd o fewn fframwaith sydd wedi'i seilio'n fras ar wasanaeth yr Hwyl Weddi. Cenir mawl i Dduw am gyfanwaith yr iachawdwriaeth a ddaeth i ni trwy Iesu Grist, ac am rodd yr Ysbryd sy'n adnewyddu'r holl greadigaeth. Gwneir hynny yng nghwmni Mair, mam ein Harglwydd, a holl gwmpeni'r nef. Mae'r gynulleidfa yn cyd-addoli gyda hwy ac wrth wneud yn tystio i ryfeddod gras a chariad Duw.

Rhaid pwysleisio drachefn mai addoliad yw gwasanaeth y Plygain. Y mae'r Plygain hefyd yn agored i bawb. Myfyrio a moli yw gwaith y gynulleidfa ac nid edmygu'r doniau, er i'r rheini fod yn destun gwerthfawrogiad a diolch. Felly nid yw cymeradwyo perfformiad yn perthyn i'r traddodiad. Yn hytrach rhyfeddu gerbron y Gair a wnaethpwyd yn gnawd yw nod yr ymgynnull. Gall hynny olygu ailddysgu gwerth distawrwydd defosiynol gan fod y distawrwydd hwnnw mor anhepgor i draddodiad gwasanaeth y Plygain a'r carolau eu hunain. Cariad a defosiwn at Grist a ysbrydolodd y carolau hyn yn y lle cyntaf ac, yn y distawrwydd disgwylgar a gweddigar rhwng y carolau, cawn wahoddiad i ddyfnhau ein defosiwn a'n cariad ein hunain.

Dylid darllen y Nodiadau ar y cyd â'r drefn hon.

Section 5

The Plygain

Introduction

The service known as Plygain is a unique part of the Welsh Christian tradition. The principal content of the service is the singing of traditional Welsh carols, unaccompanied. The name 'plygain' derives from the Latin *pulli canto*, meaning 'at cock crow'. Originally it referred to an office at midnight which was part of the cycle of prayer of religious communities. Over time, folk carols began to be sung during the Mass of the Shepherds, that is, the Eucharist celebrated around three o'clock on Christmas morning. As time went on this service became known as 'Plygain' and its carols as 'Plygain carols'. In some places this service still happens in the morning but for more than a century it has, in many places, taken place in the context of Evening Prayer. Today the name 'Plygain' refers to the nature of the service rather than its time.

The tradition we have nowadays has been nurtured and cherished in various communities. In other places it was lost, sometimes within living memory, sometimes long ago. Today there is a longing to re-establish the Plygain and across the country the old carols are being rediscovered. The tradition survived most strongly in the old Montgomeryshire and the surrounding areas, now known as northern Powys. This order of service for the Plygain is largely based upon the traditions and customs of that area.

The Plygain has its own character which is difficult to define or describe adequately. It does not derive solely from the singing of its traditional carols, but also from the context and atmosphere of that singing. The Plygain is an act of worship which happens within a framework loosely based upon Evening Prayer. Praise is sung to God for the entire work of salvation brought to us through Jesus Christ, and for the gift of the Spirit in renewing the whole of creation. This is celebrated in the company of Mary, mother of our Lord, and the whole company of heaven. In worship with them the congregation testifies to the wonder of God's grace and love.

It must be emphasised that the Plygain is an act of worship. Moreover, it is open to all. The congregation's role is one of contemplation and praise rather than the admiration of talents, even though these provide cause for appreciation and thanks. Hence applause does not form part of the tradition. Rather, the gathering is characterised by an atmosphere of wonder before the Word made flesh. This may entail relearning the value of devotional silence, since that silence is indispensable to the Plygain. It was love and devotion to Christ which inspired the carols in the first place and so, in the expectant, prayerful silence between the carols, we are invited to deepen our own devotion and love.

This order of service should be read in conjunction with the Notes.

**TREFN GWASANAETH Y PLYGAIN
(Yn dilyn patrwm Gweddi Ddyddiol 2009)**

1. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

2. Rhagarweiniad

Gall y gweinidog ddweud y geiriau rhagarweiniol canlynol neu rai cyffelyb.

Yr ydym wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw i ddiolch am ei gariad a'i ras, ac i ryfeddu unwaith eto gyda'r bugeiliaid, addoli gyda'r doethion, a chanu mawl gyda'r angylion i'r Gair a wnaethpwyd yn Gnawd, ein Gwardwr Iesu Grist. Hwn yw'r Crist, y Meseia, a ddaeth i brynu'n bywyd, i dalu'n dyled, a'n gwneud yn blant i Dduw. Felly yng nghwmni Mair, Mam ein Harglwydd, a holl gwmpeini'r nef, dyrchafwn ein lleisiau i fawrygu Duw a rhoi iddo ein haddoliad a'n mawl a'n diolch am y cyfan a gyflawnodd yn Iesu, Immanuel.

3. Gwersiglau ac atebion

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

Duw, brysia i'n cynorthwyo.
Arglwydd, prysura i'n cymorth.

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Addolwch yr Arglwydd.
I'w enw ef y bo'r mawl.

Gellir canu neu adrodd Salm addas.

Salmau Priodol
Yr Adfent: 40, 80:1-7; 96;
Y Nadolig: 8, 97; 98, 110,
Yr Ystwyll: 72; 100, 113, 132
Gŵyl Fair y Canhwylau: 24; 42; 48; 122; 132

**The Order of Service for Plygain
(Following the pattern of Daily Prayer 2009)**

1. A carol or congregational hymn may be sung

2. Introduction

The minister may speak these words of introduction or similar words.

We have come together in the presence of God to give thanks for his love and grace, and once again to marvel with the shepherds, worship with the wise men and sing praises with the angels to the Word made flesh, our Saviour Jesus Christ. This is the Christ, the Messiah who came to redeem our life, to pay our debt and make us children of God. In the company of Mary, Mother of our Lord, and the whole company of heaven, we raise our voices to magnify God and present our worship, praise and thanksgiving for all that he has done for us in Jesus, our Emmanuel.

3. Versicles and responses

O Lord, open our lips,
And our mouth shall proclaim your praise.

O God, make speed to save us.
O Lord, make haste to help us.

**Glory to the Father, and to the Son,
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen**

Worship the Lord.
All praise to his name.

An appropriate Psalm may be read or sung:

Advent: 40, 80. 1-7; 96

Christmas: 8, 97; 98, 110

Epiphany: 72; 100, 113, 132

The Feast of the Presentation: 24; 42; 48; 122; 132

4. Y Darlleniad

Fel arfer darllenir Luc 2. 8-20. Yn nhymor yr Adfent gellir darllen Luc 1. 26-38, yn nhymor yr Ystwyll gellir darllen Mathew 2. 1-12 ac ar Wyl Fair y Canhwyllau (2 Chwefror) gellir darllen Luc 2. 22-40.

Darlleniadau o'r Hen Destament

Eseia 9. 2-7; Eseia 30. 15-21; Eseia 42. 1-7; Eseia 60. 1-6; Micha 5. 2-4.

Darlleniadau o'r Epistolau

Galatiaid 4. 1-7; Effesiaid 3. 1-12; Colosiaid 1. 11-19; I Thesalonïaïd 5. 1-11; Titus 2. 11-14; Hebreiaid 1. 1-12; 1 Pedr 2. 4-10; 1 Ioan 1. 1-4; Datguddiad 1. 1-8.

5. Y Magnificat neu'r Nunc Dimittis

Mae'n arferol cynnwys y Magnificat yng ngwasanaethau'r Plygain. Ond os yw'r dathliad yn digwydd yn nhymor yr Ystwyll neu ar Wyl Fair y Canhwyllau gellir cynnwys y Nunc Dimittis.

Y Magnificat (Cân Mair)

**Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd:
a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw fy Ngwaredwr,
Am iddo ystyried:
distadledd ei lawforwyn.
Oherwydd wele o hyn allan:
fe'm gelwir yn wynfydedig gan yr holl genedlaethau,
Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd yn nerthol bethau mawr i mi:
a sanctaidd yw ei enw ef;
Y mae ei drugaredd o genhedlaeth i genhedlaeth:
i'r rhai sydd yn ei ofni ef.
Gwnaeth rymuster â'i fraich:
gwasgarodd y rhai balch eu calon;
Tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau:
a dyrchafodd y rhai distadl;
Llwythodd y newynog â rhoddion:
ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw.
Cynorthwyodd ef Israel ei was:
gan ddwyn i'w gof ei drugaredd –
Fel y llefarodd wrth ein hynafiaid:
ei drugaredd wrth Abraham a'i had yn dragywydd.**

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr ac y bydd yn wastad:
yn oes oesoedd. Amen.**

4. The Reading

Luke 2. 8-20 is usually read. Luke 1. 26-38 may be read during the season of Advent, Matthew 2. 1-12 during Epiphany and on the Feast of the Presentation (2 February) Luke 2. 22-40.

Readings from the Old Testament

Isaiah 9. 2-7; Isaiah 30. 15-21; Isaiah 42. 1-7; Isaiah 60. 1-6; Micah 5. 2-4.

Readings from the Epistles

Galatians 4. 1-7; Ephesians 3. 1-12; Colossians 1. 11-19; 1 Thessalonians 5. 1-11; Titus 2. 1-14; Hebrews 1. 1-12; 1 Peter 2. 4-10; 1 John 1. 1-4; Revelation 1. 1-8.

5. The Magnificat or the Nunc Dimittis

The Magnificat is normally included in the Plygain. However, if the service takes place during Epiphanytide or on the Feast of the Presentation, the Nunc Dimittis may be included instead.

The Magnificat (The Song of Mary)

**My soul proclaims the greatness of the Lord:
my spirit rejoices in God my Saviour;
Who has looked with favour on his lowly servant:
from this day all generations will call me blessed;
The Almighty has done great things for me:
and holy is his name.**

**God has mercy on those who fear him:
from generation to generation.**

**The Lord has shown strength with his arm:
and scattered the proud in their conceit,
Casting down the mighty from their thrones:
and lifting up the lowly.**

**God has filled the hungry with good things:
and has sent the rich away empty.**

**He has come to the aid of his servant Israel:
to remember his promise of mercy,
The promise made to our forebears:
to Abraham and his children for ever.**

**Glory to the Father, and to the Son:
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now:
and shall be for ever. Amen.**

Nunc Dimittis (Cân Simeon)

**Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air;
Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd:
Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.**

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr ac y bydd yn wastad:
yn oes oesoedd. Amen.**

6. Credo'r Apostolion

Gellir dweud Credo'r Apostolion.

**Credaf yn Nuw, Dad hollgyfoethog,
creawdwr nefoedd a daear.**

**Credaf yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd ni,
a genhedlwyd o'r Ysbryd Glân,
a aned o Fair Forwyn,
a ddioddefodd dan Pontius Pilat,
a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd;
disgynnodd i blith y meirw.
Ar y trydydd dydd fe atgyfododd;
esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
ac fe ddaw i farnu'r byw a'r meirw.**

**Credaf yn yr Ysbryd Glân,
yr Eglwys lân gatholig,
cymun y saint,
maddeuant pechodau,
atgyfodiad y corff,
a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

Nunc Dimittis (The Song of Simeon)

**Lord, now you have set your servant free:
to go in peace as you have promised.
For these eyes of mine have seen your salvation:
which you have prepared for all the world to see;
A light to reveal you to the nations:
and to give glory to your people Israel.**

**Glory to the Father, and to the Son:
and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now:
and shall be for ever. Amen.**

6. The Apostles' Creed

The Apostles' Creed may be said.

**I believe in God, the Father almighty,
creator of heaven and earth.**

**I believe in Jesus Christ, God's only Son, our Lord,
who was conceived by the Holy Spirit,
born of the Virgin Mary,
suffered under Pontius Pilate,
was crucified, died and was buried;
he descended to the dead.
On the third day he rose again;
he ascended into heaven,
and is seated at the right hand of the Father,
and he will come to judge the living and the dead.**

**I believe in the Holy Spirit,
the holy catholic Church,
the communion of saints,
the forgiveness of sins,
the resurrection of the body,
and the life everlasting. Amen**

7. Y Gweddïau

Gellir cynnwys naill ai'r gwersiglau ac atebion isod, gweddïau pwrpasol o'ch dewis eich hunain neu'r gweddïau tymhorol. Adroddir Gweddi'r Arglwydd a'r Colectau i ddiweddu.

Dyrchafer di, O Arglwydd, uwch y nefoedd:
bydded dy ogoniant dros yr holl ddaear.

Adnewyddda dy Eglwys mewn sancteiddrwydd:
a dyro i'th bobl fendith tangnefedd.

Cadw ein cenedl dan dy ofal:
a thywys ni ar lwybr cyfiawnder a gwirionedd.

Hysbyser dy ffyrdd ar y ddaear:
dy nerth achubol ymhlith yr holl genhedloedd.

Paid â gadael inni anghofio'r anghenus, O Dduw:
na diddymu gobaith y tlawd.

Arglwydd, clyw ein gweddi:
oherwydd ynot ti yr ydym yn ymddiried.

Gweddïau Tymhorol

Tymor yr Adfent

Wrth i ni ddisgwyl am ddyfodiad yr Arglwydd
gadewch i ni weddio dros yr eglwys a'r holl fyd
fel y bydd cyfiawnder yn llwyddo, a heddwch yn ffynnu tra bo lleuad.

Bydded i'r eglwys gael ei llanw ag ysbryd doethineb a deall,
a byw mewn uniondeb calon a gwir gariad. **(A)**

A. Bydded i'th gyfiawnder lwyddo, Arglwydd.
A thangnefedd tra bo lleuad.

Bydded i genhedloedd y byd a'r holl arweinwyr geisio cyfiawnder
a thangnefedd a thrugarhau wrth y gwan a'r tlawd. **(A)**

Bydded i gymuned ein plwyf, wrth fyw fel pobl y goleuni,
baratoi ffordd ar gyfer dyfodiad yr Arglwydd. **(A)**

Bydded i'r rhai sy'n byw yn nhywyllwch rhyfel a thrais
weld disgleirdeb gwawrddydd yr Arglwydd. **(A)**

Bydded i'r rhai sy'n wael ymdeimlo â phresenoldeb yr Arglwydd,
sy'n cyfodi pawb sydd wedi'u llethu. **(A)**

7. The Prayers

The versicles and responses below may be included, or appropriate prayers of your choice, or the seasonal prayers. The Lord's Prayer and the Collects are said in conclusion.

Be exalted, Lord, above the heavens:
may your glory cover the earth.

Renew your Church in holiness:
and give your people the blessing of peace.

Keep our nation under your care:
and guide us in justice and truth.

Let your way be known on earth:
your saving power among all nations.

Do not let the needy, O God, be forgotten:
nor the hope of the poor be taken away.

Lord, hear our prayer:
for we put our trust in you.

Seasonal Prayers

Advent

As we wait for the Lord's coming
let us pray for the church and the whole world
that justice will flourish and peace until the moon fails.

May the church be filled with a spirit of wisdom and insight,
and live with true integrity and deep love. **(R)**

R. Let your justice flourish, Lord.
And peace till the moon fails.

May the nations of the world and all leaders seek justice and peace
and have compassion for the weak and the poor. **(R)**

May our parish community, living as people of the Light
prepare a way for the Lord's coming. **(R)**

May those who dwell in the darkness of war and violence
see the dawning brightness of the Lord. **(R)**

May those who are sick know the presence of the Lord,
who raises up all who are bowed down. **(R)**

Amserau a Thymhorau

Bydded i'r tlawd a'r gorthrymedig weld ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd. **(A)**

Bydded i'r rhai a anfonwyd allan i gyhoeddi bod yr Arglwydd yn agos ymdeimlo â'i gymorth achubol a llefaru geiriau o heddwch a llawenydd. **(A)**

Bydded i ni a phob Cristion wrando ar lais y proffwydi a cheisio rhoi sylw i dystion y gwirionedd yn ein plith. **(A)**

Tymor y Nadolig

Wrth i ni drysori popeth a ddigwyddodd a myfyrio ar Ddirgelwch genedigaeth Crist, galwn ar dosturi Duw a amlygodd ei gariad tuag at yr holl ddynoliaeth trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Llawenhawn yn neges yr angylion a'th foliannu di â chân nefol: llanwer bywydau yr holl bobl â ffydd yng Nghrist. **(A)**

**A. O Dduw trugaredd a chariad:
cyfod ein gobeithion i'r nefoedd.**

Brysiodd y bugeiliaid i weld y cwbl oedd wedi digwydd: cyflawner dy addewidion ym mywydau'r rhai isel-radd. **(A)**

Gwelsom dy Fab, sy'n arwydd o dangnefedd i bawb: dyro i ni ddyheu am dy dangnefedd a charu dy deyrnas. **(A)**

Gogoneddwn a moliannwn di am bopeth a glywsom ac a welsom: gwna ni'n awyddus i rannu'r newyddion da am enedigaeth Crist. **(A)**

Trysorwn ddirgelwch genedigaeth y Gwaredwr: bydded i'n gweddïo a'n haddoli gyfodi ein calonnau a'n bywydau i'r nefoedd. **(A)**

Canmolwn di am y cwbl a amlygir yn nhref Dafydd: llanwer ein cartrefi a'n teuluoedd â goleuni Crist. **(A)**

Tymor yr Ystwyll

Annwyl frodyr a chwiorydd, mae goleuni gogoniant Crist wedi gwawrio ar y byd. Gadewch i ni weddïo gyda'n gilydd dros y byd y daeth ef i'w waredu, gan ddeisyf y bydd yr eglwys yn oleuni i'r cenedloedd.

Gadewch i ni weddïo dros holl genhedloedd ac arweinwyr y byd: bydded i'r Arglwydd wasgaru'r tywyllwch sy'n gorchuddio'r ddaear ac sy'n gwahanu pobl oddi wrth ei gilydd. Bydded iddo ein casglu ni ynghyd yn ei gorlan. **(A)**

**A. Arglwydd y gogoniant
Gwrando ein gweddi.**

Times and Seasons

May the poor and oppressed see faithfulness spring up from the earth and justice look down from heaven. **(R)**

May those who are sent out to proclaim the Lord is near know his saving help and speak words of peace and joy. **(R)**

May we and all Christians dare to hear the voice of the prophets and seek out and listen to the prophets among us. **(R)**

Christmastide

As we treasure all that has happened and ponder on the Mystery of Christ's birth, we call on the compassion of God who has revealed his love for the whole of humanity through Jesus Christ our Saviour.

We rejoice in the angels' message and praise you with heavenly song: may the lives of all people be filled with faith in Christ. **(R)**

R. God of compassion and love:
raise our hopes to heaven.

The shepherds made haste to see all that had happened: may your promises be fulfilled in the lives of the lowly. **(R)**

We have seen your Son, a sign of peace for all: give us a longing for your peace and a love of your kingdom. **(R)**

We glorify and praise you for all we have heard and seen: make us eager to share the good news of Christ's birth. **(R)**

We treasure the mystery of our Saviour's birth: may our prayer and worship raise our hearts and lives to heaven. **(R)**

We praise you for all that is revealed in the city of David: may our homes and families be filled with the light of Christ. **(R)**

Epiphanytide

Dear brothers and sisters, the light of Christ's glory has risen upon the world. Let us pray together for the world he has come to redeem, praying that the church will be a light to the nations.

Let us pray for all the nations and leaders of the world: may the Lord scatter the darkness that covers the earth and divides the people, and gather us all into his fold. **(R)**

R. Lord of glory:
Hear our prayer.

Gadewch i ni weddio dros y rhai nad ydynt yn adnabod Crist: y bydd eu calonnau yn gorlifo â llawenydd ar ei ymddangosiad. **(A)**

Gadewch i ni weddio dros yr eglwys ledled y byd: y byddwn yn oleuni disglair i arwain eraill at yr Arglwydd. **(A)**

Gadewch i ni weddio dros gymuned ein plwyf ni: y bydd addewidion Duw yn cael eu cyflawni ynom er mwyn i ni estyn tangnefedd a goleuni Iesu i bawb sydd yn byw yn y lle hwn **(A)**.

Gadewch i ni weddio dros bawb y mae eu taith drwy fywyd yn anodd neu'n feichus oherwydd dioddefaint neu waeledd: a hwythau'n olau gan lewyrch ffydd, bydded iddynt godi fel pobl y dydd a rhodio yng ngogoniant disglair Crist. **(A)**

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

neu:

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Let us pray for those who do not know Christ: that, at his appearing, their hearts will overflow with joy. **(R)**

Let us pray for the church throughout the world: that we may be a radiant light, leading others to the Lord. **(R)**

Let us pray for our own parish community: that the promises of God may be fulfilled in us that we may bring the peace and light of Jesus to all who live in this place. **(R)**

Let us pray for all whose journey through life is difficult or burdened by suffering or illness: illumined by the light of faith, may they may rise as children of the day and walk in Christ's radiant glory. **(R)**

Let us pray with confidence to the Father:

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever. Amen.**

or:

As our Saviour taught us, we boldly pray:

**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.**

Colect Tymhorol

Defnyddir naill ai'r Colect ar gyfer Adfent 1, Dydd Nadolig, Gŵyl yr Ystwyll neu Wyl Fair y Canhwyllau.

Adfent 1

Hollalluog Dduw,
dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist
pan ymwelodd â ni mewn gostyngedd rwydd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf,
pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus
i farnu'r byw a'r meirw,
gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Y Nadolig

Hollalluog Dduw,
rhoddaist i ni dy uniganedig Fab
i gymryd ein natur ni
a'i eni ar gyfenw i'r amser yma o forwyn bur:
caniatâ i ni, sydd wedi ein geni drachefn
a'n gwneud yn blant i ti trwy fabwysiad a gras,
gael ein hadnewyddu'n feunyddiol
trwy dy Ysbryd Glân;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Yr Ystwyll

O Dduw graslon,
a amlygaist dy unig Fab
i bobloedd y ddaear,
trwy arweiniad seren:
arwain ni, sy'n dy adnabod yn awr drwy ffydd,
i'th bresenoldeb sanctaidd
lle y cawn ganfod dy ogoniant wyneb yn wyneb
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Seasonal Collect

The Collect for Advent One, Christmas Day, The Feast of the Epiphany or the Feast of the Presentation is used.

Advent One

Almighty God,
give us grace to cast away the works of darkness
and to put on the armour of light,
now in the time of this mortal life,
in which your Son Jesus Christ came to us in great humility;
that on the last day,
when he shall come again in his glorious majesty
to judge the living and the dead,
we may rise to the life immortal;
through him who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

Christmas

Almighty God,
you have given us your only-begotten Son
to take our nature upon him
and as at this time to be born of a pure virgin:
grant that we, who have been born again
and made your children by adoption and grace,
may daily be renewed by your Holy Spirit:
through Jesus Christ your Son our Lord,
who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

The Epiphany

Gracious God,
who by the leading of a star
manifested your only Son to the peoples of the earth:
mercifully grant that we,
who know you now by faith,
may at last behold your glory face to face;
through Jesus Christ your Son our Lord,
who is alive and reigns with you,
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

Gŵyl Fair y Canhwyllau

Hollalluog a bythfywiol Dduw,
sy'n gwisgo mawredd,
y cyflwynwyd dy annwyl Fab
y dydd hwn yn y Deml,
yn sylwedd ein cnawd:
caniatâ i ninnau gael ein cyflwyno i ti
â chalonnau pur a glân,
gan dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Yr ail golect, am dangnefedd

Dragwyddol Dduw, ffynhonnell pob dyhead sanctaidd,
pob cyngor da a phob gweithred gyfiawn,
dyro i'th wasanaethyddion y tangnefedd hwnnw na all y byd ei roddi,
fel y bo inni o'n gwirfodd ufuddhau i'th orchmynion,
ac, wedi ein rhyddhau rhag ofn ein gelynyon,
dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y trydydd colect, am gymorth yn erbyn pob perygl

Goleua ein tywyllwch, gweddiwn arnat, O Arglwydd,
ac yn dy fawr drugaredd
amddiffyn ni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon;
trwy gariad dy unig Fab,
ein Gwardwr Iesu Grist. **Amen.**

8. Carolau'r Plygain: y cylch cyntaf

Dywed y gweinidog y canlynol neu eiriau cyffelyb.

Yr wyf yn cyhoeddi fod y Plygain yn awr yn agored.

Y mae'r Plygain yn awr yn agored i gantorion ddod ymlaen â'u hoffrwm o fawl i'r Iesu.

9. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

10. Carolau'r Plygain: yr ail gylch

Nid oes cyhoeddiad ar ddechrau'r ail gylch. Daw'r cantorion ymlaen eto i ganu mawl.

The Presentation of the Lord

Almighty and everliving God,
clothed in majesty,
whose beloved Son was this day presented in the Temple,
in substance of our flesh:
grant that we may be presented to you
with pure and clean hearts,
by your Son Jesus Christ our Lord,
who is alive and reigns with you,
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

The second Collect, for peace.

Eternal God, source of all holy desires,
all good counsels and all just works:
give your servants that peace which the world cannot give,
that we may willingly obey your commandments,
and that, free from the fear of our enemies,
we may pass our time in rest and quietness;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The third Collect.

Lighten our darkness, Lord, we pray,
and by your great mercy
defend us from all perils and dangers of this night;
for the love of your only Son,
our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

8. The Plygain carols: the first cycle

The minister says these words, or similar words.

I declare that the Plygain is now open.

The Plygain is now open for singers to come forward with their offering of praise to Jesus.

9. A carol or congregational hymn may be sung.

10. The Plygain carols: the second cycle

There is no announcement at the beginning of the second cycle. The singers come forward once again to sing praise.

11. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

12. Carol y Swper

Bydd yr holl unigolion a phartïon sydd wedi cyfrannu at wasanaeth y Plygain yn dod ymlaen gyda'i gilydd i gyd-ganu Carol y Swper.

Carol y Swper

Cydganed dynoliaeth am ddydd gwaredigaeth,
daeth trefn y Rhagluniaeth i'r goleuni,
a chân 'Haleliwia' o fawl i'r Gorucha,
Meseia Jwdea, heb dewi;
moliannwn o lawenydd! Gwir ydyw fod Gwaredydd!
Fe anwyd Ceidwad inni, sef Crist, y Brenin Iesu,
cyn dydd, cyn dydd ym Methlem yn ddi-gudd
y caed Gwaredydd ar foreuddydd! O wele ddedwydd ddydd!

Ein Meichiau a'n Meddyg dan fflangell wenwynig
ar agwedd un diddig yn dioddef,
a'i farnu gan Peilat, a'i wisgo mewn sgarlad
gan ddynion dideimlad, rhaid addef;
a phlethu draenen bigog yn goron anhrugarog
a'i gosod mewn modd creulon ar ben Iachawdwr dynion:
fel hyn, fel hyn y gwisgwyd Iesu gwyn,
o dan arteithiau ein mawrion feiau, i boenau pen y bryn.

Defnyddiwn ein breintiau, mae perygl o'n holau,
cyn delo dydd angau, dihangwn;
mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod
a'r bwrdd wedi'i osod, O brysiwn!
Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
i wlad y Ganaan nefol i wledda yn dragwyddol.
Amen. Amen. Boed moliant byth! Amen.
Haleliwa i'r Meseia sy'n maddau byth! Amen.

Anhysbys (tua 1850) (Newidiwyd)
Tôn: Carol y Swper.

Ceir y gerddoriaeth a geiriau'r garol gyflawn yn Rhiannon Ifans, Yn dyrfa weddus, tt.118-122.

11. A carol or congregational hymn may be sung.

12. Carol y Swper

All the soloists and groups who have contributed to the Plygain service come forward to sing together Carol y Swper.

Cydganed dynoliaeth am ddydd gwardigaeth,
daeth trefn y Rhagluniaeth i'r goleuni,
a chân 'Haleliwia' o fawl i'r Gorucha,
Meseia Jwdea, heb dewi;
moliannwn o lawenydd! Gwir ydyw fod Gwaredydd!
Fe anwyd Ceidwad inni, sef Crist, y Brenin Iesu,
cyn dydd, cyn dydd ym Methlem yn ddi-gudd
y caed Gwaredydd ar foreuddydd! O wele ddedwydd ddydd!

Ein Meichiau a'n Meddyg dan fflangell wenwynig
ar agwedd un diddig yn dioddef,
a'i farnu gan Peilat, a'i wisgo mewn sgarlad
gan ddynion dideimlad, rhaid addef;
a phlethu draenen bigog yn goron anhrugarog
a'i gosod mewn modd creulon ar ben Iachawdwr dynion:
fel hyn, fel hyn y gwisgwyd Iesu gwyn,
o dan arteithiau ein mawrion feiau, i boenau pen y bryn.

Defnyddiwn ein breintiau, mae perygl o'n holau,
cyn delo dydd angau, dihangwn;
mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod
a'r bwrdd wedi'i osod, O brysiwn!
Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
i wlad y Ganaan nefol i wledda yn dragwyddol.
Amen. Amen. Boed moliant byth! Amen.
Haleliwa i'r Meseia sy'n maddau byth! Amen.

Anhysbys (tua 1850) (Newidiwyd)
Tune: Carol y Swper.

The music and words of the entire carol may be found in Rhiannon Ifans,
Yn dyrfa weddus. pp.118-122

13. Y diwedd glo

Dywed y gweinidog

Bendithied yr Arglwydd ni, cadwed ni rhag drwg a'n dwyn i fywyd tragwyddol. **Amen.**

neu:

Yr Adfent

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder arnoch a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen ...

Y Nadolig

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol, trwy gymryd ein cnawd ni, eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd ...

neu:

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair,
eich llenwi â'i ras fel yr ymddiriedoch yn ei addewidion
ac ufuddhau i'w ewyllys ...

Yr Ystwyll

Bydded i Grist Fab Duw lonni eich calonnau â newyddion da ei deyrnas ...

... A bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

13. The Conclusion

The minister says:

The Lord bless us and protect us from evil and keep us in eternal life. **Amen.**

or:

Advent

Christ the Sun of Righteousness shine upon you, scatter the darkness from before you ...

Christmas

Christ, who by taking our flesh,
gathered into one all things earthly and heavenly,
fill you with his joy and peace ...

or:

Christ the Son of God, born of Mary,
fill you with his grace
to trust his promises and obey his will ...

The Epiphany

Christ, the Son of God,
gladden your hearts with the good news of his kingdom ...

... And the blessing of God almighty, the Father, the Son and the Holy Spirit be with you and remain with you always. **Amen.**

TREFN GWASANAETH Y PLYGAIN
(Yn dilyn patrwm y Llyfr Gweddi Gyffredin 1984)

1. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

2. Rhagarweiniad

Gall y gweinidog ddweud y geiriau rhagarweiniol canlynol neu rai cyffelyb.

Yr ydym wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw i ddiolch am ei gariad a'i ras, ac i ryfeddu unwaith eto gyda'r bugeiliaid, addoli gyda'r doethion, a chanu mawl gyda'r angylion i'r Gair a wnaethpwyd yn Gnawd, ein Gwardwr Iesu Grist. Hwn yw'r Crist, y Meseia, a ddaeth i brynu'n bywyd, i dalu'n dyled, a'n gwneud yn blant i Dduw. Felly yng nghwmni Mair, Mam ein Harglwydd, a holl gwmpeini'r nef, dyrchafwn ein lleisiau i fawrygu Duw a rhoi iddo ein haddoliad a'n mawl a'n diolch am y cyfan a gyflawnodd yn Iesu, Immanuel.

3. Gwersiglau ac atebion

Arglwydd, agor ein gwefusau;
A'n genau a fynega dy foliant.

Duw, brysia i'n cynorthwyo;
Arglwydd, prysura i'n cymorth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
**Megis yr oedd yn y dechrau, y mae yr awr hon
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Molwch yr Arglwydd;
Moliannus fyddo Enw'r Arglwydd.

Gellir canu neu adrodd Salm addas.

Salmau Priodol

Yr Adfent: 40, 80:1-7; 96;

Y Nadolig: 8, 97; 98, 110,

Yr Ystwyll: 72; 100, 113, 132

Gŵyl Fair y Canhwyllau: 24; 42; 48; 122; 132

**The Order of Service for Plygain
(Following the pattern of the 1984 Book of Common Prayer)**

1. A carol or congregational hymn may be sung

2. Introduction

The minister may speak these words of introduction or similar words.

We have come together in the presence of God to give thanks for his love and grace, and once again to marvel with the shepherds, worship with the wise men and sing praises with the angels to the Word made flesh, our Saviour Jesus Christ. This is the Christ, the Messiah who came to redeem our life, to pay our debt and make us children of God. In the company of Mary, Mother of our Lord, and the whole company of heaven, we raise our voices to magnify God and present our worship, praise and thanksgiving for all that he has done for us in Jesus, our Emmanuel.

3. Versicles and responses

O Lord, open thou our lips;
And our mouth shall show forth thy Praise.

O God, make speed to save us;
O Lord, make haste to help us.

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Spirit;
**As it was in the beginning, is now, am ever shall be:
world without end. Amen.**

Praise ye the Lord;
The Lord's Name be praised.

An appropriate Psalm may be read or sung:

Advent: 40, 80. 1-7; 96

Christmas: 8, 97; 98, 110

Epiphany: 72; 100, 113, 132

The Feast of the Presentation: 24; 42; 48; 122; 132

4. Y Darlleniad

Fel arfer darllenir Luc 2. 8-20. Yn nhymor yr Adfent gellir darllen Luc 1. 26-38, yn nhymor yr Ystwyll gellir darllen Mathew 2. 1-12 ac ar Wyl Fair y Canhwyllau (2 Chwefror) gellir darllen Luc 2. 22-40.

Darlleniadau o'r Hen Destament

Eseia 9. 2-7; Eseia 30. 15-21; Eseia 42. 1-7; Eseia 60. 1-6; Micha 5. 2-4.

Darlleniadau o'r Epistolau

Galatiaid 4. 1-7; Effesiaid 3. 1-12; Colosiaid 1. 11-19; I Thesalonïaïd 5. 1-11; Titus 2. 11-14; Hebreiaïd 1. 1-12; 1 Pedr 2. 4-10; 1 Ioan 1. 1-4; Datguddiad 1. 1-8.

5. Y Magnificat neu'r Nunc Dimittis

Mae'n arferol cynnwys y Magnificat yng ngwasanaethau'r Plygain. Ond os yw'r dathliad yn digwydd yn nhymor yr Ystwyll neu ar Wyl Fair y Canhwyllau gellir cynnwys y Nunc Dimittis.

Y Magnificat (Cân Mair)

Fy enaid a fawrha yr Arglwydd:

a'm hysbryd a lawnychodd yn Nuw fy Iachawdwr.

Canys efe a edrychodd:

ar ostyngeddwydd ei wasanaethyddes.

Oblegid wele, o hyn allan:

yr holl genedlaethau a'm geilw yn wynfydedig.

Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd:

A sanctaidd yw ei enw ef.

A'i drugaredd sydd yn oes oesoedd:

ar y rhai a'i hofna ef.

Efe a ddangosodd nerth â'i fraich:

Efe a wasgarodd y rhai balch eu calon.

Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfâu:

ac a ddyrchafodd y rhai isel radd.

Efe a lanwodd y rhai newynog â phethau da:

Ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eisïau.

Efe a gynorthwyodd ei was Israel, gan gofio ei drugaredd:

fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân

megis yr oedd yn y dechrau, y mae'r awr hon, ac y bydd

yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

4. The Reading

Luke 2. 8-20 is usually read. Luke 1. 26-38 may be read during the season of Advent, Matthew 2. 1-12 during Epiphany and on the Feast of the Presentation (2 February) Luke 2. 22-40.

Readings from the Old Testament

Isaiah 9. 2-7; Isaiah 30. 15-21; Isaiah 42. 1-7; Isaiah 60. 1-6; Micah 5. 2-4.

Readings from the Epistles

Galatians 4. 1-7; Ephesians 3. 1-12; Colossians 1. 11-19; 1 Thessalonians 5. 1-11; Titus 2. 1-14; Hebrews 1. 1-12; 1 Peter 2. 4-10; 1 John 1. 1-4; Revelation 1. 1-8.

5. The Magnificat or the Nunc Dimittis

The Magnificat is normally included in the Plygain. However, if the service takes place during Epiphanytide or on the Feast of the Presentation, the Nunc Dimittis may be included instead.

The Magnificat (The Song of Mary)

**My soul doth magnify the Lord:
and my spirit hath rejoiced in God my Saviour.
For he hath regarded:
the lowliness of his handmaiden.
For behold, from henceforth:
all generations shall call me blessed.
For he that is mighty hath magnified me:
and holy is his name.
And his mercy is on them that fear him:
throughout all generations,
He hath showed strength with his arm:
he hath scattered the proud in the imagination of their hearts.
He hath put down the mighty from their seat:
and hath exalted the humble and meek.
He hath filled the hungry with good things:
and the rich he hath sent empty away.
He remembering his mercy:
hath helped his servant Israel;
As he promised to our forefathers:
Abraham and his seed, for ever.**

**Glory be to the Father, and to the Son:
and to the Holy Spirit;
As it was in the beginning, is now, and ever shall be:
world without end. Amen.**

Nunc Dimittis (Cân Simeon)

**Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was:
mewn tangnefedd yn ôl dy air.**

**Canys fy llygaid a welodd:
dy iachawdwriaeth;**

**Yr hon a baratoaist:
gerbron wyneb yr holl bobl;**

**I fod yn oleuni i oleuo'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân
megis yr oedd yn y dechrau, y mae'r awr hon, ac y bydd
yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.**

6. Credo'r Apostolion

Gellir dweud Credo'r Apostolion

**Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog,
creawdwr nef a daear.**

**Ac yn Iesu Grist ei unig Fab ef, ein Harglwydd ni,
yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân,
a aned o Fair Forwyn,
a ddioddefodd dan Pontius Pilat,
a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd.**

Disgynnodd i uffern.

**Y trydydd dydd y cyfododd o feirw,
a esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw
Dad Hollgyfoethog;
oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.**

**Credaf yn yr Ysbryd Glân;
yr Eglwys Lân Gatholig;
cymun y saint;
maddeuant pechodau;
atgyfodiad y corff;
a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

Nunc Dimittis (The Song of Simeon)

**Lord, now lettest thou thy servant depart in peace:
according to thy word.**

**For mine eyes have seen thy salvation:
which thou hast prepared before the face of all peoples.
To be a light to lighten the Gentiles:
and to be the glory of thy people Israel.**

**Glory be to the Father, and to the Son:
and to the Holy Spirit;
As it was in the beginning, is now, and ever shall be:
world without end. Amen.**

6. The Apostles' Creed

The Apostles' Creed may be said.

**I believe in God the Father Almighty,
maker of heaven and earth:**

**And in Jesus Christ his only Son our Lord,
who was conceived by the Holy Spirit,
born of the Virgin Mary,
suffered under Pontius Pilate,
was crucified, dead, and buried.
He descended into hell.**

**The third day he rose again from the dead,
he ascended into heaven,
and is seated at the right hand of God
the Father Almighty;
from thence he shall come
to judge the quick and the dead.**

**I believe in the Holy Spirit;
the Holy Catholic Church;
the communion of saints;
the forgiveness of sins;
the resurrection of the body;
and the life everlasting. Amen.**

7. **Y Gweddïau**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;
A chyda'th ysbryd dithau.

Gweddiwn

Arglwydd, trugarha wrthym.
Crist, trugarha wrthym.
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.
A chaniatâ i ni dy iachawdwriaeth.

Gwisg dy weinidogion ag iawnder;
A gwna dy ddewis bobl yn llawen.

Arglwydd, cadw dy bobl;
A bendithia dy etifeddiaeth.

Arglwydd, cadw'r Frenhines;
A rho i'w chynghorwyr ddoethineb.

Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau;
Ac amddiffyn ni byth yn nerthol.

Duw, glanha ein calonnau;
Ac adnewyddda ysbryd uniawn o'n mewn.

7. **The Prayers**

The Lord be with you.
And with your spirit.

Let us pray.

Lord, have mercy upon us.
Christ, have mercy upon us.
Lord, have mercy upon us.

**Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil. Amen.**

O Lord, show thy mercy upon us;
And grant us thy salvation.

Endue thy ministers with righteousness;
And make thy chosen people joyful.

O Lord, save thy people;
And bless thine inheritance.

O Lord, save the Queen;
And give her counsellors wisdom.

Give peace in our time, O Lord;
And evermore mightily defend us.

Make clean our hearts, O God;
And renew a right spirit within us.

Colect Tymhorol

Defnyddir naill ai'r colect ar gyfer Adfent 1, Dydd Nadolig, Gŵyl yr Ystwyll neu Wyl Fair y Canhwyllau.

Adfent I

Hollalluog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau'r goleuni, yn awr yn y bywyd marwol hwn, a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngyddrwydd mawr; fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei ogoneddus fawredd i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol; trwyddo ef sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd. **Amen.**

Y Nadolig

Hollalluog Dduw, a roddaist inni dy uniganedig Fab i gymryd ein natur ni, a'i eni ar gyfenw i'r amser yma o Forwyn bur: caniatâ i ni, sy'n llawenychu yn nyfodiad dy fywiol dragwyddol Air, gael ein hadnewyddu beunydd trwy dy Ysbryd Glân; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r un Ysbryd, byth yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gŵyl yr Ystwyll

O Dduw, a roddaist dy unig-anedig Fab i fod yn oleuni i'r holl genhedloedd: o'th drugaredd dyro i ni sy'n dy adnabod yn awr trwy ffydd, allu ar ôl y fuchedd hon fwynhau gweledigaeth o'th Dduwdod gogoneddus; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gŵyl Fair y Canhwyllau

Hollalluog a byth fywiol Dduw, megis ar y dydd hwn y cyflwynwyd dy unig-anedig Fab yn y deml yn sylwedd ein cnawd, erfyniwn yn ostyngedig ar i'th Fawredd felly ein cyflwyno ninnau â chalonnau pur a glân; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yr ail golect, am dangnefedd

Hollalluog Dduw, ffynhonnell pob dymuniad sanctaidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn: dyro i'th weision y tangnefedd na all y byd ei roddi; fel y bo i ni, gan ufuddhau i'th orchmynion, a'n gwared gennynt rhag ofn ein gelynon, dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y trydydd colect, am gynhorthwy yn erbyn pob perygl.

Goleua ein tywyllwch, atolygwn i ti, O Arglwydd, ac o'th fawr drugaredd amddiffyn ni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon; trwy gariad dy unig Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

Seasonal Collect

The collect for Advent 1, Christmas Day, The Feast of the Epiphany or the Feast of the Presentation is used.

Advent 1

Almighty God, give us grace that we may cast away the works of darkness, and put upon us the armour of light, now in the time of this mortal life, in which thy Son Jesus Christ came to visit us in great humility; that in the last day, when he shall come again in his glorious Majesty, to judge both the living and the dead, we may rise to the life immortal; through him who lives and reigns with thee and the Holy Spirit, now and ever. **Amen.**

Christmas

Almighty God, who hast given us thy only-begotten Son to take our nature upon him, and as at this time to be born of a pure Virgin: grant that we, rejoicing in the coming of thy living and eternal Word, may daily be renewed by thy Holy Spirit; through the same Jesus Christ, who lives and reigns with thee and the same Spirit, ever one God, world without end. **Amen.**

The Epiphany

God, who didst give thy only-begotten Son to be a light to all nations: mercifully grant that we, who know thee now by faith, may after this life enjoy the vision of thy glorious Godhead; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Presentation of the Lord

Almighty and everlasting God, we humbly beseech thy Majesty, that, as thy only-begotten Son was this day presented in the temple in substance of our flesh, so we may be presented to thee with pure and clean hearts, by the same thy Son Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Second Collect, for Peace

Almighty God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed: give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and that, being defended by thee from the fear of our enemies, we may pass our time in rest and quietness; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Third Collect, for aid against all perils

Lighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

8. Carolau'r Plygain – y cylch cyntaf

Dywed y gweinidog y canlynol neu eiriau cyffelyb

Yr wyf yn cyhoeddi fod y Plygain yn awr yn agored.

Y mae'r Plygain yn awr yn agored i gantorion ddod ymlaen â'u hoffrwm o fawl.

9. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

10. Carolau'r Plygain : yr ail gylch

Nid oes cyhoeddiad ar ddechrau'r ail gylch. Daw'r cantorion ymlaen eto i ganu mawl.

11. Gellir canu carol neu emyn cynulleidfaol

8. The Plygain Carols – the first cycle

The minister says these words, or similar words.

I declare that the Plygain is now open.

The Plygain is now open for singers to come forward with their offering of praise to Jesus.

9. A carol or congregational hymn may be sung.

10. The Plygain Carols – the second cycle

There is no announcement at the beginning of the second cycle. The singers come forward once again to sing praise.

11. A carol or congregational hymn may be sung.

12. Carol y Swper

Bydd yr holl unigolion a phartïon sydd wedi cyfrannu at wasanaeth y Plygain yn dod ymlaen gyda'i gilydd i gyd-ganu Carol y Swper.

Cydganed dynoliaeth am ddydd gwaredigaeth,
daeth trefn y Rhagluniaeth i'r goleuni,
a chân 'Haleliwia' o fawl i'r Gorucha,
Meseia Jwdea, heb dewi;
moliannwn o lawenydd! Gwir ydyw fod Gwaredydd!
Fe anwyd Ceidwad inni, sef Crist, y Brenin Iesu,
cyn dydd, cyn dydd ym Methlem yn ddi-gudd
y caed Gwaredydd ar foreuddydd! O wele ddedwydd ddydd!

Ein Meichiau a'n Meddyg dan fflangell wenwynig
ar agwedd un diddig yn dioddef,
a'i farnu gan Peilat, a'i wisgo mewn sgarlad
gan ddynion dideimlad, rhaid addef;
a phlethu draenen bigog yn goron anhrugarog
a'i gosod mewn modd creulon ar ben Iachawdwr dynion:
fel hyn, fel hyn y gwisgwyd Iesu gwyn,
o dan arteithiau ein mawrion feiau, i boenau pen y bryn.

Defnyddiwn ein breintiau, mae perygl o'n holau,
cyn delo dydd angau, dihangwn;
mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod
a'r bwrdd wedi'i osod, O brysiwn!
Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
i wlad y Ganaan nefol i wleda yn dragwyddol.
Amen. Amen. Boed moliant byth! Amen.
Haleliwa i'r Meseia sy'n maddau byth! Amen.

Anhysbys (tua 1850) (Newidiwyd)
Tôn: Carol y Swper.

Ceir y gerddoriaeth a geiriau'r garol gyflawn yn Rhiannon Ifans, Yn dyrfa weddus, tt. 118-122.

12. Carol y Swper

All the soloists and parties who have contributed to the Plygain service come forward to sing together Carol y Swper.

Cydganed dynoliaeth am ddydd gwardigaeth,
daeth trefn y Rhagluniaeth i'r goleuni,
a chân 'Haleliwia' o fawl i'r Gorucha,
Meseia Jwdea, heb dewi;
moliannwn o lawenydd! Gwir ydyw fod Gwaredydd!
Fe anwyd Ceidwad inni, sef Crist, y Brenin Iesu,
cyn dydd, cyn dydd ym Methlem yn ddi-gudd
y caed Gwaredydd ar foreuddydd! O wele ddedwydd ddydd!

Ein Meichiau a'n Meddyg dan fflangell wenwynig
ar agwedd un diddig yn dioddef,
a'i farnu gan Peilat, a'i wisgo mewn sgarlad
gan ddynion dideimlad, rhaid addef;
a phlethu draenen bigog yn goron anhrugarog
a'i gosod mewn modd creulon ar ben Iachawdwr dynion:
fel hyn, fel hyn y gwisgwyd Iesu gwyn,
o dan arteithiau ein mawrion feiau, i boenau pen y bryn.

Defnyddiwn ein breintiau, mae perygl o'n holau,
cyn delo dydd angau, dihangwn;
mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod
a'r bwrdd wedi'i osod, O brysiwn!
Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
i wlad y Ganaan nefol i wleda yn dragwyddol.
Amen. Amen. Boed moliant byth! Amen.
Haleliwa i'r Meseia sy'n maddau byth! Amen.

Anhysbys (tua 1850) (Newidiwyd)
Tune: Carol y Swper.

The music and words of the entire carol may be found in Rhiannon Ifans,
Yn dyrfa weddus. pp.118-122

13. Y diwedd glo

Dywed y gweinidog:

Bendithied yr Arglwydd ni, cadwed ni rhag drwg a'n dwyn i fywyd tragwyddol. **Amen.**

neu:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fo gyda ni oll byth, bythoedd. **Amen.**

neu:

I Dduw'r Tad, a'n carodd ni'n gyntaf,
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd;
I Dduw'r Mab, a'n carodd ni,
a'n golchi oddi wrth ein pechodau yn ei Waed ei hun;
I Dduw'r Ysbryd Glân,
sy'n tywallt cariad Duw ar led yn ein calonnau,
y bo'r holl gariad a'r gogoniant dros holl amser
a hyd dragwyddoldeb. **Amen.**

Tangnefedd Duw, sydd uwchlaw pob deall, a gadwo eich calonnau a'ch meddyliau yng ngwybodaeth a chariad Duw, a'i Fab Iesu Grist ein Harglwydd: a bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

13. The Conclusion

The minister says:

The Lord bless us and preserve us from evil, and keep us in eternal life. **Amen.**

or:

The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Spirit, be with us all evermore. **Amen.**

or:

To God the Father, who first loved us,
and made us accepted in the Beloved;
To God the Son, who loved us,
and washed us from our sins in his own Blood;
To God the Holy Spirit,
who sheds the love of God abroad in our hearts,
be all love and all glory, for time and for eternity. **Amen.**

The peace of God, which passes all understanding, keep your hearts and minds in the knowledge and love of God and of his Son Jesus Christ our Lord: and the blessing of God Almighty, the Father, the Son and the Holy Spirit, be amongst you and remain with you always. **Amen.**

NODIADAU

1. Y drefn hon

Bwriedir y drefn hon yn bennaf fel canllaw a chymorth i'r eglwysi a'r cynulleidfaoedd hynny sy'n ailgydio yng ngwasanaeth y Plygain neu'n dechrau ei gynnal o'r newydd. Yn yr eglwysi hynny lle mae'r Plygain yn draddodiad disgwylir eu bod yn dilyn y drefn a'r arferion lleol sy'n bodoli'n barod.

2. Tymor gwasanaethau'r Plygain

Yn draddodiadol byddai gwasanaethau'r Plygain yn cael eu cynnal yn nhymor y Nadolig a chofier bod tymor y Nadolig yn dymor y Gwyliau ac yn parhau trwy'r Ystwyll (6 Ionawr) hyd at Wyl Cyflwyniad Crist (2 Chwefror) (Gŵyl Fair y Canhwylau). Er ym Maldwyn ystyrid na ddylid cynnal gwasanaeth Plygain cyn yr hen Ddygwyl Domos (21 Rhagfyr) mewn llawer man bellach fe'i hystyrir yn wasanaeth sy'n addas hefyd ar gyfer Tymor yr Adfent.

3. Trefn gwasanaeth y Plygain

Gellir amrywio ar yr elfennau o'r Hwyl Weddi a ddefnyddir yn y drefn hon. Serch hynny, fe ddylid o leiaf gynnwys y gwersiglau, llith addas, y Magnificat (Cân Mair) neu'r Nunc Dimittis (Cân Simeon), colect neu weddi fer, Gweddi'r Arglwydd a charol neu emyn cynulleidfaol.

4. Y canu a'r carolau

Yn draddodiadol cenir yn ddigyfeiliant yng ngwasanaeth y Plygain. Y mae cynnal y traddodiad hwn yn ffordd i ddiffinio beth sy'n nodweddiadol am y Plygain. Gellir cyfeilio i'r emynau cynulleidfaol ac i unrhyw gyfraniadau gan blant o ysgol leol.

Carolau Plygain Cymraeg traddodiadol sydd fwyaf addas i'r gwasanaeth. Gellir ymestyn ychydig ar y traddodiad trwy gynnwys cân neu garol newydd sydd yn cydweddu â'r traddodiad hwn.

Rhai casgliadau o garolau Plygain traddodiadol

Arfon Gwilym a Sioned Webb (goln.), Hen garolau Cymru.
(Caernarfon: Cwmni Cyhoeddi Gwynn, 2006)

Cyff Mawddwy: detholiad o garolau Plygain Eglwysi Tydecho Sant.
(Bangor: Cyngor Addysg Esgobaeth Bangor, 1982)

Rhiannon Ifans (gol.), Yn dyrfa weddus: carolau ar gyfer y Plygain.
(Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2003)

Enid Morgan (gol.), Cadw gŵyl: Plygain.
(Penarth: Bwrdd Cenhadu'r Eglwys yng Nghymru, 2000).
[Cryno ddisg yn cynnwys 18 carol a 2 emyn Nadolig ynghyd â llyfryn Cadw gŵyl:
llawlyfr i'r traddodiad Plygain.]

NOTES

1. This order of service

This order is intended primarily to provide guidelines and assistance for those churches and congregations who are re-establishing the Plygain or beginning to hold the service for the first time. In those churches where the Plygain is established it is anticipated that the order and local customs which already exist will be followed.

2. The season of Plygain services

Traditionally Plygain services were held during Christmastide. The season continues through Epiphany (6 January) until the Feast of the Presentation of Christ (2 February) (Candlemas). Even though in Montgomeryshire it is reckoned that no Plygain service should be held before the old Feast of St. Thomas (21 December), nowadays it is also considered appropriate for Advent.

3. The order of service for Plygain

Elements of Evening Prayer may be varied from those provided in this order. Nevertheless, as a minimum it should include the versicles, an appropriate reading from Scripture, the Magnificat (Song of Mary), the Nunc Dimittis (Song of Simeon), a collect or short prayer, the Lord's Prayer and a carol or congregational hymn.

4. The singing and the carols

The Plygain service is a vocal tradition and playing musical instruments is not part of it. Preserving this tradition of singing unaccompanied is a way of defining that which is characteristic of the Plygain. Congregational hymns may be accompanied as well as contributions from children of local schools.

Traditional Plygain carols are the most appropriate for the service. This tradition may be expanded slightly by including a song or new carol which is in keeping with this tradition.

Some collections of traditional Plygain carols

Arfon Gwilym a Sioned Webb (eds.), *Hen garolau Cymru*.
(Caernarfon: Cwmni Cyhoeddi Gwynn, 2006)

Cyff Mawddwy: detholiad o garolau Plygain Eglwysi Tydecho Sant.
(Bangor: Diocese of Bangor Education Council, 1982)

Rhiannon Ifans (ed.), *Yn dyrfa weddus: carolau ar gyfer y Plygain*.
(Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2003)

Enid Morgan (gol.), *Cadw gŵyl: Plygain*.
(Penarth: Mission Board of the Church in Wales, 2000). [Compact disc containing 18 carols and 2 Christmas hymns as well as a booklet *Cadw gŵyl: llawlyfr i'r traddodiad Plygain*.]

Geraint Vaughan-Jones (gol.), Hen garolau Plygain.
(Talybont: Y Lolfa, 1988; ailargraffiad 2009).

Geraint Vaughan-Jones (gol.), Mwy o garolau Plygain.
(Talybont: Y Lolfa, 1990)

Mae'n hollol gydnaws â'r traddodiad i gantorion ddefnyddio copïau o'r gerddoriaeth a'r geiriau.

Nid yw'n arferol i bartïon fod ag arweinydd. O bryd i'w gilydd fe geir mewn ambell garol eirfa neu gymalau sy'n anghydnaws â chonfensiynau a safonau ein hoes ni. Felly dylid cymryd pob gofal i ddiwygio enghreifftiau o'r fath neu i beidio â'u defnyddio o gwbl er mwyn osgoi tramgwydd. O gofio hyn, ceir fersiwn diwygiedig o Garol y Swper.

5. Trefn y cyfraniadau lleisiol

Wedi'r rhan agoriadol bydd y gweinidog yn cyhoeddi fod y Plygain 'yn agored'. Dyma pryd y daw cyfraniadau'r gynulleidfa, yn bartïon ac yn unigolion. Yn yr eglwysi hynny lle mae cynnal gwasanaeth y Plygain yn draddodiad sefydlog, dilynir yr arfer leol. Bydd yr unigolion a'r partïon yn ymateb i'r gwahoddiad yn eu tro, heb fod trefn wedi'i gosod. Lle bo gwasanaeth y Plygain yn cael ei ailsefydlu, neu'n cael ei ddechrau am y tro cyntaf, efallai y bydd angen cytuno ar drefn ymlaen llaw yn ystod blynyddoedd cynnar ei ailsefydlu.

6. Distawrwydd

Os oes angen, dylid egluro cyn cychwyn y gwasanaeth, er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd, ei bod hi'n arferol derbyn y gwahanol gyfraniadau mewn distawrwydd ac nad yw cymeradwyo yn briodol. Nid yw'n briodol chwaith i'r gweinidog lywio neu arwain y cyfraniadau a siarad rhwng y carolau. Y mae seibiant gweddus cyn dod ymlaen i ganu yn rhan o'r traddodiad. Llenwir y seibiannau hyn â disgwylgarwch gweddigar. Mae'n bwysig peidio â rhuthro o un cyfraniad i'r llall.

7. Y cylch cyntaf a'r ail

Dilynir y cylch cyntaf o garolau gan ail gylch. Un garol bydd pob cyfrannwr yn ei chanu ym mhob cylch. Mae'n arferol peidio ag ail-adrodd unrhyw garol – na geiriau nac alaw – yn y gwasanaeth. Daw unigolion a phartïon i wasanaeth y Plygain ar ôl paratoi tair neu bedair o garolau gan fod yn barod i ollwng un neu ddwy ohonynt. Bydd y gweinidog yn penderfynu pryd i gloi'r cylch cyntaf pan na fydd rhagor o gantorion yn codi i gyfrannu. Gwneir hynny trwy gyhoeddi emyn neu garol gynulleidfaol. I'r graddau y mae hynny'n bosib, dylai'r cyfranwyr ganu yn yr un drefn yn yr ail gylch ag a wnaethpwyd yn y cylch cyntaf.

Os oes plant yn cymryd rhan un ai fel unigolion neu bartïon mae'n arferol iddynt ddod ymlaen yn gyntaf. Os yw'n cyfrannu carolau at y Plygain y mae'n arferol i'r gweinidog ganu'r garol gyntaf ym mhob cylch ond ar ôl cyfraniad y plant.

8. Y Plygain fel cyfle eciwmenaidd a chenhadol.

Gall y Plygain fod yn gyfle i ddod â'r gymuned gyfan at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig trwy

Geraint Vaughan-Jones (ed.), *Hen garolau Plygain*.
(Talybont: Y Lolfa, 1988; reprinted 2009).

Geraint Vaughan-Jones (ed.), *Mwy o garolau Plygain*.
(Talybont: Y Lolfa, 1990)

The use of musical scores by the singers is entirely consistent with the tradition.

It is not customary for groups to have a conductor.

From time to time, words or phrases may occasionally occur in carols which are not in keeping with the conventions and standards of our age. Hence every care should be taken to revise examples of this kind or refrain from using them altogether, in order to avoid offence. With this in mind, a revised version of Carol y Swper is included.

5. The order of the sung contributions

Following the opening section the minister will declare that the Plygain is ‘open’. This is the time for contributions from the congregation, either groups or individuals. In those churches where the Plygain is an established tradition, local custom is followed. The individuals and groups respond to the invitation in turn, with no pre-determined order. Where the Plygain is being re-established or celebrated for the first time, it may be necessary to agree an order in advance.

6. Silence

If necessary, and in order to avoid any uncertainty, it should be explained that it is customary to receive the various contributions in silence and that applause is inappropriate. Neither is it appropriate for the minister to direct or lead the contributions or speak in between the carols. These pauses are filled with prayerful anticipation. It is important not to rush from one contribution to the next.

7. The first and second cycles

The first cycle of carols is followed by the second. Each contributor sings one carol in each cycle. It is customary to avoid repetition of any carol – whether words or melody – within the service. Individuals and parties come to the Plygain service having prepared three or four carols, ready to dispense with one or two of them. The minister decides when to close the first cycle, once no more singers rise to sing. This is done by announcing a congregational hymn or carol. As far as possible, the contributors should sing in the same order in the second cycle as in the first.

If children are taking part, either as individuals or as groups it is usual for them to come forward first. If contributing a carol, it is usual for the minister to sing first, but after the children’s contribution.

8. The Plygain as an ecumenical and missional opportunity

The Plygain can provide an opportunity to bring the whole community together to celebrate

estyn gwahoddiad i eglwysi, ysgolion a sefydliadau eraill y fro, megis Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Clwb y Ffermwyr Ifanc, corau lleol, clybiau chwaraeon ac ati, i gyfrannu. Gan ystyried y cyfleoedd eciwmenaidd a chenhadol a ddaw drwy wneud hyn, dylid sicrhau bod y gwasanaeth mor groesawgar a chynhwysfawr â phosibl drwy addasu'r drefn lle bo angen, er enghraifft drwy gyd-adrodd y cantiglau neu ddefnyddio gosodiad mydryddol yn lle siant Anglicanaidd.

9. Y Plygain yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid

Pe dymunir, gellir cynnal y Plygain yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid. Mae hyn yn gydnaws â'r hen draddodiad o ganu carolau fel hyn yn Offeren y Bugeiliaid.

Christmas through extending an invitation to contribute to churches, schools and other institutions in the community such as Merched y Wawr, the Women's Institute, the Young Farmers, local choirs, sports clubs etc. When considering the ecumenical and missional opportunities that arise from doing this, the service should be as welcoming and inclusive as possible by amending this order as necessary, for example by reciting the canticles together or using a metrical version instead of Anglican chant.

9. The Plygain in the context of the Eucharist

If desired, the Plygain may be celebrated in the context of the Eucharist. This is in keeping with the old tradition of singing carols such as these during the Mass of the Shepherds.

Adran 6

Atodiad

Rhagfyr 6

Sant Nicolas

Groegwr o ran ei enedigaeth oedd Sant Nicolas, Esgob Myra (sy'n rhan o Dwrci heddiw) yn y bedwaredd ganrif. Yn ôl y sôn, rhannai anrhegion yn y dirgel a daliai'r tlodion yn agos at ei galon. Fe'i coffeir drwy'r byd mewn sawl gwlad, diwylliant a ffordd, ac arno ef y seiliwyd ein Santa Clos (Siôn Corn) ni. Mae ei ddydd gŵyl ddechrau'r Adfent yn gyfle delfrydol nid yn unig i archwilio a dathlu hanes traddodiad Nadolig sy'n bodoli heddiw (ac sy'n ymddangos yn seciwlar), ond mae hefyd yn ein dwyn yn ôl at orchymyn Crist inni garu ein gilydd fel y carodd ef ni, ac yn ein hatgoffa mai cariad Duw, a fynegwyd yng ngenedigaeth Crist, yw craidd dathliadau'r Nadolig. Y mae i Sant Nicolas sawl swydd ond ef yn, benodol, yw nawdd sant plant a mordeithwyr.

Gall y deunydd hwn fod yn rhan o wasanaeth y Cymun Bendigaid neu'n wasanaeth Litwrgi'r Gair. Ar ôl y rhagarweiniad gellir dweud y Brawddegau o Edifeirwch sydd ar gyfer yr Adfent.

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
a'th gadw di yng nghariad Crist.

Y Rhagarweiniad

Gellir dweud y canlynol:

Gyfeillion annwyl, heddiw coffawn fywyd Sant Nicolas y disgleiria ei haelioni a'i gariad yn esiamplau gloyw i bawb. Mae ei garedigrwydd i'r tlawd a'i ofal o'r anghenus yn ein dwyn i graidd yr efengyl sy'n ein gorchymyn i garu ein gilydd fel y carodd Iesu ni. Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab. Ym mhresenoldeb Iesu, y mae ei adfent wrth y drws, gweddiwn inni gael ein llenwi â chariad a haelioni, trugaredd calon tuag at yr anghenus a diolchgarwch am yr holl roddion a gawsom.

Section 6

Appendix

December 6

St Nicholas

St Nicholas was a Greek-born Bishop of Myra (part of modern day Turkey) in the fourth century with a reputation for secret gift giving and a particular concern for the poor. He is celebrated throughout the world in many different countries and cultures and in various ways and is the 'model' of the modern day 'Santa Claus.' His feast day at the beginning of Advent is an ideal opportunity to explore and celebrate the provenance of a modern day (and seemingly secular) Christmas custom, draws us back to the call of Christ to love one another as he has loved us, and to remind ourselves of the heart of the Christmas celebrations which is God's love expressed in the birth of Christ. St Nicholas is, among many other things, a patron saint of children and seafarers.

This material may be incorporated into a celebration of the Eucharist or as a separate Liturgy of the Word. The Penitential Sentences for Advent may be used after the introduction.

In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you
and keep you in the love of Christ.

Introduction

The following may be used:

Dear friends, today we celebrate the life of St Nicholas whose generosity and love are examples to all. His kindness towards the poor and his care for those who were in need call us back to the heart of the gospel: to love one another as Jesus has loved us. God loved the world so much that he sent his only Son. In the presence of Jesus, whose advent is upon us, let us pray that we may be filled with love and generosity, concern for those in need, and gratitude for all the many gifts we have been given.

Colect

Dduw ein Tad,
ceraist y byd gymaint nes iti roi dy unig Fab, Iesu Grist,
a'n dysgodd i garu ein gilydd fel y carodd ef ni.
Yr wyt yn parhau i fendithio'r byd
drwy godi pobl sanctaidd y mae eu bywydau yn datguddio dy deyrnas o oleuni a chariad.
Diolchwn iti am Sant Nicolas
y cawn ein hysbrydoli gan ei gariad a'i haelioni hyd at y dydd hwn.
Boed i'w esiampl ef o sancteiddrwydd a chariad hunan-roddedig
ein hysgogi ni i roi fel y gwnaethom ni dderbyn.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo, gyda thi a'r Ysbryd Glân,
bob anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. **Amen.**

Darlleniadau

Gellir darllen un neu fwy o'r isod:

Salm 23	Yr Arglwydd yw fy mugail.
Colosiaid 3. 12-17	'Gwisgwch amdanoch dynerwch calon.'
1 Timotheus 4. 11-16	'Paid â gadael i neb dy ddiystyru am dy fod yn ifanc.'
Philippiaid 2. 5-11	'O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun.'
1 Ioan 4. 7-14	'Gadewch i ni garu ein gilydd.'
Marc 14. 1-9	'Bydd y tlodion gyda chwi bob amser.'
Marc 10. 17-22	'Gwerth y cwbl sydd gennynt a dyro i'r tlodion.'
Luc 6. 31-36	'Byddwch yn drugarog fel y mae eich Tad yn drugarog.'
Luc 9. 46-48	'Pwy bynnag sy'n derbyn y plentyn hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i.'
Luc 12. 13-21	'Cesglwch drysorau i chwi eich hun yn y nefoedd.'

Homili

Ymbiliau

Fy mrodyr a'm chwiorydd, gweddiwn ar yr Arglwydd y caiff pawb ei lanw â'i haelioni a'i gariad, a fu'n nodweddion mor amlwg o fywyd Sant Nicolas.

Gweddiwn dros holl esgobion yr eglwys: iddynt fod yn fugeiliaid hael a chariadus i bawb o Bobl Dduw. **A.**

A. Cynorthwya ni i garu ein gilydd fel y ceraist ti ni.

Gweddiwn dros blant y byd: boed i dymor y Nadolig eu llanw â llawenydd a'u hysbrydoli i fod yn hael a charedig. **A.**

Gweddiwn dros blant ein Heglwys:
boed iddynt dyfu'n nes at Iesu, dydd ar ôl dydd. **A.**

Collect

God our Father,
you loved the world so much that you gave us your only Son, Jesus Christ,
who has taught us to love one another as he has loved us.
You continue to bless the world
by raising up holy people whose lives reveal your kingdom of light and love.
We thank you for St Nicholas,
whose love and generosity inspires us even to this day.
May his example of holiness and self giving love
move us to give as we have received.
We ask this through Jesus Christ our Lord,
to whom with you and the Holy Spirit,
be honour and glory, now and for ever. **Amen.**

Readings

One or more of the following readings may be used:

Psalm 23	The Lord is my Shepherd
Colossians 3. 12-17	'Clothe yourselves with compassion.'
1 Timothy 4. 11-16	'Let no one despise your youth.'
Philippians 2. 5-11	'Sharing the human lot, he humbled himself.'
1 John 4. 7-14	'Let us love one another.'
Mark 14. 1- 9	'You have the poor with you always.'
Mark 10. 17-22	'Sell what you have and give to the poor.'
Luke 6. 31-36	'Be compassionate as your Heavenly Father is compassionate.'
Luke 9. 46-48	'Whoever receives this child in my name receives me.'
Luke 12. 13-21	Store up treasure for yourself in heaven

Homily

Intercessions

My brothers and sisters, let us pray to the Lord that all people may be filled with his generosity and love, which so clearly marked the life of St Nicholas.

Let us pray for all the bishops of the church: may they be shepherds of generosity and love for the whole People of God. **R.**

R. Help us to love one another as you have loved us.

Let us pray for all children: may the Christmas season fill them with delight and inspire them to be generous and kind. **R.**

Let us pray for the children of our Church:
may they grow closer to Jesus day by day. **R.**

Gweddiwn dros bob rhiant, rhieni-cu (teidiau a neiniau), rhieni bedydd, athrawon Ysgol Sul a phawb sy'n ymwneud â meithrin plant yn y ffydd Gristionogol: boed iddynt fod yn esiamplau euraid i'r rhai sydd yn eu gofal. **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n dlawd ac sydd heb bethau sylfaenol bywyd: boed iddynt dderbyn haelioni a gofal gan eraill. **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n gweithio ar y môr: boed iddynt gael eu nerthu yn eu gwaith a dychwelyd yn ddiogel i'r porthladd. **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n gofalu am yr anghenus: boed i'w gwaith fod yn ysbrydoliaeth i eraill. **A.**

Os na ddethlir yr Ewcharist dywedir Gweddi'r Arglwydd i orffen yr Ymbiliau:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Fel y dysgodd Iesu ei hun inni, gweddiwn:

Ein Tad ...

Defodau Ychwanegol

Mae bywyd Sant Nicolas, sy'n llawn delweddaeth, yn addas ar gyfer ymdrin â Theyrnas Dduw yn greadigol gyda phob oedran, ond yn enwedig gyda phlant. Gellir gwau cyswllt rhyngddo a themâu'r Adfent ac â'r ffordd y mae nifer o bobl yn dathlu'r Nadolig cyn y diwrnod penodol. Cyflwynir y gweddiâu a'r dewisiadau canlynol i'r plwyfi hynny a fydd, efallai, yn dymuno dathlu dydd gŵyl Sant Nicolas yn y ffordd honno.

Gweddi o Fendith wrth roi Orenau neu Anrhegion eraill

Cynigir yr isod i gyfleu'r llawenydd o roi ac o dderbyn. Pethau bychain i'w bwyta oedd rhoddion Sant Nicolas fel rheol: orenau, afalau, cnau, melysion a bisgedi, pethau pitw a phethau tila yr olwg o'u cymharu â'r nifer mawr o anrhegion a roddir ac a geir adeg y Nadolig ymysg y niferoedd yn ein cymdeithas, ond maent yn ein hatgoffa o'r hyn sy'n wirioneddol bwysig ac yn ein cynorthwyo i drysori popeth a gawsom.

Dduw ein Tad cariadus,
wrth inni baratoi at dymor ewylls da,
ysbrydola ni, yn union fel Sant Nicolas, i fyw yn hael i eraill,
i estyn allan i'r anghenus
a dwyn goleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch.
Bendithia ni a phawb sy'n derbyn yr orenau hyn,
arwydd o felyster dy gariad,
fel y cawn fedi cynhaeaf o hedd a llawenydd
a dwyn ffrwyth cariad Iesu yn ein bywydau.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Let us pray for all parents and grandparents, godparents and Sunday School teachers and all who help to nurture children in the Christian faith: may they be shining role models for those in their care. **R.**

Let us pray for all who are poor and lack the basic necessities of life: may they receive generosity and care from others. **R.**

Let us pray for all who work at sea: may they be strengthened in their work and return to harbour safe and sound. **R.**

Let us pray for all who care for those in need: may their work may be a source of inspiration to others. **R.**

If the Eucharist is not celebrated, the intercessions conclude with the Lord's Prayer:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Now, let us pray as Jesus himself has taught us:

Our Father ...

Additional Rites

The life of St Nicholas is rich with imagery and lends itself to explore creatively the Kingdom of God with all ages, particularly children, whilst connecting with Advent themes and the way in which many people already celebrate Christmas. The following prayers and options are provided for those parishes who may wish to celebrate the feast day of St Nicholas in this way.

Prayer of Blessing for the giving of Oranges or other Gifts

The following is provided to illustrate the joy of giving and receiving. The gifts of St Nicholas were usually small things to eat: oranges, apples, nuts, sweets and biscuits. They may seem rather meagre and unimpressive when compared to the large number of gifts given and received at Christmas by many in our society but they remind us of what's really important and help us to cherish all we have been given.

God our Loving Father,
as we prepare for the season of goodwill,
inspire us, like St Nicholas, to live generously for others,
to reach out to those in need
and to bring light to those in darkness.
Bless us and all who receive these oranges,
a sign of the sweetness of your love,
so that we may reap a harvest of peace and joy
and bear the fruit of Jesus' love in our lives.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Gweddi o Fendith wrth Roi Darnau Arian neu Anrhegion eraill

Mae un o'r hanesion am fywyd Sant Nicolas yn sôn am ddyd tlawd a chanddo dair merch. Am ei fod yn dlawd a heb fodd i gael gwaddol ynghyd at eu priodasau nid oedd dim o'u blaen ond eu gwerthu yn gaethferched. Ond, deirgwaith, cafwyd llond cwodyn o aur yn eu tŷ: bob tro wedi ei daflu drwy'r ffenestr ac wedi cwmpo i mewn i hosanau neu esgidiau a oedd yn sychu wrth y tân. Dyma sail yr arfer fod plant yn gadael hosanau i Sant Nicolas i'w llanw ag anrhegion. Tair pelen aur, darnau arian, cydau arian neu, weithiau, orenau neu afalau yw'r symbolau sy'n cael eu cysylltu â Sant Nicolas.

Dduw ein Tad,
mae goleuni'r Nadolig yn torri ar y gorwel,
mae'r nos yn ildio ei lle i lewyrch dyfodiad dy Fab i'r byd.
Bendithia ni a phawb sy'n derbyn y darnau arian hyn.
Boed iddynt ddwyn i'n cof haelioni a charedigrwydd Sant Nicolas
a'r cymorth a roddodd mor eiddgar i'r rhai oedd mewn trafferth neu angen.
Cynorthwya ni i arfer ein doniau i greu byd o heddwch a chariad.
Boed i ni fod yn arwyddion o obaith mewn byd diobaith,
ffaglau disglair o olau lle bo tywyllwch yn taflu ei gysgod.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddi o Fendith wrth ddarparu Rhoddion i'r Tlodion

Mae'r dydd gŵyl hwn yn un addas at gasglu a dosbarthu rhoddion i'r tlawd: pethau fel bwyd a dillad.

Dduw ein Tad,
darostyngwyd dy Fab, Iesu Grist, er ein mwyn ni;
fe'i gwacaodd ei hun o ogoniant
a dyfod ar wedd dynion.
Estynnodd drugaredd ei galon i'r rhai anghenus,
daeth â newyddion da i dlodion
ac unionodd y gwargam.
Am mai'r un yw cenhadaeth yr eglwys heddiw
estynnwn ninnau allan at bawb sydd mewn angen.
Gan ddwyn i gof esiampl Sant Nicolas
a ymrwymodd i weithredoedd o elusen a chariad,
bendithia bawb sy'n derbyn y rhoddion hyn
fel y'u llenwir â llawenydd
a chael popeth sydd ei angen arnynt i fyw bywydau llawn a llesol.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y Plentyn yn Esgob

Dechreuodd y traddodiad hwn yn yr Oesoedd Canol a daeth yn boblogaidd yn ddiweddar mewn sawl ardal. Gwisgir y plentyn a ddewiswyd mewn dillad esgobol addas a'i osod i eistedd ar gadair mewn lle amlwg. Mae'r weithred hon, yn ogystal â bod yn hwyl sy'n apelio at blant, yn mynegi gwirionedd am Deyrnas Dduw. Geiriau Magnificat Mair: 'tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl,' sy'n ysbrydoli'r gweithgaredd hwn.

Prayer of Blessing for the Giving of Coins or other Gifts

One story associated with the life of St Nicholas involved a poor man with three daughters. He was unable to provide a dowry for his daughters and so, unable to get married, they were destined to be sold into slavery. On three occasions a bag of gold appeared in their household: tossed through the window and landing in stockings or shoes left at the fireside to dry. This led to the tradition of children leaving stockings for St Nicholas to fill with gifts. A symbol of three gold balls, coins, money bags or sometimes oranges or apples are used to represent St Nicholas.

God our Father,
the light of Christmas is breaking upon the horizon,
the night time gives way to the coming of your Son into the world.
Bless us and all who receive these coins.
May they remind us of the generosity and kindness of St Nicholas
and the help he eagerly gave to those who were in trouble or need.
Help us to use our gifts to create a world of peace and love.
May we be signs of hope in a world of despair,
shining beacons of light where darkness overshadows.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Prayer of Blessing for Gifts for the Poor

It is appropriate on this feast to collect and distribute gifts for the poor, such as food and clothing.

God our Father,
your Son Jesus Christ became poor for our sake,
stripping himself of glory
and becoming human like us.
He showed special concern for all who were in need,
bringing good news to the poor
and raising up all who are bowed down.
The church, charged with the same mission,
reaches out today to those who are in need.
With the example of St Nicholas,
who dedicated himself to works of charity and love,
bless all who receive these gifts
that they may be filled with joy
and receive all they need to lead full and wholesome lives.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

The Child Bishop

This tradition began in Medieval times and has gained popularity in recent times in many areas. The chosen child is vested in appropriate episcopal garments and seated in a chair in a prominent place. The act, although fun and appealing to children, also expresses the truth of God's kingdom. The words of Mary's Magnificat, 'You cast down the mighty from their thrones and raise up the lowly,' inspire this activity.

Amserau a Thymhorau

Yr ydym yn datgan dy fawredd, Arglwydd Dduw,
wrth i'th deyrnas nesáu yn ei chyflawnder.
Dy dangnefedd a'th gyfiawnder sy'n gwawrio,
dy lewyrch gogoneddus sy'n torri drwy dywyllwch y nos.
Tyrd yn awr, darostwng y nerthol o'u gorseddau,
dyrchafa'r isel radd,
a llanw'r newynog â phethau da.
Cynorthwya ni i ddilyn dy ffyrdd o ostyngyddrwydd a chariad
a chroesawu llewyrch gogoneddus dy deyrnas.
Gofynnwn hyn drwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y Fendith Olaf a'r Gollwng

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder, arnoch a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen, a bendith
Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi
yn wastad. **Amen.**

Mae'r Arglwydd yn dyfod; ewch allan i'w gyfarfod.
Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. **Amen.**

Rhagfyr 13

Santes Lleucu

Santes sy'n perthyn i ddiwedd y drydedd a dechrau'r bedwaredd ganrif yw Lleucu; cafodd
ei merthyru adeg yr erledigaeth Rufeinig olaf, yn ystod teyrnasiad Diocletian. 'Goleuni'
yw ystyr ei henw (daw elfen gyntaf y gair 'lleucu' o'r Lladin 'lux' sy'n golygu 'golau') a
cheir fod yr Eidal a Sgandinafia yn talu sylw arbennig iddi. Cysylltir ei dydd gŵyl â sawl
traddodiad poblogaidd: yn Sweden mae un ferch o bob teulu yn gwisgo gwisg wen, ac
arni wregys neu ruban coch, ac yn rhoi ar ei phen dorch fythwyrdd a chanhwyllau wedi eu
cynnau. Yn Hwngari mae'n arferol plannu gwenith y Nadolig sydd, wedi iddo flaguro'n
wyrdd-golau erbyn y Nadolig, yn cael ei offrymu wrth y preseb. Mae hynny'n weithred
o ddefosiwn hyfryd i Iesu, bara'r bywyd, a aned ym Methlehem ('tŷ bara') ac a osodwyd
i orwedd mewn preseb. Gellid defnyddio'r arfer yn ddefosiwn Adfent hefyd, oherwydd y
pwyslais ar wyllo ac aros.

Mae hanes dewrder Lleucu ac ystyr ei henw yn ei gwneud yn sant arbennig o addas i'r
Adfent. Oherwydd ei henw a'r traddodiadau sy'n perthyn iddi daeth yn nawdd sant y
dall a'r rhai sydd â nam ar ei golwg neu'n cael trafferth â'u llygaid. Yng nghalendr Julian
digwyddai ei dydd gŵyl ar ddiwrnod byrraf y flwyddyn (felly y'i disgrifir ym marddoniaeth
John Donne, 'A Nocturnal upon St Lucie's day') ac er nad yw hynny'n wir yn achos
calendr Gregory mae ei dydd gŵyl yn llawn o'r ddelweddaeth wreiddiol.

We proclaim your greatness, Lord God,
as your kingdom draws closer in all its fullness.
Your peace and justice is dawning,
your glorious brightness breaks through the darkness of the night.
Come now, cast down down the mighty from their thrones,
lift up the lowly,
and fill the hungry with good things.
Help us to follow your ways of humility and love
and to welcome the glorious brightness of your kingdom.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

Final Blessing and Dismissal

The Lord be with you.
And also with you.

Christ the Sun of righteousness shine on you and scatter the darkness from before you and the blessing of Almighty God, the Father and the Son and the Holy Spirit be among you and remain with you always. **Amen.**

The Lord is coming. Go out to meet him.
Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

December 13

St Lucy

St Lucy is a saint of the third to fourth century, a martyr of the Roman persecutions. Her name means 'light' and she is celebrated particularly in Italy and Scandinavia. There are various popular traditions associated with her feast day: in Sweden a girl within each family dresses in white with a red sash and wears on her head an evergreen wreath with lighted candles. An Hungarian custom is the planting of the Christmas wheat which, when sprouted soft green by Christmas, may be presented at the Christmas Crib. It offers a lovely devotion to Jesus, the Bread of Life, who was born in Bethlehem ('the house of bread') and laid in a feeding trough. It provides a useful Advent devotion of watching and waiting.

Lucy's story of courage and the provenance of her name makes her a particularly appropriate Advent saint. Her name and various traditions associated with her have made her patron saint of the blind and those with visual impairment or eye trouble. In the Julian calendar her feast day fell on the shortest day of the year (as celebrated in John Donne's poem 'A Nocturnal upon St Lucie's day) and although this is not the case with the Gregorian calendar the imagery still fills this feast day.

Colect

Naill ai'r weddi o Golectau'r Eglwys yng Nghymru neu:

Ar yr awr dywyllaf, Arglwydd Dduw,
fe dyr dy Wawr Ddisglair arnom ni,
gan chwalu'r cysgodion
a rhoi terfyn ar dywyllwch y nos.
Wrth inni ddathlu bywyd Santes Lleucu
a fu, yn wyneb perygl ac angau, yn ffyddlon i'w galwad,
gweddiwn i oleuni dy gariad ein harwain ni i weld prydferthwch dy wirionedd,
ac agor ein llygaid i ganfod presenoldeb dy Fab,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. **Amen.**

Darlleniadau

Eseia 9: 1-7	Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr.
Eseia 62: 1-5	'Byddi'n goron odidog yn llaw'r Arglwydd.'
Effesiaid 5: 8-14	'Tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd.'
Ioan 8: 12	'Myfi yw goleuni'r byd.'

Gweddi wrth gynnau Canhwyllau

Gellir rhoi canhwyllau i'r bobl a'u cynnau naill ai wrth ganu emyn/cân addas ac yna dweud y weddi isod, neu gellir hepgor y canu a'u cynnau tra dywedir y weddi:

Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol,
boed i'r goleuni a lanwodd Santes Lleucu,
goleuni Iesu dy Fab,
lanw'r lle hwn lle'r ydym ni,
a goleuo ein calonnau a'n meddyliau.
Wrth inni baratoi i ddathlu geni Iesu
boed i bob cwr o'n bywydau dywynnu â gobaith
a llewyrchu â chariad Iesu
sy'n Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Collect

Either the prayer from the Collects of the Church in Wales or:

At the darkest hour, Lord God,
your Radiant Dawn breaks upon us,
scattering the shadows
and ending the darkness of the night.
As we celebrate the life of St Lucy
who, in the midst of danger and death, remained faithful to her calling,
may the light of your love enable us to see the beauty of your truth
and our eyes be opened to the presence of your Son,
to whom with you and the Holy Spirit,
be honour and glory, now and for ever. **Amen.**

Readings

Isaiah 9. 1-7	The people that walked in darkness have seen a great light
Isaiah 62. 1-5	You are to be a crown of splendour in the hand of the Lord
Ephesians 5. 8-14	You were darkness once but now you are light in the Lord
John 8. 12	'I am the Light of the world'

Prayer for the lighting of Candles

The people may be given candles which may be lit during a suitable hymn or song and/or accompanied by the following prayer:

Father of glory, holy and eternal,
let the light that filled St Lucy,
the light of Jesus your Son,
fill this space in which we have gathered,
and illuminate our hearts and minds.
As we prepare to celebrate the birth of Jesus,
may our whole lives glimmer with hope
and glow with the love of Jesus,
who is Lord for ever and ever. **Amen.**

Gweddi wrth blannu Gwenith y Nadolig

Dduw yr holl Greadigaeth,
yr wyt yn anfon y glaw i ddyfrhau'r ddaear a meithrin tyfiant,
gosodaist yr haul, y sêr a'r lleuad (lloer) yn y nen
i gynhesu'r ddaear a'i goleuo, gan euro hyd yn oed y nos dywyllaf.
Bendithia ni wrth inni blannu'r hadau gwenith hyn.
Tra byddom yn eu gwyllo'n tyfu
fe ddisgwyliwn am eni Iesu ym Methlehem; ef yw Bara'r Bywyd
sy'n ein bwydo â'i bresenoldeb ef ei hun,
ein Harglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Ymbiliau

Gweddiwn ar Dduw ein Tad y mae ei Fab, Iesu Grist y gwir oleuni sy'n goleuo pob dyn,
ar fin dyfod i'r byd.

Gweddiwn am ysbryd o ddewrder oddi mewn i'r eglwys: arhosed pob Cristion yn gryf
yn ei ffydd, yn llawn gobaith, ac yn fyw i Dduw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **A.**

A. Dduw'r goleuni a'r gwirionedd gwrando ein gweddi.

Gweddiwn dros bob plentyn: tywysed goleuni'r Nadolig y rhai ifanc at Iesu, y goleuni
tragwyddol. **A.**

Gweddiwn dros Gristionogion ledled y byd, sy'n dioddef erledigaeth: boed iddynt gael
eu cyflenwi â dewrder a ffydd a chael hyd i ryddid i wasanaethu'r Arglwydd. **A.**

Gweddiwn dros bawb sy'n cael trafferth â'u llygaid neu sy'n cael anhawster i weld:
boed iddynt gael eu trin yn dyner ac yn barchus. **A.**

Gweddiwn am inni ddeall yn glir yr hyn y mae'r Arglwydd yn ein galw i gyflawni:
llanwer ein calonnau â'r awydd i groesawu ei ewyllys ef i ni ac i'r byd. **A.**

Os na ddethlir yr Ewcharist bydd yr ymbiliau yn gorffen â Gweddi'r Arglwydd:

Gweddi'r Arglwydd

(gweler tudalen 17)

Gweddiwn ar y Tad,
y daw teyrnas goleuni a thangnefedd yn ei chyflawnder:

Ein Tad ...

Prayer for the planting of Christmas Wheat

God of all Creation,
you send the rain to water the soil and give it growth
and you have set the sun and stars and moon in the sky
to warm the earth and give us light and illuminate even the darkest night.
Bless us as we plant these wheat seeds.
As we watch them grow,
may we anticipate the birth in Bethlehem of Jesus, the Bread of Life,
who feeds us with the presence of his very self,
and who is Lord for ever and ever. **Amen.**

Intercessions

Let us pray to God our Father, whose Son Jesus Christ, the true light which enlightens everyone, is coming into the world.

We pray for a spirit of courage within the church: may all Christians remain strong in faith, full of hope, and alive to God in Christ Jesus the Lord. **R.**

R. God of light and truth: hear our prayer.

We pray for all children: may the light of Christmas guide the young to Jesus, the eternal light. **R.**

We pray for all persecuted Christians throughout the world: may they be filled with courage and faith, and find freedom to serve the Lord. **R.**

We pray for all those with eye conditions or visual impairments: may they be treated with understanding and respect. **R.**

We pray for a clear understanding of what the Lord is calling us to do: may our hearts be filled with a desire to welcome his will for us and the world. **R.**

If the Eucharist is not celebrated, the intercessions end with the Lord's Prayer:

The Lord's Prayer

(see page 17)

Let us pray to the Father,
that the kingdom of light and peace may come in all its fullness:

Our Father ...

Y Fendith a'r Gollwng

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder, arnoch a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen,
a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith
ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Mae'r Arglwydd yn dyfod. Ewch allan i'w gyfarfod.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Yn enw Crist. Amen.

Blessing and Dismissal

The Lord be with you.

And also with you.

Christ the Sun of righteousness shine on you and scatter the darkness from before you and the blessing of Almighty God, the Father and the Son and the Holy Spirit be among you and remain with you always. **Amen.**

The Lord is coming. Go out to meet him.

Go in peace to love and serve the Lord.

In the name of Christ. **Amen.**